| Person Perthnasol | Ymchwiliad | Dyddiad rhoi hysbysiad penderfynu | Canfyddiadau a dyfarniad y Comisiynydd |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir y Fflint | **CS1055** Ym mis Tachwedd 2021, cyflwynodd y Comisiynydd Adroddiad Terfynol ymchwiliad CSG803 i Gyngor Sir y Fflint (Cyngor) oedd yn dyfarnu eu bod wedi methu â chydymffurfio â Safon 19. Roedd yr Hysbysiad Penderfynu yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd camau penodol i atal y methiant rhag parhau neu rhag cael ei ailadrodd. Roedd rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cwblhau'r cam gorfodi o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. Ar gais y Cyngor, rhoddwyd 6 mis ychwanegol hyd 01/09/22 i'r Cyngor gwblhau rhan benodol o Gam Gorfodi 1. Wedi'r cyfnod estynedig yma, cafwyd cais pellach gan y Cyngor am 5 mis ychwanegol i gyflawni'r Cam Gorfodi yn llawn. Cododd hyn amheuaeth nad oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion rhan benodol o'r Cam Gorfodi hysbysiad cydymffurfio CSG803 o fewn yr amserlen na'r estyniad a roddwyd iddynt. | 27/03/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Dyma'r cam gorfodi a roddwyd i'r Cyngor yn sgil ymchwiliad CSG803: Safon 19<br>Cam gorfodi<br>1. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint wneud y canlynol:<br>o Ail-ystyried gofynion Safon 19<br>o Adolygu ei ganllawiau i adlewyrchu gofynion y safon<br>o Newid ei drefniant delio â galwadau ffôn i gydymffurfio â gofynion Safon 19<br>o Hyfforddi staff perthnasol am ofynion y safon<br>2. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth i mi ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>Ystyried cydymffurfiaeth â'r cam gorfodi<br>3.2 Wrth wneud cais am yr estyniad cyntaf i gwblhau'r cam penodol o Gam Gorfodi 1 yn Chwefror 2021, dywedodd y Cyngor: "Mae gan fwy na 2300 o weithwyr rifau ffôn uniongyrchol. Bydd angen i ni archwilio sgiliau, capasiti ac adnoddau presennol er mwyn sicrhau bod datrysiadau effeithiol ar waith ar gyfer y gweithwyr hyn. Bydd angen i ni adolygu gallu ein technoleg bresennol hefyd a gweithredu datrysiadau teleffoni newydd os oes angen. Hoffem estyniad ar gyfer newid ein trefniadau delio gyda galwadau er mwyn rhoi amser i'n gwasanaethau roi datrysiadau teleffoni amgen ar waith, fel caniatáu i gwsmeriaid ddewis iaith, a gwneud trefniadau amgen o fewn gwasanaethau |

eraill. Hoffem ofyn am estyniad o 6 mis i sicrhau bod pob gwasanaeth a gweithiwr sy'n darparu rhifau deialu uniongyrchol yn gallu bodloni'r gofynion yn llawn."

3.3 Yn yr ail gais am estyniad gwnaethpwyd ar 31/08/22, dywedodd y Cyngor:

"[…] Rydym wedi cyflogi trydydd parti sydd ar hyn o bryd yn darparu gwasanaeth ateb galwadau dwyieithog y tu allan i oriau ar gyfer y Cyngor. Mae'r darparwr wedi cytuno, mewn egwyddor, i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar gyfer galwadau deialu uniongyrchol i'r Cyngor lle nad yw swyddog yn siarad Cymraeg.

Rydym yn gweithio gyda'r darparwr i weld sut y bydd yr agweddau technegol yn gweithio e.e. llwybro galwadau ac unrhyw drefniadau ychwanegol y bydd angen iddynt eu rhoi ar waith i ddarparu'r gwasanaeth. Bydd angen i ni gyfleu newidiadau pwysig i'n gweithlu hefyd. Rydym yn cwrdd â'r darparwr ym mis Medi i fynd rhagddi gyda'n cynlluniau a chadarnhau costau. Unwaith y cytunir arnynt, bydd angen cyflwyno'r cynigion i'r Tîm Prif Swyddogion i'w cymeradwyo. Mae hyn yn golygu na fydd ein cynnig ar gyfer ymateb i alwadau Cymraeg drwy rifau deialu uniongyrchol, yn anffodus, ar waith erbyn 1 Medi, 2022.
Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Tîm Prif Swyddogion, bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer rhoi'r cynnig ar waith. Caiff copi o'r cynllun gweithredu hwn ei anfon atoch cyn gynted â phosibl."

3.4 Yn eu tystiolaeth i'r ymchwiliad yma, mae'n ymddangos bod y gwaith o drafod gyda'r trydydd parti wedi cychwyn ym mis Mehefin 2022. Mae'n ymddangos, o gais y Cyngor am estyniad ym mis Chwefror 2022, eu bod dal i geisio

canfod datrysiad mewnol fuasai yn eu galluogi i gydymffurfio gyda'r Safon hon.

3.5 Fodd bynnag, mae Mehefin 2022 dros 6 mis ar ôl i'r Adroddiad Terfynol gael ei gyhoeddi. Er fy mod yn derbyn bod gwaith mewnol ac ystyriaethau cyn bod modd cychwyn trafod gyda thrydydd parti, mae'n destun pryder i mi, os oedd yn dod yn amlwg i'r Cyngor eu bod yn mynd i orfod dibynnu ar wasanaeth allanol i allu cydymffurfio, nad oedd y trafodaethau hynny wedi cychwyn yn gynharach. Dylai sefydliad ystyried, wrth dderbyn Adroddiad Arfaethedig ac felly cyn derbyn Adroddiad Terfynol, sut y byddent yn mynd ati i gydymffurfio gydag unrhyw gamau gorfodi yn ystod yr amser sydd wedi ei bennu i'w cwblhau. Dylai ystyriaeth gydwybodol gael ei roi i amserlen unrhyw Gamau Gorfodi sydd yn cael eu gosod yn yr Adroddiad Arfaethedig. Dylai'r Cyngor fod wedi rhoi gwybod i'r Comisiynydd fel rhan o'u sylwadau yn ymateb i'r Adroddiad Arfaethedig os oedd rheswm penodol nad oedd y Cyngor am allu cydymffurfio gyda'r Camau Gorfodi arfaethedig o fewn yr amser oedd wedi ei bennu i'w cwblhau. Nid ydi disgwyl hyd bron i'r diwrnod olaf mae'r Camau Gorfodi i fod wedi eu cwblhau i ofyn am estyniad yn dderbyniol.

3.6 Fodd bynnag, o dystiolaeth y Cyngor, mae'n ymddangos i mi eu bod nawr wedi buddsoddi mewn gwasanaeth sydd wedi eu galluogi i gydymffurfio gyda'r Hysbysiad Penderfynu. Mae'r gwasanaeth yma nawr yn fyw ac felly bod y Cyngor yn gallu cynnig gwasanaeth i ddefnyddwyr sydd yn cydymffurfio gyda Safon 19 yn llawn.

3.7 Rwyf hefyd yn falch i ddarllen am y system monitro siopwr dirgel mae'r Cyngor wedi ei roi mewn lle er mwyn gwerthuso eu gwasanaeth a bod trafodaethau cyson am

barhau gyda’r trydydd parti. Mae’r gwaith mae’r Cyngor wedi ei ddatblygu gyda Choleg Cambria hefyd yn galonogol ac anogaf y Cyngor i barhau gyda’r bartneriaeth yna i geisio cynyddu sgiliau Cymraeg ei staff.

3.8 Hoffwn fodd bynnag ei wneud yn glir fod y Cyngor yn eu tystiolaeth wedi cyfeirio at rifau ffôn uniongyrchol ‘cyhoeddedig’ ar eu gwefan mewn un rhan o’u hymateb. Hoffwn atgoffa’r Cyngor bod Safon 19 yn cynnwys unrhyw rif ffôn uniongyrchol sydd ar gael i’w defnyddio gan y cyhoedd. Gall hynny gynnwys rhifau wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ond hefyd rhifau sydd wedi eu nodi mewn pennyn llythyr i’r cyhoedd neu fel rhan o fanylion cyswllt mewn llofnod e-bost sydd yn cael ei yrru yn allanol. Hyderaf fod y Cyngor wedi gwneud trefniadau pwrpasol gyda’r trydydd parti sydd yn cwmpasu'r holl oblygiadau hynny.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â Hysbysiad Penderfynu Ymchwiliad CSG803

3.9 Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda’r Hysbysiad Penderfynu o fewn yr amser estynedig rhoddwyd iddynt gwblhau Cam Gorfodi 1 yn llawn.

3.10 Rhaid nodi fodd bynnag fod tystiolaeth y Cyngor yn dangos eu bod bellach wedi sicrhau trefniant sydd yn golygu eu bod yn gallu cydymffurfio gyda Safon 19 a Hysbysiad Penderfynu ymchwiliad CSG803. Fodd bynnag gofynnaf i’r Cyngor barhau i werthuso ei wasanaeth yn rheolaidd ac i sicrhau fod y trefniant gyda’r trydydd parti yn bwrpasol i gwmpasu holl oblygiadau safon 19.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu cydymffurfio â Hysbysiad Penderfynu Ymchwiliad CSG803.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu cydymffurfio â Hysbysiad Penderfynu Ymchwiliad CSG803.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor gael gweithdrefn ble os oes ymchwiliad yn cael ei gynnal gan Gomisiynydd y Gymraeg, bod ystyriaeth gydwybodol yn cael ei roi i amserlen unrhyw Gamau Gorfodi sydd yn cael eu gosod gan y Comisiynydd yn yr Adroddiad Arfaethedig. Dylai'r Cyngor ystyried yr amserlen yn ofalus, gan roi gwybod i'r Comisiynydd fel rhan o'u sylwadau yn ymateb i'r Adroddiad Arfaethedig os oes rheswm penodol na all y Cyngor gydymffurfio gyda Chamau Gorfodi arfaethedig o fewn yr amser sydd wedi ei bennu i'w cwblhau.
2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw ar gyfer staff perthnasol ble os oes Camau Gorfodi yn cael eu gosod gan y Comisiynydd, bod gweithdrefn mewn lle i sicrhau fod y Camau yn cael eu cwblhau yn unol â'r amserlen.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 2.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Argymhellion yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Atgoffaf y Cyngor bod Safon 19 yn cynnwys unrhyw rif ffôn uniongyrchol sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd. Gall hynny gynnwys rhifau wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ond hefyd rhifau sydd wedi eu nodi mewn pennyn llythyr i'r cyhoedd neu fel rhan o fanylion cyswllt mewn llofnod e-bost sydd yn cael ei yrru yn allanol. Gofynnaf i'r Cyngor sicrhau eu bod wedi gwneud trefniadau pwrpasol gyda'r trydydd parti sydd yn cwmpasu holl ofynion y Safon.<br>2. Dylai'r Cyngor barhau gyda'u gwaith monitro o'r gwasanaeth yn unol â Safon 19 i sicrhau safon.<br>3. Dylai'r Cyngor barhau gyda'u ymdrechion i gynyddu capasiti sgiliau Cymraeg y gweithlu.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 27/03/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1033** Ar 29/07/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cyflwynodd yr achwynydd gŵyn am y ffaith bod 'togl' dewis iaith ar borth ar y wefan 'GwerthwchiGymru' yn ddiffygiol, ac yn achosi iddo orfod cychwyn o'r newydd gyda'r broses ar y fersiwn | 14/03/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 6: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 6 pan mae Gweinidogion Cymru yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid iddo beidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos yma cafodd safon 6 ei gynnwys yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad gan bod amheuaeth bod gohebiaeth Gymraeg yn cynnwys dolen i ochr Saesneg porth GwerthwchiGymru. Ar ôl derbyn tystiolaeth gan Weinidogion Cymru fe ddaeth i'r amlwg bod yr ohebiaeth |

Gymraeg yn hytrach na throsglwyddo i'r un dudalen ag oedd ar y fersiwn Saesneg. Cyfeiriodd yr achwynydd hefyd at ddolen o neges e-bost a oedd yn ei gyfeirio at y wefan Saesneg.

anfonwyd at yr achwynydd yn Saesneg. Gan bod yr ohebiaeth anfonwyd at yr achwynydd yn Saesneg nid yw'r ffaith bod y ddolen yn yr ohebiaeth yn arwain at ochr Saesneg y porth GwerthwchiGymru yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 6.

Safon 55: Os oes gan sefydliad dudalen Gymraeg ar eu gwefan sydd yn cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid i'r corff nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg. Yn yr achos yma, fe gysylltodd achwynydd gyda'r Comisiynydd i esbonio nad oedd modd newid o un iaith i'r llall ar y porth GwerthwchiGymru er bod dolen ar dudalennau Saesneg y porth. Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru nad oedd y ddolen yn arwain yr achwynydd at dudalen Gymraeg cyfatebol ond yn hytrach ar dudalen flaen y porth. Gan nad oedd y ddolen ar dudalennau Saesneg y porth yn arwain yr achwynydd at dudalen Gymraeg cyfatebol ond yn hytrach ar dudalen flaen y porth, nid wyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio gyda safon 55 yn yr achos yma.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 6 ond bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 55.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 55.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 55: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safon 55 mewn perthynas â'r porth GwerthwchiGymru.

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda safon 55 mewn perthynas â'r porth GwerthwchiGymru er mwyn sicrhau bod pob tudalen Saesneg yn cynnwys dolen sy'n arwain yn uniongyrchol i dudalen gyfatebol Gymraeg yn hytrach nag i'r hafan.
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.
Bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 55 mewn perthynas â'r porth GwerthwchiGymru erbyn mis Gorffennaf 2024.

Amserlen: Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 2: Argymhelliad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rwy’n argymell bod Gweinidogion Cymru yn cymryd camau i sicrhau ei bod yn cadarnhau dewis iaith unigolion sy’n cofrestru ar gyfer gwasanaethau GwerthwchiGymru er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safon 2 wrth anfon gohebiaeth atynt.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 14/03/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | **CS1020** Ar 09/06/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag ymweliad aelod o’r cyhoedd (P) a’i blentyn ag Ysbyty Glan Clwyd ar 30 Mehefin 2022. Enw Cymraeg sydd ar blentyn P. Fe honnodd P bod meddyg wedi dod i helpu ei blentyn ar ôl iddi lewygu o flaen prif ddrws yr ysbyty ac y bu’r meddyg ofyn i’r plentyn, ar ôl clywed ei henw, “Have you got a nickname? There's no way I can pronounce that name”. Teimlodd P yr oedd geiriau honedig y meddyg yn dangos diffyg parch tuag at ei blentyn. | 10/03/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 102: Er mwyn cydymffurfio â safon 102, mae'n ofynnol i D ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i’w gyflogeion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg, eu dealltwriaeth o’r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau’r Gymraeg a’u dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. Mae safon 102 yn gosod dyletswydd ar D i ddarparu cyrsiau’r hyn i bob un o’i gyflogeion presennol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod D wedi sicrhau bod pob un o’i gyflogeion wedi bod ar gyrsiau hyfforddi yn unol â safon 102. Mae tystiolaeth bod D wedi darparu cyrsiau hyfforddi i gyfran o’i gyflogeion yn unig.<br><br>Safon 103: Mae safon 103 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth i’w holl gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg. Mae D yn trefnu i’r wybodaeth hon gael ei darparu fel rhan o sesiynau anwytho i staff newydd ar ddechrau eu cyfnod |

gyda'r sefydliad. Nid oes tystiolaeth bod D wedi sicrhau bod ei holl gyflogeion newydd wedi derbyn gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg drwy'r sesiynau anwytho dan sylw, gan nad yw D yn casglu nac yn cofnodi'r data hwn. Ystyriaf felly bod D wedi darparu gwybodaeth i gyfran o'i gyflogeion newydd yn unig.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safonau 102 ac 103.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safonau 102 ac 103.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 102 a 103: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Yn unol â safon 102, rhaid i D ddarparu cyrsiau hyfforddi i bob un o'i gyflogeion presennol er mwyn iddynt ddatblygu–
- ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
- dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; ac
- dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2. Yn unol â safon 103, rhaid i D ddarparu gwybodaeth i bob un o’i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg (drwy sicrhau bod pob cyflogai newydd wedi bod ar gwrs ymwybyddiaeth iaith Gymraeg sy’n cynnwys yr wybodaeth hon).<br>3. Rhaid i D gadw cofnod o’r nifer a’r canran:<br>- o’i holl gyflogeion sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 102; ac<br>- o’i holl gyflogeion newydd sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 103.<br>4. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.<br><br>Amserlen: O fewn 9 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 10/03/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | **CS1023** Ar 23/06/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Dyma gŵyn am lythyrau Saesneg yn unig gafodd eu hanfon at y cleient (y person | 09/03/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 2: Mae safon 2 yn berthnasol i ohebiaeth sy’n cael ei anfon yn benodol at unigolyn. Yn yr achos yma, mae’r Cyngor yn cadarnhau bod yr ohebiaeth dan sylw’r gŵyn wedi ei anfon at nifer o bobl, sydd felly yn dod o dan ofynion safon 4. O ganlyniad, nid yw safon 2 yn berthnasol i’r achos yma, ac felly nid oes methiant i gydymffurfio gyda’r safon. |

mae'r achwynydd yn cynrychioli). Mae'r llythyrau yn ymwneud â thenantiaeth y cleient gyda'r Cyngor.

Safon 4: Mae safon 4 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor anfon unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn Gymraeg ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg. Yn yr achos yma, anfonwyd pedwar llythyr yn uniaith Saesneg at y cleient. Roedd rhain yn lythyrau oedd yn mynd at nifer o bersonau. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 4.

Safon 132: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cyrsiau hyfforddi i'w staff ddatblygu: ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Cafodd y safon yma ei hychwanegu oherwydd amheuaeth nad oedd yr aelod staff newydd yn ymwybodol o'r ddyletswydd i gydymffurfio gyda'r safonau. Mae'r Cyngor wedi dangos yn ei dystiolaeth bod y cyrsiau y mae'n ei ddarparu yn ddigonol i gydymffurfio, ac nid oes tystiolaeth ei fod wedi methu cydymffurfio yma. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 132.

Safon 133: Mae safon 133 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor wedi dangos tystiolaeth ei fod yn darparu gwybodaeth am y Gymraeg i bob aelod staff newydd mewn modiwl e-ddysgu. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod methiant wedi bod i gydymffurfio gyda safon 133, ac mae'n debygol mai camgymeriad gan yr unigolyn oedd yma yn hytrach na diffyg ym mhrosesau hyfforddi'r Cyngor. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 133.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safonau 2, 132 ac 133, ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 4: Gofyniad i gymryd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod staff yr adran berthnasol i'r gŵyn hon yn ymwybodol o ofynion safon 4 yn llawn. Rhaid sicrhau hyn drwy gynnal hyfforddiant penodol am ofynion y safon, wnaiff eu hatgoffa bod rhaid i bob gohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau gael ei anfon yn Gymraeg ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg.
2. Rhaid hefyd tynnu sylw staff yr adran berthnasol at y ffaith nad yw unrhyw ddewis iaith flaenorol sydd ar gofnod yn berthnasol wrth gydymffurfio â safon 4. Hynny yw, hyd yn oed os mai Saesneg yw dewis iaith y cwsmer, pan mae'r ohebiaeth yn fath sy'n mynd at nifer o bersonau, rhaid i'r ohebiaeth hwnnw gael ei anfon yn Gymraeg hefyd. Rhaid i'r Cyngor ychwanegu brawddeg i gyfleu hyn at y cymal ar safon 4 yn ei fodiwl e-ddysgu 'Welsh Language Standards'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.<br><br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol, sef erbyn 30/06/2023.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 09/03/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | **CS123(a)** Ar 25/02/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (P). Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cafodd mam P ei chymryd i adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Glan Clwyd ar 20 Chwefror 2022. Mae P yn honni nad oedd unrhyw staff a oedd yn medru'r Gymraeg ar y dderbynfa yno. | 23/02/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 50: Mae safon 50 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa y mae'n ei roi ar gael yn Saesneg yn ei dderbynfa, hefyd yn cael ei roi ar gael yn Gymraeg. Mae'r safon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau na chaiff unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn ei dderbynfa ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. Ar 20 Chwefror 2022, fe ymwelodd aelod o'r cyhoedd (P) ag adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Glan Clwyd. Nid oedd unrhyw staff a oedd yn medru'r Gymraeg yn gwasanaethu derbynfa'r adran yn ystod ymweliad P. O ganlyniad, fe fethodd P â derbyn gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg ar y dderbynfa. Yn unol â safon 50, roedd yn ofynnol i D roi gwasanaeth derbynfa ar gael i P yn Gymraeg ar y dderbynfa. Fe fethodd D â sicrhau hyn, ac o ganlyniad, methwyd â chydymffurfio â gofynion y safon hon. |

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 50.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 50.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 50: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D sicrhau bod yna gapasiti o fewn y gronfa o staff sy'n gyfrifol am wasanaethu derbynfa adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Glan Clwyd i sicrhau y gall ddarparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 50 (ar unrhyw adeg y darperir gwasanaeth derbynfa cyfatebol yn Saesneg).
2. Wrth gynllunio pa aelodau staff a wneir yn gyfrifol am roi gwasanaeth derbynfa ar gael yn y dderbynfa fesul diwrnod, rhaid i D ddynodi aelodau o staff sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Gymraeg yn unol â safon 50 i weithio ar y dderbynfa.
3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 23/02/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **CS1009** Ar 06/05/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (P). Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd cwyn P yn ymwneud ag ymweliad ei mam (A) i Ward 1 yn Ysbyty Llwynhelyg ar 14 Mawrth 2022. Honnodd P bod nyrs o Ward 1 wedi gofyn i P a oedd A yn "confused person", heb eglurhad pellach pam eu bod yn gofyn hynny. Roedd P yn ystyried y gwnaed yr ymholiad oherwydd roedd staff yr ysbyty wedi methu ag adnabod yr oedd A yn siarad Cymraeg. Teimlodd P bod hyn yn dangos diffyg ymwybyddiaeth a pharch tuag at y Gymraeg. | 23/02/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 102: Er mwyn cydymffurfio â safon 102, mae'n ofynnol i D ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'w gyflogeion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, eu dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a'u dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae safon 102 yn gosod dyletswydd ar D i ddarparu cyrsiau'r hyn i bob un o'i gyflogeion presennol. Fodd bynnag, nid yw D wedi sicrhau bod pob un o'i gyflogeion wedi bod ar gyrsiau hyfforddi yn unol â safon 102. Mae tystiolaeth bod D yn darparu cyrsiau hyfforddi i gyfran o'i gyflogeion yn unig ac nid yw cynnwys y cyrsiau a ddarperir yn diwallu gofynion y safon yn llawn.<br><br>Safon 103: Mae safon 103 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth i'w gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Fel rhan o broses cynefino corfforaethol y bwrdd iechyd, mae D yn trefnu i'r wybodaeth hon gael ei darparu drwy'r cyflwyniad a gyflwynir fel rhan o'i sesiwn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg (lle mae aelod o dîm Gwasanaethau Cymraeg D ar gael i siarad drwy'r cyflwyniad ac ateb unrhyw gwestiynau) a thrwy'r adnoddau 'Rho gynnig arni' a ddosberthir i'r rhai sy'n bresennol yn y |

sesiwn. Mae D wedi darparu'r sesiynau dan sylw i gyfran o'i gyflogeion newydd yn unig ac nid yw cynnwys y sesiynau yn diwallu gofynion y safon yn llawn.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safonau 102 a 103.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safonau 102 a 103.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 102 a 103: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (D) baratoi cynllun gweithredu. Rwyf yn gwneud hyn at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gydymffurfio â safonau 102 a 103 rhag parhau neu gael ei ailadrodd, sef y ddyletswydd yn unol â:
o safon 102 i D ddarparu cyrsiau hyfforddi i bob un o'i gyflogeion er mwyn iddynt ddatblygu –
a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);

b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; ac
c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- safon 103 i D ddarparu gwybodaeth i bob un o'i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Disgwylir i'r cynllun gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau cyffredinol a gynhwysir yn "Dogfen Gyngor: Canllaw ar gyfer paratoi cynllun gweithredu yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg."

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- disgrifiad o bob un o'r camau y bydd D yn eu cymryd:
• yn unol â gofynion safon 102 i sicrhau ei fod yn darparu cyrsiau i bob un o'i gyflogeion er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg (a'u dealltwriaeth iddynt weithredu yn unol â'r safonau ac am y modd y gellid defnyddio'r iaith yn y gweithle);
• yn unol â gofynion safon 103) i sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth i bob un o'i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg;
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir) gyda:
• phob un o'r camau mewn perthynas â safon 102 i'w cyflawni mewn dim mwy na 18 mis o'r dyddiad y mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo'r cynllun;
• phob un o'r camau mewn perthynas â safon 103 i'w cyflawni mewn dim mwy na 6 mis o'r dyddiad y mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo'r cynllun;

- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu pob un o'r camau a nodir yn y cynllun;
- pwy o'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am graffu ar gynnydd D yn erbyn y cynllun gweithredu;
- disgrifiad o'r drefn oruchwylio a fabwysiedir i sicrhau cyflawniad y cynllun;
- yr adnoddau (e.e. cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Safon 102

Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—

- bod D yn cynnal awdit o'i gyflogeion presennol i sefydlu'r canlynol ac yn adrodd ar y canlynol:
  ▪ nifer y cyflogeion presennol sydd gan D;
  ▪ nifer a chanran y cyflogeion hynny nad ydynt wedi bod ar gyrsiau hyfforddi yn unol â gofynion safon 102;
- ar sail canlyniadau'r awdit, bod D yn llunio ac yn gweithredu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr er mwyn darparu cyrsiau hyfforddi i bob un o'i gyflogeion, nad ydynt eto wedi bod ar gyrsiau hyfforddi yn unol â safon 102, o fewn oes y cynllun;
- bod D yn asesu ac yn diwygio cynnwys y cyrsiau hyfforddi i sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth ddigonol i ddiwallu'r gofyniad iddynt ddatblygu ymwybyddiaeth cyflogeion o'r Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):
  ▪ gwybodaeth i ddatblygu gallu cyflogeion (e.e. rhai nad ydynt eto yn deall y Gymraeg neu wedi dod i gysylltiad, neu wedi cael llawer o gysylltiad, â'r Gymraeg) i adnabod a deall pryd mae cleifion yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg;

▪ hanes yr iaith Gymraeg;
▪ lle’r Gymraeg yn niwylliant Cymru;
▪ tarddiad yr iaith Gymraeg;
▪ ffeithiau am yr iaith Gymraeg (e.e. gwybodaeth ynglŷn â’r Gymraeg o’r Cyfrifiad);
▪ gwybodaeth am yr iaith Gymraeg yn yr ardal y mae’r corff yn eiwasanaethu;
▪ manteision a phwysigrwydd defnyddio’r Gymraeg;
▪ gwybodaeth am Gomisiynydd y Gymraeg

o bod D yn asesu ac yn diwygio cynnwys y cyrsiau hyfforddi i sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth ddigonol i ddiwallu’r gofyniad iddynt ddatblygu dealltwriaeth o’r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau’r Gymraeg; gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol):

▪ gwybodaeth am ba safonau mae’n rhaid i’r corff gydymffurfio â nhw;
▪ gwybodaeth am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a’i amcanion.

- bod D yn asesu ac yn diwygio cynnwys y cyrsiau hyfforddi i sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth ddigonol i ddiwallu’r gofyniad iddo ddatblygu dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle; gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol):

▪ gwybodaeth am sut mae’r corff yn hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle;
▪ gwybodaeth am y safonau gweithredu yn Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 7) 2018 (ac sydd wedi eu gosod ar y corff yn ei hysbysiad cydymffurfio) a’r hawliau sy’n deillio o’r rheiny.

Safon 103
Disgwylir i’r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn cynnal awdit o’i gyflogeion presennol i sefydlu’r canlynol ac yn adrodd ar y canlynol:
• nifer y cyflogeion presennol sydd wedi eu recriwtio i’r sefydliad ers 30/05/2019 (“cyflogeion newydd”);
• nifer a chanran y cyflogeion newydd nad ydynt wedi bod i sesiwn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg;
- ar sail canlyniadau’r awdit, bod D yn llunio ac yn gweithredu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr er mwyn darparu sesiwn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg i bob un o’i gyflogeion newydd, nad ydynt wedi bod i sesiwn, o fewn oes y cynllun;
- bod D yn asesu ac yn diwygio cynnwys y sesiwn hyfforddiant i sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth ddigonol i ddiwallu’r gofyniad iddo godi ymwybyddiaeth cyflogeion o’r Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol):
▪ gwybodaeth i godi gallu cyflogeion (e.e. rhai nad ydynt eto yn deall y Gymraeg neu wedi dod i gysylltiad, neu wedi cael llawer o gysylltiad, â'r Gymraeg) i adnabod a deall pryd mae cleifion yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg;
▪ hanes yr iaith Gymraeg;
▪ lle’r Gymraeg yn niwylliant Cymru;
▪ tarddiad yr iaith Gymraeg;
▪ ffeithiau am yr iaith Gymraeg (e.e. gwybodaeth ynglŷn â’r Gymraeg o’r Cyfrifiad);
▪ gwybodaeth am yr iaith Gymraeg yn yr ardal y mae’r corff yn eiwasanaethu;
▪ manteision a phwysigrwydd defnyddio’r Gymraeg;

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ▪ gwybodaeth am Gomisiynydd y Gymraeg, safonau'r Gymraeg a dyletswyddau eraill yn ymwneud â'r Gymraeg.<br><br>Amserlen:<br>Rhaid i D lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.<br><br>Erbyn 4 wythnos o ddyddiad cyflawni y cam gweithredu olaf a gynhwysir yn y cynllun gweithredu, rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cyflawni pob un o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu (erbyn y dyddiad cyflawni perthnasol ar gyfer cyflawni pob cam unigol).<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 23/02/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | **CS115** Ar 10/01/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni iddo ffonio rhif ffôn cyffredinol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyngor) ar 01978 298997. Wedi dewis yr opsiwn | 10/02/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 11: Rhaid i gorff sicrhau pan fo person yn cysylltu â hwy ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, fod y corff yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny - (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar |

| | |
|---|---|
| Cymraeg, honnodd yr achwynydd iddo dderbyn neges peiriant ateb yn dweud wrtho ddewis yr opsiwn Saesneg neu i ffonio nôl 'ar y diwrnod gwaith nesaf'. | gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. Ni dderbyniodd yr achwynydd unrhyw wasanaeth Cymraeg yn ystod ei alwad ffôn i'r Cyngor. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 11. Ymhellach, mae'n ymddangos mai un staff rhan amser yn unig sydd yn delio gyda galwadau ffôn Cymraeg i brif rifau ffôn y Cyngor. Ar y diwrnodau hynny pan nad yw'r aelod hwnnw o staff yn gweithio neu ar adegau pan yn gweithio ond ddim ar gael i gymryd galwad, ni fydd unrhyw ddarpariaeth ffôn Cymraeg yn unol â'r safonau ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oes gan y Cyngor unrhyw drefniadaeth mewn lle chwaith i geisio cynnig gwasanaeth Cymraeg yn unol â'r safon pan nad yw'r aelod hynny o staff ar gael. Mae prinder swyddogion sydd yn siarad Cymraeg a dibyniaeth y Cyngor ar yr un swyddog yn unig i sicrhau'r gwasanaeth Cymraeg yn mynd i olygu na fydd argaeledd y gwasanaeth Cymraeg ar gael yr un mor gyson â'r gwasanaeth Saesneg.<br><br>Safon 17: Rhaid i gorff sicrhau pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, eu bod yn rhoi gwybod i'r personau sy'n galw (unai drwy gyfrwng neges wedi eihawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Gan fod yr alwad yn ddarostyngedig i'r safonau, yn ystod oriau gwaith ac nad oedd yr achwynydd wedi cyrraedd man yn y sgwrs lle'r oedd yn delio gyda phwnc penodol, nid yw safon 17 yn berthnasol yma. Dylai'r achwynydd fod wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg. Nid oes angen i mi felly ystyried cydymffurfiaeth y Cyngor gyda safon 17 gan nad ydi'r safon yn berthnasol i amgylchiadau'r gŵyn hon. Fodd bynnag, |

mae'n amlwg i mi petai safon 17 yn berthnasol yma a'i fod yn achlysur lle, er enghraifft, fod y Swyddfa wedi cau neu berson i drafod pwnc penodol ddim ar gael, na fyddai'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda gofynion y safon. O dan y safon, rhaid i unrhyw neges nodi pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Nid ydi'r neges gyntaf yn rhoi unrhyw esboniad o bryd byddai gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae'r neges bron yn annog unigolion sydd angen gwasanaeth i ddewis yr opsiwn Saesneg gan nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei roi (yn yr opsiwn neges gyntaf) pryd bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae cwsmeriaid yn disgwyl eu bod yn gallu defnyddio gwasanaethau yn gyflym ac yn hawdd, a bod llwybrau clir i'r gwasanaeth. Gall gwasanaeth Cymraeg o safon isel arwain at ddiffyg hyder neu ymddiriedaeth mewn gwasanaethau Cymraeg sy'n dod yn rhwystr i'w defnyddio yn y dyfodol. Mae'n debygol iawn na fuasai rhywun sydd yn derbyn neges o'r fath yn ceisio defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg eto. Os yw'r Cyngor am roi neges awtomataidd yn unol â Safon 17 o dan yr amgylchiadau cywir, mae angen i'r Cyngor sicrhau fod gwybodaeth glir yn cael ei roi am bryd fydd y gwasanaeth hwnnw ar gael.

Safon 127: Rhaid i gorff sicrhau eu bod yn asesu sgiliau Cymraeg eu cyflogeion. Er mwyn cydymffurfio â'r safon a mynd ymlaen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, nid yw'n ddigon i ond 'annog', 'atgoffa' neu i hyd yn oed ei wneud yn 'ofynnol' i staff i ddiweddaru eu cofnod o'u lefel sgiliau iaith. Mae'r safonau a'r Cod Ymarfer yn gofyn i'r Cyngor asesu'r sgiliau yma, i gofnodi'r sgiliau ac i ail asesu yn flynyddol er mwyn sicrhau fod y cofnod yma yn gyfredol. Mae asesu yn fwy na chasglu gwybodaeth. Rhaid dadansoddi'r

wybodaeth a dod i gasgliadau am arwyddocâd y data a’r sgiliau iaith sydd gan staff o fewn y sefydliad. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno sy'n dangos sut mae’r Cyngor yn cynnal asesiad o sgiliau iaith staff. Does dim wedi ei gyflwyno yn dangos sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r wybodaeth yna i benderfynu pa sgiliau iaith sydd eu hangen arnynt. Does dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno yn dangos sut a phryd mae'r Cyngor yn edrych ac yn ystyried y data. Does chwaith ddim tystiolaeth yn dangos yr adroddir ar hynny i uwch swyddogion ac aelodau etholedig na bod hyn yn cael ei wneud yn flynyddol. Mae staff yn rhan allweddol o wyneb cyhoeddus sefydliad, yn enwedig felly staff ‘rheng-flaen’ sefydliad sydd yn delio â galwadau ffôn a gwasanaeth cwsmer. Gall staff ddylanwadu ar yr iaith y bydd pobl yn ei ddefnyddio wrth gyrchu gwasanaeth gyda sefydliad. Mae asesu sgiliau iaith felly yn holl bwysig er mwyn cynyddu’r rhai sy’n gallu rhoi gwasanaeth Cymraeg o fewn sefydliad. Un o’r prif ddylanwadau ar allu sefydliadau i gael darpariaeth Gymraeg addas yw’r nifer o’u staff sydd â sgiliau Cymraeg. Dylai asesu sgiliau iaith staff felly fod yn hollbwysig i’r Cyngor er mwyn manteisio ar y sgiliau sydd ganddynt yn barod, magu hyder y staff ac ychwanegu at gapasiti’r Gymraeg drwy recriwtio a hyfforddi yn ddibynnol ar y sgiliau sydd o fewn y gweithle yn barod. Mae yma ddiffyg cynllunio a diffyg ymwybyddiaeth o sut mae adnabod y berthynas rhwng sgiliau iaith staff a'r gwasanaeth Cymraeg sydd angen ei ddarparu. Yng nghyd-destun gwasanaethau, mae diffyg systemau asesu sgiliau iaith staff yn gallu cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau Cymraeg gall y Cyngor ei gynnig. Dylai darparwyr sy’n cynnig gwasanaethau Cymraeg ganolbwyntio ar asesu sgiliau

Cymraeg eu staff er mwyn manteisio ar y sgiliau sydd ganddynt yn barod, magu hyder y staff ac yna ychwanegu at gapasiti'r Gymraeg drwy recriwtio a hyfforddi. Os nad yw'r Cyngor yn gallu cydymffurfio â'r safon hon, mae yn annhebygol iawn y gall fyth gydymffurfio â'r safonau eraill, yn enwedig os ydi'r Cyngor yn cael problemau recriwtio a chadw staff newydd sydd yn siarad Cymraeg. Os nad oes data digonol am sgiliau staff, does dim modd i'r Cyngor gynllunio yn ddigonol o ran staff sydd eu hangen yn y sefydliad er mwyn cydymffurfio â'r safonau. Mae yn amlwg bod bylchau yn y sgiliau iaith o fewn gweithlu ateb ffôn y Cyngor ac mae cael gweithdrefn gadarn i asesu sgiliau iaith staff yn unol â'r Safon yma yn hollbwysig er mwyn gallu manteisio, sylwi a llenwi'r bylchau sgiliau iaith sydd ganddo. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 127.

Safon 130: Mae'n rhaid i gorff ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'w gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ac o i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. Nid ydwyf wedi derbyn tystiolaeth ddigonol fod gweithdrefn mewn lle o ran cydymffurfiaeth â safon 130 ac o ran cynnig cyfleoedd i staff dderbyn hyfforddiant Cymraeg sylfaenol. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno fod staff sy'n rheoli pobl eraill yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 130.

Safon 131: Rhaid i gorff ddarparu cyfleoedd i'w cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu

eu sgiliau yn yr iaith. Er mwyn darparu cyfle, mae'n rhaid i'r Cyngor roi gwybod i'w staff fod y cyfle hwnnw yn bodoli. Nid wyf wedi cael unrhyw dystiolaeth gan y Cyngor i ddangos ei fod yn rhoi gwybod i'w staff fod y cyfle yn bodoli, ac felly ar sail hynny rwy'n dyfarnu fod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda safon 131.

Safon 132: Rhaid i gorff ddarparu'r hyfforddiant i'w cyflogeion ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg, a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Dylai'r corff ddarparu'r hyfforddiant i'w cyflogeion ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod staff (Cymraeg a di-gymraeg) yn gallu trin defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg mewn ffordd sensitif a gwybodus. Er bod y Cyngor wedi darparu peth data a gwybodaeth, roeddwn wedi gofyn am fanylion penodol ac wedi disgwyl derbyn mwy o dystiolaeth yn ymateb y Cyngor am natur a chynnwys y sesiynau ymwybyddiaeth am y Gymraeg sydd yn eu rhoi i staff yn unol â safon 132. Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno yn amwys ac amhendant. Does dim manylion wedi ei roi am hyfforddiant sydd yn cael ei roi ar staff ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Safon 133: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol ar gorff, os ydynt yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (e.e. fel rhan o'r broses ymsefydlu), i ddarparu gwybodaeth i'r cyflogeion hynny er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Er bod y Cyngor yn honni eu bod yn darparu hyfforddiant yn ymwneud â safonau'r Gymraeg i gyflogeion newydd, ac rwyf yn tybio mai dyna ydi'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno yn adran 3.30 uchod, nid ydwyf wedi

derbyn tystiolaeth ddigonol gan y Cyngor am yr hyfforddiant a bod gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg wedi eu darparu yn unol â Safon 133. Dylai’r corff gynnwys Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg fel rhan o hyfforddiant cynefino staff er mwyn sicrhau bod staff (Cymraeg a di-gymraeg) yn gallu trin defnyddwyr gwasanaethau sy’n siarad Cymraeg mewn ffordd sensitif a gwybodus. Gall y Cyngor fod yn cydymffurfio'n rhwydd gyda'r safonau hyn drwy greu pecyn y byddai modd ei ail ddefnyddio drosodd a throsodd ac mae'r faith nad ydynt wedi gwneud hynny ar ôl 6 mlynedd yn awgrymu difaterwch y Cyngor tuag at y gyfundrefn safonau. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 133.

Safon 136: Mae’r safon yn ei wneud yn ofynnol ar gorff wrth asesu’r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, i asesu’r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a’i chategoreiddio fel swydd sy’n gymwys i unrhyw un neu ragor o’r categorïau canlynol:
(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i’r swydd
(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol
(d) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Nid oes tystiolaeth wedi ei ddarparu yma fod ystyriaethau o anghenion Cymraeg yr adran a’r rôl wedi cymryd lle. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 136.

Safon 136A: Os bydd corff wedi categoreiddio swydd fel un sy’n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn

ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid i’r corff bennu hynny wrth hysbysebu’r swydd, a hysbysebu’r swydd yn Gymraeg. Mae felly dwy ran i’r gofyniad o dan y safon yma. Yn yr enghraifft o’r ddwy swydd ddisgrifiad sydd wedi ei gyflwyno, mae’r Cyngor wedi pennu fod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol. Mae un hysbysiad wedi ei gyflwyno yn y Gymraeg a Saesneg ac un hysbysiad wedi ei gyflwyno yn Gymraeg yn unig. Mae’r swydd ddisgrifiadau yr ydwyf wedi eu gweld felly wedi cael eu hysbysebu yn y Gymraeg. Ar yr hysbysiad dwyieithog, nid ydi’r hysbysiad Saesneg yn nodi anghenion iaith Gymraeg y swydd. Er bod y fersiwn Gymraeg yn nodi anghenion iaith y swydd, mae rhoi'r wybodaeth hynny ar y fersiwn Saesneg o’r hysbyseb hefyd yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio gyda’r safon ac er mwyn gwneud yn siŵr fod yr hysbyseb yn ei gyfanrwydd yn eglur. Os nad ydi’r hysbyseb Saesneg yn nodi anghenion iaith y swydd, gellir cwestiynu pa mor o ddifri yw’r Cyngor wrth recriwtio am annog a hybu ceisiadau yn y Gymraeg. Wrth beidio nodi anghenion iaith Gymraeg y swydd yn y disgrifiad Saesneg, gelir dadlau bod y Cyngor yn annog siaradwyr di-gymraeg y sgiliau iaith angenrheidiol i geisio am y swyddi hynny. Mae peidio nodi anghenion iaith y swydd yn y fersiwn Saesneg o’r swydd ddisgrifiad yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 136A.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 17 ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safonau 11, 127, 130, 131, 132, 133, 136 ac 136A.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safonau 11, 127, 130, 131, 132, 133, 136 ac 136A.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 11: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau eu bod yn rhoi gweithdrefn mewn lle fel bod defnyddwyr sydd yn dewis gwasanaeth Cymraeg wrth ffonio un o rifau ffôn cyffredinol y Cyngor yn derbyn y gwasanaeth Cymraeg hwnnw ar bob achlysur, yn unol â safon 11.
2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 17: Argymhellion yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Mae safon 17 yn berthnasol mewn sefyllfa lle nad yw gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae'r Cod Ymarfer yn cadarnhau gall sefyllfa lle nad yw gwasanaeth Cymraeg ar gael gynnwys: pan fo'r swyddfa ar gau ac felly nad oes gwasanaeth ffôn ar gael o gwbl, neu pan nad oes aelod

staff Cymraeg ar gael i ddelio â’r alwad (yn ôl gofynion safon 11). Ar yr achlysuron yma, rhaid i’r Cyngor:
- fabwysiadu gweithdrefn ble mae’n rhaid i staff roi neges sydd yn egluro y dyddiad a’r amser pan bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn unol â safon 17;
- darparu canllaw neu ddiwygio canllaw sydd eisoes yn bodoli, i’r holl staff sydd yn delio gyda galwadau ffôn perthnasol ar y weithdrefn negeseuon newydd;
- roi hyfforddiant i staff ar y weithdrefn newydd.

Safon 127: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i’r Cyngor sicrhau bod ganddynt weithdrefn er mwyn asesu sgiliau Cymraeg eu cyflogeion.
2. Rhaid i’r Cyngor greu gweithdrefn fel yr adroddir ar ddata a gesglir o’r gwaith asesu sgiliau cyfloegion i Uwch Swyddogion y Cyngor yn flynyddol. Rhaid i’r Uwch Swyddogion ystyried data'r canlyniadau hynny er mwyn gwneud penderfyniadau fydd yn ymateb i unrhyw flychau posibl yng ngallu’r Cyngor i ddiwallu gwasanaeth ffôn yn y Gymraeg ac unrhyw risgiau ynghylch eu cydymffurfiaeth gyda gofynion y safonau gyflenwi gwasanaeth ffôn.
3. Rhaid i’r Cyngor ddarparu copi o benderfyniadau Uwch Swyddogion y Cyngor a thystiolaeth ysgrifenedig er mwyn bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 2.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 130: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

| | |
|---|---|
| | 1. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu eu gweithdrefn hyfforddi fel eu bod yn darparu, hysbysebu ac annog cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'w gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol. Dylai'r hyfforddiant yma ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu i lefel sydd yn galluogi mwy o staff i allu delio'n llawn gydag ymholiadau ffôn gan y cyhoedd y Gymraeg yn unol â'r Safonau.<br>2. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu eu gweithdrefn hyfforddi i sicrhau fod cyflogeion sydd yn rheoli pobl eraill yn derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr yn unol â Safon 130.<br>3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1 a 2.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Safon 131: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Cyngor greu rhaglen i ddarparu cyfleoedd i'w cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.<br>2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Safon 132: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg |

1. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu rhaglen fel bod hyfforddiant yn cael ei roi i'w cyflogeion sydd yn ateb galwadau ffôn cyffredinol y Cyngor ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg, a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
2. Rhaid i'r Cyngor gael gweithdrefn mewn lle sydd yn sicrhau bod yr hyfforddiant yma'n cael ei ail gyflwyno i gyflogeion bob blwyddyn.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 133: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor addasu eu gweithdrefnau a sesiynau ymsefydlu i gynnwys ddarparu gwybodaeth i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
2. Rhaid i'r Cyngor baratoi pecyn gwybodaeth am y Gymraeg a rhannu'r pecyn hwn gyda phob aelod newydd o staff.
3. Dylai'r sesiynau gynnwys esboniad o angenrheidrwydd cynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg i ddefnyddwyr.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 3.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 136: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda safon 136.
2. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu'r camau mae'r Cyngor am eu cymryd sydd am eu galluogi i gydymffurfio gyda safon 136.
3. Rhaid i'r camau o fewn y Cynllun Gweithredu gynnwys ymrwymiad gan y Cyngor i:

- sicrhau bod staff sydd yn gyfrifol am asesu anghenion sgiliau iaith ar gyfer swydd newydd neu swydd wag yn derbyn arweiniad priodol fel eu bod yn llwyr ymwybodol o sut i wneud asesiadau sydd yn cydymffurfio gyda gofynion Safon 136;
- sicrhau bod pob asesiad a wneir ar gyfer swyddi newydd a swyddi gweigion yn cael eu monitro wedi iddynt gael eu cwblhau. Wrth edrych ar unrhyw ffurflen Asesu Anghenion Iaith Swyddi sydd yn cael eu cwblhau, rhaid ystyried a oes ystyriaeth gydwybodol o anghenion iaith swyddi wedi bod. Lle nas rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol, rhaid cael gweithdrefn mewn lle bydd yn galluogi addasu'r asesiad gan berson priodol yn y sefydliad;
- baratoi canllaw i staff ar sut mae cynnal asesiad o anghenion sgiliau iaith swydd;
- wrth wneud asesiadau o dan Safon 136 ystyried capasiti o fewn maes gwaith y swydd i roi gwasanaeth Cymraeg yn unol â'r Safonau.

4. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau yn y cynllun
- sicrhau bod gan aelodau o'r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd y Cyngor yn erbyn y cynllun.
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau o fewn y cynllun gyda pob un o'r camau i'w gyflawni mewn dim mwy na 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.
Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

Safon 136A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor newid ei weithdrefnau fel os bydd y Cyngor wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid i'r corff bennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg yn unol â Safon 136A. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod y gofyniad yma yn cael ei amlinellu ym mhob fersiwn o'r swydd ddisgrifiad, gan gynnwys mewn hysbysebion Saesneg.
2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a sampl o 3 mis o hysbysebion swyddi yn tystio bod ei hysbysebion swyddi yn cyd fynd gyda gofynion safon 136A.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 10/02/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | **CS1008** Ar 29/04/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd dwy ran i gŵyn yr achwynydd. Yn gyntaf, honnodd yr achwynydd iddo ffonio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyngor) ar 01978 292078. Ar ôl dewis cael gwasanaeth ffôn Cymraeg, honnodd yr achwynydd iddo dderbyn neges peiriant ateb yn rhoi gwybod iddo y dylai ddewis y gwasanaeth Saesneg os am gael gwasanaeth y diwrnod hwnnw. Yn ail, honnodd yr achwynydd iddo dderbyn e-bost gwallus o un o gyfeiriadau ebost y Cyngor, Debtors@wrexham.gov.uk. E-bost cydnabod safonol oedd yr e-bost wedi i'r achwynydd gysylltu gyda'r Cyngor drwy'r cyfeiriad hwnnw. Roedd yr e-bost yn ddwyieithog gyda gwallau sillafu a gramadegol yn y Gymraeg ac yn cyfeirio at y Cyngor yn anghywir fel | 10/02/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 1: Mae Safon 1 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau eu bod yn ateb unrhyw ohebiaeth Gymraeg oddi wrth berson (os oes angen ateb) yn y Gymraeg, oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn y Gymraeg. Nid yw Safon 1 yn cyfeirio yn benodol at lefel neu ansawdd y Gymraeg y dylid ei disgwyl mewn gohebiaeth ac nid oes cyfeiriad i ddisgwyliadau o ran safon iaith gohebiaeth o dan Safon 1 yn y Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Fodd bynnag, o dan ysbryd y Mesur, ni ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yma, mae'r achwynydd wedi derbyn ymateb Cymraeg i'w ymholiad yn unol â Safon 1. Ond mae'r Gymraeg yn yr ohebiaeth honno yn wallus. Mae hefyd gwallau sillafu yn y cyfeiriad sydd yn cael ei roi i'r Cyngor yn y fersiwn Gymraeg. Nid oes gwallau iaith yn y fersiwn Saesneg. Nid oes chwaith fersiwn Gymraeg o "Find us on wrexham.gov.uk twitter.com/wrexhamcbc facebook.com/wrexhamcouncil" fel sydd yn y fersiwn Saesneg. Mae derbyn ymateb yn y Gymraeg yn unol â Safon 1 yn golygu fod yn rhaid i'r holl ateb fod yn Gymraeg. Er bod yr achwynydd wedi derbyn ymateb yn y Gymraeg, mae gwallau iaith yn y fersiwn Gymraeg ac nid oes gwallau yn y fersiwn Saesneg. Mae hefyd un rhan o'r testun Saesneg (Find us on wrexham.gov.uk twitter.com/wrexhamcbc |

| | |
|---|---|
| ‘Cyngor Siriol Wrecsam’. Honnodd yr achwynydd fod yr e-bost yn arwydd o fethiannau eang, parhaus, a sefydliadol yn y Cyngor i barchu'r Gymraeg. | facebook.com/wrexhamcouncil) sydd ddim ar gael yn y Gymraeg. Nid ydwyf o’r farn fod yr ymateb yna yn ddigonol felly i gydymffurfio yn llawn gyda Safon 1.<br><br>Safon 6: Mae Safon 6 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor sicrhau wrth lunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol o ohebiaeth, beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na’r fersiwn Saesneg. Yn yr achos yma, cafodd gohebiaeth ar ffurf e-bost awtomatig ei lunio a’i yrru i’r achwynydd ble nad oedd y testun yn eglur na chywir o ran ystyr a mynegiant y testun. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 6 gan fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yn yr ohebiaeth.<br><br>Safon 11: Rhaid i gorff sicrhau pan fo person yn cysylltu â hwy ar eu prif rif ffôn (neu ar un o’u prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, fod y corff yn delio â’r alwad yn Gymraeg os yw’r person yn dymuno hynny - (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo’r alwad i aelod o staff nad yw’n siarad Cymraeg sy’n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy’n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. Ni dderbyniodd yr achwynydd unrhyw wasanaeth Cymraeg yn ystod ei alwad ffôn i’r Cyngor. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 11. Ymhellach, mae’n ymddangos mai un staff rhan amser yn unig sydd yn delio gyda galwadau ffôn Cymraeg i brif rifau ffôn y Cyngor. Ar y diwrnodau hynny pan nad yw’r aelod hwnnw o staff yn gweithio neu ar adegau pan yn gweithio ond ddim ar gael i gymryd galwad, ni fydd unrhyw ddarpariaeth ffôn Cymraeg yn unol â’r safonau ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Er |

bod y Cyngor wedi nodi yn ddiweddar eu bod yn cael cymorth ychwanegol pan fo'n bosibl gan adrannau eraill i ateb yr alwadau Gymraeg, datrysiad diweddar yw hwn nad oedd mewn lle yn ystod galwad yr achwynydd. Mae prinder swyddogion sydd yn siarad Cymraeg a dibyniaeth y Cyngor ar un swyddog sydd yn gweithio rhan amser i sicrhau'r gwasanaeth Cymraeg yn mynd i olygu na fydd argaeledd y gwasanaeth Cymraeg ar gael yr un mor gyson â'r gwasanaeth Saesneg.

Safon 17: Rhaid i gorff sicrhau pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, eu bod yn rhoi gwybod i'r personau sy'n galw (unai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Gan fod yr alwad yn ddarostyngedig i'r safonau, yn ystod oriau gwaith ac nad oedd yr achwynydd wedi cyrraedd man yn y sgwrs lle'r oedd yn delio gyda phwnc penodol, nid yw safon 17 yn berthnasol yma. Dylai'r achwynydd fod wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg. Nid oes angen i mi felly ystyried cydymffurfiaeth y Cyngor gyda safon 17 gan nad ydi'r safon yn berthnasol i amgylchiadau'r gŵyn hon. Fodd bynnag, mae'n amlwg i mi petai safon 17 yn berthnasol yma a'i fod yn achlysur lle, er enghraifft, fod y Swyddfa wedi cau neu berson i drafod pwnc penodol ddim ar gael, na fyddai'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda gofynion y safon. O dan y safon, rhaid i unrhyw neges nodi manylion pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae cwsmeriaid yn disgwyl eu bod yn gallu defnyddio gwasanaethau yn gyflym ac yn hawdd, a bod llwybrau clir i'r gwasanaeth. Gall gwasanaeth Cymraeg o safon isel arwain at ddiffyg hyder neu

ymddiriedaeth mewn gwasanaethau Cymraeg sy’n dod yn rhwystr i’w defnyddio yn y dyfodol. Mae’n debygol iawn na fuasai rhywun sydd yn derbyn neges o’r fath yn ceisio defnyddio’r gwasanaeth Cymraeg eto. Os yw’r Cyngor am roi neges awtomataidd yn unol â Safon 17 o dan yr amgylchiadau cywir, mae angen i’r Cyngor sicrhau fod gwybodaeth glir yn cael ei roi am bryd fydd y gwasanaeth hwnnw ar gael.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safonau 1, 6, 11 ac 17.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safonau 1, 6, 11 ac 17.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i’r Cyngor wirio pob neges cydnabod safonol sydd wedi ei osod ac yn cael ei ddefnyddio gan staff i sicrhau fod y testun Cymraeg yn gywir a bod y testun ar gael yn llawn yn y Gymraeg.

2. Rhaid i'r Cyngor atgoffa staff i ddefnyddio adnoddau cyfieithu'r Cyngor i wirio safon iaith gohebiaeth ble mae angen;
3. Rhaid i'r Cyngor atgoffa staff o angenrheidrwydd cydymffurfio gyda Safon 1 ar bob achlysur.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
5. Rhaid i'r Cyngor gael gweithdrefn ble wrth lunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol o negeseuon e-bost safonol bod y negeseuon yn cael eu cyfieithu yn gywir a'i wirio gan fwy na un aelod o staff.
6. Rhaid i'r Cyngor wirio pob e-bost cydnabod safonol sydd yn cael ei defnyddio gan y Cyngor fod y Gymraeg yn gywir o ran ystyr a mynegiant yn y negeseuon hynny.
7. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5 a 6.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 11: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.

8. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda safon 11 wrth ateb galwadau i un o rifau ffôn cyffredinol y Cyngor 01978 292078.

9. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu'r camau mae'r Cyngor am eu cymryd sydd am eu galluogi i gydymffurfio gyda safon 11 wrth ateb galwadau i un o rifau ffôn cyffredinol y Cyngor 01978 292078.

10.Rhaid i'r camau o fewn y Cynllun Gweithredu gynnwys ymrwymiad gan y Cyngor i:

- roi gweithdrefn mewn lle fel bod defnyddwyr sydd yn dewis gwasanaeth Cymraeg wrth ffonio'r rhif 01978 292078 yn derbyn y gwasanaeth Cymraeg hwnnw ar bob achlysur, yn unol â safon 11.
- darparu canllaw neu ddiwygio canllaw sydd eisoes yn bodoli, i'r holl staff sydd yn delio gyda galwadau ffôn i'r rhif 01978 292078 ar y weithdrefn newydd;
- roi hyfforddiant i staff ar y weithdrefn newydd.

11.Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau yn y cynllun
- sicrhau bod gan aelodau o'r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd y Cyngor yn erbyn y cynllun.
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau o fewn y cynllun gyda pob un o'r camau i'w gyflawni mewn dim mwy na 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.

Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Safon 17: Argymhellion yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>Mae safon 17 yn berthnasol mewn sefyllfa lle nad yw gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae'r Cod Ymarfer yn cadarnhau gall sefyllfa lle nad yw gwasanaeth Cymraeg ar gael gynnwys: pan fo'r swyddfa ar gau ac felly nad oes gwasanaeth ffôn ar gael o gwbl, neu pan nad oes aelod staff Cymraeg ar gael i ddelio â'r alwad (yn ôl gofynion safon 11).<br><br>Ar yr achlysuron yma, dylai'r Cyngor:<br>- fabwysiadu gweithdrefn ble mae'n rhaid i staff roi neges sydd yn egluro'r dyddiad a'r amser pan fydd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn unol â safon 17;<br>- darparu canllaw neu ddiwygio canllaw sydd eisoes yn bodoli, i'r holl staff sydd yn delio gyda galwadau ffôn perthnasol ar y weithdrefn negeseuon newydd;<br>- roi hyfforddiant i staff ar y weithdrefn newydd<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 10/02/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | **CS1021** Ar 23/05/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gŵyn yn | 20/01/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 1: Mae safon 1 yn berthnasol ar gyfer pob gohebiaeth y mae D yn ei derbyn yn Gymraeg a mae'n rhaid ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg. Anfonwyd ymateb Saesneg i ohebiaeth Gymraeg. Mae'r canfyddiad |

ymwneud â gohebiaeth a dderbyniodd yr achwynydd ar 8 Mehefin 2022 gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru mewn ymateb i neges e-bost Cymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni bod yr ymateb gan D yn Saesneg yn unig i'r ohebiaeth Gymraeg a bod D wedi nodi byddai angen anfon y neges e-bost i'w chyfieithu cyn gallu ymateb i P yn llawn.

uchod yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â gofynion safon 1.

Safon 7: Mae safon 7 yn gofyn i D ddatgan mewn gohebiaeth ei fod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Anfonodd P neges e-bost at D yn Gymraeg er mwyn gwneud ymholiadau ar ran etholwr. Derbyniodd P ymateb yn Saesneg oddi wrth D yn nodi bod angen anfon yr ohebiaeth i'w chyfieithu cyn gallu ymateb yn ffurfiol. O'r tystiolaeth sydd gan y Comisiynydd, nid oedd datganiad ar waelod yr e-bost oddi wrth D at P yn nodi bod D yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd y corff yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r canfyddiad uchod yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â gofynion safon 7.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a 7.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a 7.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y

methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Adolygu trefniadau a chynnal hyfforddiant i'r holl staff sy'n ateb gohebiaeth o ofynion safon 1.
2. Rhoi cyhoeddusrwydd mewnol i'r achos a chyfathrebu i holl staff y sefydliad ynghylch ymchwiliad y Comisiynydd â'r dyfarniad fod methiant i gydymffurfio â safon 1.
3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 7: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Adolygu trefniadau a chynnal hyfforddiant i'r holl staff sy'n ateb gohebiaeth o ofynion safon 7.
2. Rhoi cyhoeddusrwydd mewnol i'r achos a chyfathrebu i holl staff y sefydliad ynghylch ymchwiliad y Comisiynydd â'r dyfarniad fod methiant i gydymffurfio â safon 7.
3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 20/01/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Sir Powys | **CS1016** Ar 13/05/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gwyn gan yr achwynydd yn ymwneud â rhan o wefan Cyngor Sir Powys (Cyngor). Dywedodd yr achwynydd nad oedd tudalen yn ymwneud â proffil un o Gynghorwyr y Sir ar gael yn y Gymraeg ar y wefan. | 19/01/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Yn yr achos yma, roedd gwybodaeth oedd rhannau o wefan gyhoeddus y Cyngor yn ymwneud â phroffiliau Cynghorwyr ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 52 gan nad yw'r wybodaeth dan sylw ar gael yn Gymraeg ar y wefan.<br><br>Safon 55: Os oes gan gorff dudalen Gymraeg ar eu gwefan sydd yn cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid i'r corff nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg. Yma, er bod dolen ar dudalennau Saesneg yr adran o'r wefan yn ymwneud â phroffiliau Cynghorwyr yn nodi 'Cymraeg', nid oedd y ddolen yn arwain yr achwynydd at dudalen Gymraeg cyfatebol. Oherwydd hynny, fe wnaeth y Cyngor drin y fersiwn Gymraeg o'r tudalennau hyn yn llai ffafriol na'r rhai Saesneg.<br><br>Safon 56: Mae safon 56 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar eu |

gwefan yn Gymraeg. Yn yr achos yma, roedd dewislenni ar y tudalennau yn ymwneud â gwybodaeth cynghorwyr ar wefan y Cyngor ddim yn y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 56 gan nad oedd y dewislenni dan sylw ar gael yn Gymraeg ar y rhan yma o'r wefan.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safonau 52, 55 a 56.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safonau 52, 55 a 56.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 52: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.
1. Rhaid i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda safon 52.

2. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu'r camau mae'r Cyngor am eu cymryd sydd am eu galluogi i gydymffurfio gyda safon 52 yn llawn.
3. Rhaid i'r camau o fewn y Cynllun Gweithredu gynnwys ymrwymiad gan y Cyngor i:
• wneud awdit o'r gwaith sydd angen ei wneud i sicrhau fod gwefan y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Safon 52 ar bob achlysur;
• gwneud awdit o'r adnoddau ychwanegol sydd ei angen er mwyn sicrhau fod gwefan y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Safon 52 ar bob achlysur;
• sicrhau bod unrhyw adnoddau ychwanegol sydd yn cael ei nodi yn yr awdit uchod yn cael ei glustnodi i'r gwaith;
• paratoi canllaw i staff ac unrhyw drydydd parti sydd yng ngofal y wefan ac ar sicrhau fod y gwefan yn gweithio'n llawn yn y Gymraeg ar ofynion Safonau'r Gymraeg;
• sicrhau fod y wefan yn gweithio'n llawn yn y Gymraeg.
4. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:
• pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau yn y cynllun.
• sicrhau bod gan aelodau o'r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd y Cyngor yn erbyn y cynllun.
• amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau o fewn y cynllun gyda phob un o'r camau i'w gyflawni mewn dim mwy na 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.

Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

Safon 55: Gofyniad i gymryd camau

5. Mae’n rhaid i’r Cyngor wirio eu gwefan i sicrhau fod y ddolen neu’r botwm ‘Cymraeg’ ar ei gwefan yn mynd a’r defnyddiwr yn uniongyrchol at dudalen Gymraeg o’r dudalen Saesneg cyfatebol.
6. Rhaid i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 56: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
7. Rwy’n ei wneud yn ofynnol i’r Cyngor wirio dewislenni ar dudalennau eu gwefan i sicrhau eu bod ar gael yn y Gymraeg.
8. Rhaid i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 7.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar 19/01/2023.

**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prifysgol De Cymru | **CS129, CS130 a CS134** Ar 10 Mawrth 2022, 14 Mawrth 2022 ac ar 28 Mawrth 2022 derbyniais gwynion gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd y cwynion yma yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion dilys. Roedd yr achwynwyr yn honni bod y brifysgol wedi diwygio ei logo a bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y sail bod y logo yn arddel yr acronym 'USW' yn unig gyda'r enw Cymraeg yn ymddangos o dan yr enw Saesneg islaw'r acronym. Tynnodd un o'r achwynwyr sylw at gyfrif Twitter Saesneg y brifysgol gan nodi nad oedd disgrifiad y cyfrif yn cynnwys dolen at gyfrif Twitter Cymraeg y brifysgol. | 17/01/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 86: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 86, roedd angen i'r brifysgol nodi bod gwasanaeth Cymraeg cyfatebol ar gael ar y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol cyfatebol Saesneg. Cysylltodd aelod o'r cyhoedd â mi gan fynegi siom nad oedd prif gyfrif Twitter Saesneg y brifysgol yn nodi bod cyfrif Cymraeg cyfatebol ar gael. Yn ystod yr ymchwiliad daeth i'r amlwg nad oedd y cyfrif Twitter cyswllt gyda ysgolion a cholegau yn nodi bod cyfrif Cymraeg ar gael ychwaith. Gan nad oedd prif gyfrif Twitter Saesneg y brifysgol na'r cyfrif Twitter cyswllt gyda ysgolion a cholegau Saesneg yn nodi bod cyfrifon cyfatebol Cymraeg ar gael rwyf o'r farn na wnaeth y brifysgol gydymffurfio gyda safon 86<br><br>Safon 87: Mae safon 87 yn ei gwneud yn ofynnol i Brifysgol De Cymru i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio, cyflwyno neu ddiwygio ei hunaniaeth gorfforaethol. Derbyniais dair cwyn ynglŷn â logo diwygiedig y brifysgol oedd yn cynnwys acronym Saesneg yn unig (USW). Roedd yr achwynwyr wedi gweld y logo ar arwyddion ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y brifysgol ac yn siomedig bod yna lai o Gymraeg ar y logo ar ôl i'r brifysgol ei ddiwygio. Gan fod y brifysgol wedi llunio, diwygio a chyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol gan ddefnyddio acronym Saesneg yn unig am gyfnod ar ei logo, rwyf o'r farn bod y brifysgol wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gan bod y Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar hunaniaeth gorfforaethol y brifysgol rwyf o'r farn nad oedd y brifysgol yn cydymffurfio gyda safon 87 ar yr adeg y cyflwynodd yr achwynwyr eu cwynion. Mae Prifysgol De Cymru wedi cymryd camau i |

sicrhau bod eu logo bellach yn cydymffurfio gyda safon 87 ac wedi cyflwyno copi o'u Canllawiau Brandio ddiwygiwyd ym mis Mawrth 2022. Mae'r brifysgol bellach yn defnyddio logo sy'n cynnwys enw'r brifysgol yn llawn yn y ddwy iaith

Safonau 94, 95 a 96: Er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau llunio polisi roedd angen i Brifysgol De Cymru ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau eu penderfyniadau ar y Gymraeg. Derbyniais gwynion gan y cyhoedd ynglŷn â logo newydd Prifysgol De Cymru. Roedd yr achwynydd yn siomedig bod y logo newydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pan dderbyniais y cwynion ynglŷn â'r penderfyniad i newid logo'r brifysgol roedd gen i amheuon ynglŷn â'r modd y gwnaeth y brifysgol y penderfyniad yma. Darparodd y brifysgol gopi o'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gafodd ei gwblhau wrth i'r penderfyniad gael ei wneud. Roedd yr asesiad yn cynnwys cwestiynau ynglŷn ag effaith y penderfyniad polisi ar yr iaith Gymraeg ac fe gafodd effeithiau negyddol ar y Gymraeg eu nodi yn yr asesiad. Ar ddiwedd yr asesiad fe nodir bod yr asesiad yn dangos nad yw'r cynnig yn dangos unrhyw botensial ar gyfer gwahaniaethu nac effaith andwyol ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig. Ni chofnodwyd unrhyw drafodaeth ymhellach na hynny er bod nifer o unigolion wedi tynnu sylw at effeithiau negyddol y cynnig ar y Gymraeg. Nid yw'r brifysgol yn esbonio eu rhesymeg dros wneud y penderfyniad na pha ystyriaeth roddwyd i'r pwyntiau godwyd am yr iaith Gymraeg yn yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Ar y sail na roddodd y brifysgol ystyriaeth gydwybodol i effaith y penderfyniad polisi i newid hunaniaeth y brifysgol ar y Gymraeg, rwyf o'r farn na lwyddodd y brifysgol i gydymffurfio gyda safonau 94-96.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prifysgol De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 86, 87, 94, 95 a 96.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prifysgol De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 86, 87, 94, 95 a 96.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach [at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 86: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Brifysgol De Cymru gymryd camau i wirio holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y brifysgol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safon 86. Rhaid cynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar bob platfform, nid cyfrifon Twitter yn unig. Rwy’n ei gwneud yn ofynnol ar y brifysgol i gofnodi pa gyfrifon nad oedd yn cydymffurfio a chadw tystiolaeth o’r camau gymerodd y brifysgol i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio gyda safon 86 a darparu’r wybodaeth yma fel tystiolaeth.
2. Rwy’n ei gwneud yn ofynnol i Brifysgol De Cymru addasu unrhyw ganllaw neu bolisi ar eu gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol i sicrhau, pan mae’n creu cyfrifon

cyfryngau cymdeithasol newydd, bod y cyfrifon Saesneg yn cynnwys dolen i'r cyfrifon cyfatebol Cymraeg. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i'r brifysgol gofnodi'r addasiadau yma a darparu'r wybodaeth fel tystiolaeth.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 87: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
3. Rhaid i Brifysgol De Cymru gynnal adolygiad i wirio bod ei hunaniaeth gorfforaethol yn cael ei gyflwyno mewn modd sy'n cydymffurfio gyda safon 87 ar bob achlysur a chywiro unrhyw wallau. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i'r brifysgol gofnodi'r camau gymerwyd i wirio ei hunaniaeth a chadw cofnod o unrhyw achlysur ble bu'n rhaid i'r brifysgol gymryd camau i gywiro'r gwallau.
4. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Brifysgol De Cymru addasu unrhyw bolisi neu ganllaw ar frandio i sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn cael eu hystyried os yw brandio'r brifysgol yn cael eu hadolygu yn y dyfodol. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i'r brifysgol gofnodi'r addasiadau yma a darparu tystiolaeth i'r Comisiynydd.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

5. Pan fydd Prifysgol De Cymru yn gwneud penderfyniad polisi rhaid i'r brifysgol gofnodi:
(i)unrhyw ystyriaethau a roddir i pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau

ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.
(ii) Sut y gellid llunio’r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai’r penderfyniad polisi’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.
(iii) Sut y gellid llunio’r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai’r penderfyniad polisi’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.
6. Rwy’n ei gwneud yn ofynnol ar Brifysgol De Cymru i gynnal adolygiad o’i broses o asesu effaith ei benderfyniadau polisi ar y Gymraeg yng nghyd-destun gofynion safonau’r Gymraeg.
7. Yn dilyn cynnal yr adolygiad, rwy’n ei gwneud yn ofynnol ar Brifysgol De Cymru i baratoi papur canfyddiadau a chynnwys adran am y gwersi a ddysgwyd o'r achos hwn.
8. Ar sail canfyddiadau’r adolygiad rwy’n ei gwneud yn ofynnol i Brifysgol De Cymru roi camau mewn lle, i sicrhau bydd penderfyniadau polisi yn cael eu gwneud ar sail asesiad ystyrlon a chydwybodol. Dylai hynny gynnwys:
(a) Cynhyrchu canllaw ymarferol i staff sydd yn gyfrifol am lunio a gwneud penderfyniadau polisi ar ofynion statudol Safonau’r Gymraeg
(b) Cynnal hyfforddiant i wella ymwybyddiaeth staff, uwch swyddogion a rheolwyr sydd yn gyfrifol am lunio a gwneud penderfyniadau polisi ar ofynion statudol Safonau’r Gymraeg

Amserlen: O fewn 9 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 94, 95 a 96: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg
9. Rhaid i Brifysgol De Cymru roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 94, 95 a 96 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan gyhoeddus, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion y wefan honno.

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

10. Rhaid i Brifysgol De Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-9.

Amserlen: O fewn 9 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol De Cymru ar 17/01/2023.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **CS1011** Ar 03/05/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r gwasanaeth a dderbyniodd P gan D mewn perthynas â chwblhau ffurflen asesu ar-lein ynglŷn â'i chyflwr Lymphoedema.<br><br>Roedd P yn honni:<br>i. – bod D wedi anfon cyfres o negeseuon testun Saesneg yn unig at P (drwy rif ffôn +44 7860 039 092), gan gynnwys ar y dyddiadau isod:<br>• 1 Hydref 2021<br>• 10 Hydref 2021<br>• 6 Rhagfyr 2021<br>• 3 Ionawr 2022<br>• 19 Ionawr 2022<br>• 25 Ionawr 2022<br>• 7 Mawrth 2022<br>• 20 Mawrth 2022.<br><br>ii. – bod y negeseuon testun yn cynnwys dolen oedd yn arwain P at gynnwys Saesneg yn unig yn ymwneud â chwblhau'r ffurflen asesu ar-lein. | 13/01/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 1: Fe anfonodd D wahoddiad at P ar 5 Awst 2021 i gwblhau a dychwelyd ffurflen asesu ar-lein am ei chyflwr meddygol. Yn dilyn y gwahoddiad yma, fe anfonodd P ohebiaeth at D yn Gymraeg. Roedd yr ohebiaeth ar ffurf y ffurflen ar-lein (yr oedd D wedi gofyn i P ei chwblhau) wedi'i chwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ymateb i'r ohebiaeth Gymraeg a anfonwyd gan P, fe anfonodd D neges testun ac e-bost at P diwrnodau yn ddiweddarach yn gofyn iddi gwblhau ffurflen asesu newydd (er mwyn diweddaru y bwrdd iechyd am statws ei chyflwr meddygol erbyn hynny). Roedd y neges a'r e-bost yn Saesneg yn unig. Yn dilyn hynny, fe anfonodd P y ffurflen ar-lein newydd at D, gyda'r ffurflen wedi ei chwblhau unwaith eto drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ymateb i'r ohebiaeth honno, fe ymatebodd D drwy anfon neges testun ac e-bost arall at P yn gofyn iddi gwblhau ffurflen newydd. Roedd y neges testun ac e-bost eto yn uniaith Saesneg. Ail-adroddwyd y senario hyn o ymateb i P drwy gyfrwng y Saesneg pob tro y bu P yn anfon ffurflen ar-lein gorffenedig newydd at D drwy gyfrwng y Gymraeg.  Os mae D yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg gan berson, mae gofynion safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i D ateb yr ohebiaeth honno yn Gymraeg. Fe dderbyniodd D gohebiaeth yn Gymraeg gan P yn yr achos yma drwy dderbyn cyfres o ffurflenni ar-lein wedi eu cwblhau yn Gymraeg. Yn hytrach nag ymateb i'r darnau yma o ohebiaeth yn Gymraeg yn unol â safon 1, fe ymatebodd D iddynt drwy anfon neges testun ac e-bost Saesneg yn unig at P (yn gofyn iddi gwblhau ffurflen ar-lein newydd). Mae D yn nodi nad oedd modd iddo anfon unrhyw ohebiaeth at P yn Gymraeg |

iii. – bod D wedi anfon cyfres o e-byst Saesneg yn unig at P (drwy noreply@drdoctor.co.uk), gan gynnwys ar y dyddiadau isod:
• 23 Mawrth 2022
• 15 Mai 2022
• 18 Mai 2022.

iv. – bod yr e-byst yn cynnwys dolen oedd yn arwain P at gynnwys Saesneg yn unig mewn perthynas â chwblhau'r ffurflen asesu ar-lein.

v. – bod tudalennau cyntaf y ffurflen asesu ar-lein yn Saesneg yn unig, sef y:
• dudalen fewngofnodi yn gofyn i P fewnbynnu ei manylion (sef ei chyfenw,
dyddiad geni a chod post)
• dudalen wybodaeth am ddyddiad cyflwyno'r ffurflen.

vi. – nad oedd y ffurflen asesu yn rhoi dewis i P weld a chwblhau'r ffurflen yn Gymraeg nes y cyrhaeddwyd yr ail dudalen o'r ffurflen.

Nododd P ei bod yn cwblhau'r ffurflen asesu ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg pob amser, ac er hynny,

oherwydd cyfyngiadau technegol y platfform trydydd parti a ddefnyddir i anfon negeseuon ac e-byst atgoffa at gleifion, sef platfform Dr Doctor. Waeth beth oedd y materion technegol yr oedd D yn ystyried a oedd yn ei rwystro rhag gallu anfon ymatebion at D yn Gymraeg drwy blatfform Dr Doctor, roedd yna ddyletswydd ar D yn unol â safon 1 i sicrhau, os oedd claf yn cwblhau ac yn anfon ei ffurflen asesu ar-lein yn Gymraeg, bod y platfform yn anfon unrhyw neges testun neu e-bost dilynol at y claf yn Gymraeg. Ni sicrhawyd hyn, er gwaethaf y ddyletswydd oedd ar D i wneud yn siŵr bod y platfform yn hwyluso gohebiaeth Gymraeg er mwyn diwallu gofynion safon 1. Wrth gaffael y gwasanaeth, ac wrth gytuno ar gynnwys y cytundeb rhwng D a Dr Doctor i ddarparu'r gwasanaeth gohebu ar ran D, methwyd â chynnwys unrhyw ddarpariaethau yn ymwneud â'r ddyletswydd i'r gwasanaeth gael ei ddarparu gan y trydydd parti ar ran D yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle y bu'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan gwmni, drwy blatfform y cwmni hwnnw, oedd yn methu â diwallu gofynion safonau'r Gymraeg. Mae D yn egluro yn ei dystiolaeth na sicrhawyd y darpariaethau hyn oherwydd "y cafodd DrDoctor ei gaffael a'i roi ar waith ar adeg o bwysau mawr yn ystod y Pandemig, lle roedd angen i'r Bwrdd Iechyd archwilio opsiynau amgen ar gyfer cynnal darpariaeth gofal iechyd tra'n lleihau'r angen i fynychu ei leoliadau clinigol". Er yn llwyr gydnabod yr angen i D weithredu yn gyflym dros y cyfnod hwn mewn ymateb i'r frwydr yn erbyn COVID-19, nid oedd hyn yn golygu yr oedd yn rhesymol nac yn dderbyniol i'r bwrdd iechyd beidio â chyflawni ei ddyletswyddau statudol i sicrhau y byddai unrhyw wasanaeth a gaffaelir yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r

| | |
|---|---|
| bod D yn parhau i anfon gohebiaeth ati yn Saesneg yn unig. | safonau. Dylid wedi sicrhau, er gwaethaf y pwysau a wynebwyd, ac er gwaethaf y ffaith mai “nifer gyfyngedig o gyflenwyr a allai ddarparu llwyfan a oedd yn addas i'w anghenion ar y cyflymder oedd ei hangen”, bod pa bynnag cwmni a enillodd y cytundeb yn y pendraw yn gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg. Methodd y bwrdd iechyd â sicrhau hyn ac fe fethodd hefyd ag adfer y methiant yma unwaith yr oedd y gwasanaeth yn weithredol. Mae ymateb D i’r gŵyn yn nodi ei fod yn “committed to our statutory duties towards the Welsh language” ond yn pwysleisio ei fod yn “facing the biggest challenge of the last 20 years and we must be able to deliver on various programmes of work in order to embed a value-based approach across the entire healthcare pathway”. Mae hefyd yn nodi bod rhaid i D “focus on how we use our resources wisely to get the best possible outcomes for as many people as possible over the coming months and years”. Awgryma hyn bod D yn cymryd y safbwynt bod ffactorau eraill, gan gynnwys yr angen i fod yn gost effeithiol, yn gorbwyso’r angen i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol y safonau. Nid yw cydymffurfiaeth â’r safonau yn ddyletswydd y mae’n rhesymol i unrhyw sefydliad ei osgoi ar sail cost, diffyg adnoddau neu flaenoriaethau eraill.<br><br>Safon 5: Os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, mae safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddarparu fersiwn Gymraeg o’r ohebiaeth wrth ohebu â’r person hwnnw. Golyga hynny fod rhaid i gorff anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at berson ar bob achlysur, hyd nes ei fod yn gwybod, a dim ond os y caiff wybod, nad yw’r person yn |

dymuno cael gohebiaeth oddi wrth y corff yn Gymraeg. Yn yr achos yma, nid oedd D yn gwybod a oedd yr achwynydd (P) yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrth D yn Gymraeg ai peidio (er y gwnaeth D hysbysu P ar sawl achlysur o'i dymuniad i dderbyn gohebiaeth gan D yn Gymraeg). Oherwydd nad oedd unrhyw gadarnhad nad oedd P yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg, roedd gofynion safon 5 yn golygu yr oedd dyletswydd ar D i ohebu â P yn Gymraeg. Er hynny, fe anfonodd D cyfres o negeseuon testun ac e-byst at P (dros gyfnod yn ymestyn o leiaf rhwng 1 Hydref 2021 a 15 Mai 2022) yn ei gwahodd i gwblhau ffurflen asesu ar-lein yn ymwneud â'i chyflwr meddygol. Anfonodd D pob un o'r negeseuon a'r e-byst hyn at P yn Saesneg yn unig. O ganlyniad, fe fethodd D yn ei ddyletswydd i ddarparu fersiynau Cymraeg o ohebiaeth at sylw P yn unol â safon 5. Fe drefnodd D y byddai'r gwasanaeth o greu ac anfon negeseuon ac e-byst gwahoddiad i gleifion yn cael ei ddarparu ar ran D gan drydydd parti (Dr Doctor), drwy blatfform rheoli apwyntiadau Dr Doctor. Nid oedd D wedi sicrhau bod y platfform yn gallu anfon gohebiaeth at gleifion yn Gymraeg yn unol â safon 5. Arweiniodd hyn at P yn derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan D ar sawl achlysur, yn groes i ofynion safon 5.

Safon 6: Os yw corff yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), mae safon 6 yn ei gwneud yn ofynnol i D beidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos yma, anfonodd D gyfres o negeseuon testun ac e-byst yn gwahodd P i

gwblhau ffurflen asesu ar-lein yn ymwneud â'i chyflwr meddygol. Roedd pob neges ac e-bost yn cynnwys dolen i P ei phwyso er mwyn cael mynediad at y ffurflen drwy borth DrDoctor. At ddibenion safon 6, roedd y negeseuon testun ac e-byst Saesneg yn unig dan sylw yn gweithredu fel y 'fersiwn Gymraeg' a'r 'fersiwn Saesneg' o'r ohebiaeth yn sgil methiant D i sicrhau bod yna fersiwn Gymraeg benodol o'r ohebiaeth yn cael ei llunio a'i hanfon at P yn unol â gofynion safonau 1 a 5. Roedd y negeseuon ac e-byst yn cynnwys dolen a oedd yn arwain P at fersiwn Saesneg yn unig o dudalen fewngofnodi porth DrDoctor. Roedd dyletswydd ar D yn unol â'r safonau i sicrhau bod yna fersiwn Gymraeg o dudalen fewngofnodi porth DrDoctor. Felly, er mwyn cydymffurfio â safon 6 a sicrhau nad oedd yn trin unrhyw fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn llai ffafriol nag unrhyw fersiwn Saesneg ohoni, roedd gofyn i'r ohebiaeth a anfonwyd at P gynnwys dolen yn arwain at y fersiwn Gymraeg o dudalen fewngofnodi porth Dr Doctor. Fodd bynnag, fe fethodd D â gwneud hynny, a olygodd y gwnaeth fethu yn ei ddyletswydd i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 36: Os yw corff yn llunio ffurflen sydd i gael ei chwblhau gan unigolyn, mae safon 36 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff lunio'r ffurflen honno yn Gymraeg. Yn yr achos yma, roedd yna ddwy dudalen wedi'i llunio ar ran D yn Saesneg yn unig ar blatfform DrDoctor, sef:
o tudalen wybodaeth am ddyddiad cyflwyno'r ffurflen;
o tudalen fewngofnodi yn gofyn i P fewnbynnu ei manylion (sef ei chyfenw, dyddiad geni a chod post)
Roedd y tudalennau yma yn ffurfio rhan annatod o ffurflen asesu ar-lein yr oedd gofyn i P ei chwblhau yn ymwneud â'i

chyflwr meddygol. Oherwydd nad oedd D wedi sicrhau bod y trydydd parti (yr oedd ef wedi trefnu i ddarparu gwasanaethau ar ei ran) wedi llunio'r ddwy dudalen hon yn Gymraeg, fe fethodd D yn ei ddyletswydd i gydymffurfio â gofynion safon 36. Mae D yn cadarnhau bod y tudalennau hyn (ynghyd ag adrannau eraill ar borth DrDoctor) yn parhau yn Saesneg yn unig.

Safon 38: Os yw D yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae safon 38 yn ei gwneud yn ofynnol i D, ymysg pethau eraill, i sicrhau:
o nad yw'n trin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg; a
o bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.
Yn yr achos yma, roedd dwy dudalen wedi'i llunio ar blatfform DrDoctor, sef:
o tudalen wybodaeth am ddyddiad cyflwyno'r ffurflen;
o tudalen fewngofnodi yn gofyn i P fewnbynnu ei manylion (sef ei chyfenw, dyddiad geni a chod post)
Roedd y tudalennau yma yn ffurfio rhan annatod o ffurflen asesu ar-lein yr oedd gofyn i P ei chwblhau yn ymwneud â'i chyflwr meddygol. Nid oedd y tudalennau hyn wedi eu llunio yn Gymraeg yn unol â safon 36. Oherwydd hynny, fe wnaeth drin y fersiwn Gymraeg o'r tudalennau hyn yn llai ffafriol na'r rhai Saesneg drwy beidio â chyhoeddi'r tudalennau hynny yn Gymraeg, a thrwy hynny, drwy beidio â chynnwys dolen ar y tudalennau Saesneg oedd yn arwain P at tudalennau Cymraeg y dylid wedi bod ar gael. Methwyd hefyd â sicrhau bod y fersiwn Saesneg o'r ddwy dudalen yn datgan yn glir bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg. Er nad oedd yna tudalennau Cymraeg wedi eu

llunio oherwydd methiant D i sicrhau hynny yn unol â safon 38, roedd y ddyletswydd i hysbysu defnyddwyr bod y tudalennau ar gael yn Gymraeg, a'u cyfeirio at y tudalennau hynny, yn parhau yn ddyletswydd yn unol â safon 38. Oherwydd hynny, fe fethodd D yn yr achos yma â chydymffurfio â gofynion safon 38.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safonau 1, 5, 6, 36 a 38.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safonau 1, 5, 6, 36 a 38.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg, rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Byddaf hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (D) sicrhau bod unrhyw ymatebion (i ohebiaeth Gymraeg) a gaiff eu hanfon at bersonau ar ei ran drwy blatfform Dr Doctor yn cael eu hanfon yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, os yw person yn cwblhau ac yn dychwelyd ffurflen asesu

ar-lein (PROM/PREM) yn Gymraeg, bod pob neges testun ac e-bost dilynol sydd yn gwahodd neu yn atgoffa person i gwblhau PROM/PREM newydd yn cael ei anfon yn Gymraeg (neu yn ddwyieithog).
2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (D) sicrhau bod unrhyw ohebiaeth a gaiff ei anfon at bersonau ar ei ran drwy blatfform Dr Doctor yn cael ei anfon yn Gymraeg (oni bai bod D yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob neges testun ac e-bost sydd yn gwahodd neu yn atgoffa person i gwblhau ffurflen asesu ar-lein (PROM/PREM) yn cael ei anfon yn Gymraeg.
2. Rhaid i D rannu canllawiau gyda staff (ac unrhyw drydydd parti) sydd yn gyfrifol am lunio ac anfon gohebiaeth at bersonau (yn eu gwahodd i gwblhau ffurflenni asesu ar-lein) yn egluro sut a phryd y mae'n rhaid cydymffurfio â gofynion safon 5. Rhaid i'r canllawiau nodi yn benodol y ddyletswydd (yn unol â safon 5) i ohebu â phersonau yn Gymraeg ar bob achlysur, hyd nes y caiff wybod, a dim ond os y caiff gwybod, nad yw'r person dan sylw yn dymuno derbyn gohebiaeth gan D yn Gymraeg. Rhaid pwysleisio yn y canllawiau bod y ddyletswydd i

ohebu yn Gymraeg yn unol â safon 5 yn ymestyn i sefyllfa pan nad yw D yn gwybod naill ffordd neu'r llall a yw'r person yn dymuno gohebiaeth gan D yn Gymraeg ai peidio.
3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (D) sicrhau bod unrhyw ddolen a gaiff ei chynnwys o fewn fersiwn Gymraeg o neges testun neu e-bost a anfonir i wahodd person i gwblhau eu ffurflenni asesu ar-lein yn arwain y person hwnnw at fersiwn Gymraeg o unrhyw gynnwys. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y negeseuon testun ac e-byst a gaiff ei hanfon at P yn cynnwys dolen sy'n arwain P at fersiwn Gymraeg o dudalen fewngofnodi porth DrDoctor.
2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 36: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (D) lunio (a chyhoeddi) pob tudalen ar borth DrDoctor sy'n gysylltiedig â chwblhau ffurflenni asesu ar-lein (PROM/PREM) yn Gymraeg, gan gynnwys y ddwy dudalen isod:
o tudalen wybodaeth am ddyddiad cyflwyno'r ffurflen;
o tudalen fewngofnodi yn gofyn i'r claf fewnbynnu ei fanylion (sef ei gyfenw, dyddiad geni a chod post)
2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 38: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (D) sicrhau bod pob tudalen Saesneg ar borth DrDoctor sy'n gysylltiedig â chwblhau ffurflenni asesu ar-lein (PROM/PREM) yn:
o cael ei chyhoeddi yn ogystal yn Gymraeg;
o cynnwys dolen uniongyrchol sy'n arwain defnyddwyr at y dudalen Gymraeg gyfatebol;
o datgan yn glir bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau hynny ar y ddwy dudalen isod:
o tudalen wybodaeth am ddyddiad cyflwyno'r ffurflen;
o tudalen fewngofnodi yn gofyn i'r claf fewnbynnu ei fanylion (sef ei gyfenw, dyddiad geni a chod post).

2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safonau 1, 5, 6, 36 a 38: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (D) asesu cynnwys y cytundeb sydd wedi’i gytuno rhwng D a chwmni Dr Doctor ar gyfer darparu’r gwasanaethau sy’n berthnasol i’r ymchwiliad hwn ar ran D. Rhaid i D asesu a dod i gasgliadau ynghylch a yw’r cytundeb yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sicrhau bod cwmni Dr Doctor yn darparu gwasanaethau ar ran D yn unol â’r safonau perthnasol sydd wedi eu gosod ar D. Os nad yw, rhaid i D hefyd asesu a dod i gasgliadau ynghylch pa gamau penodol y mae’n mynd i’w cymryd a phryd er mwyn sicrhau y bydd y cytundeb yn sicrhau y caiff y gwasanaethau eu darparu yn unol â safonau’r Gymraeg.
2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safonau 1, 5, 6, 36 a 38: Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 1. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (D) i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, drwy rannu'r adroddiad hwn gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru (yn unig).<br><br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 13/01/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | **CS114** Ar 08/12/2021,derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gŵyn yn honni na wnaeth y Cyngor ystyried y Gymraeg yn ddigonol wrth ymgynghori ar gynnig i ad-drefnu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn nhref Pontardawe. | 21/12/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safonau 91, 92 a 93: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 91, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch effeithiau posib y cynnig (boed yn bositif neu'n andwyol) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ar yr effeithiau posib ar y Gymraeg o ran cyfleoedd i'w defnyddio ac o ran peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ond mae'n cyfyngu unrhyw ystyriaeth o'r effeithiau hynny i'r effaith ar gyfleoedd i'w defnyddio oddi mewn i'r ysgolion dan sylw yn yr ymgynghoriad. Does dim ystyriaeth o effaith bosib y cynnig ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ehangach nac o gwbl ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 91. |

Er mwyn cydymffurfio gyda safon 92, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ar yr effeithiau posib ar y Gymraeg, ond nid yw'n llwyddo i ystyried sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 92.

Er mwyn cydymffurfio gyda safon 93, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ar yr effeithiau posib ar y Gymraeg, ond nid yw'n llwyddo i ystyried sut ellid llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 93.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r canllaw mewnol, gan ychwanegu ato fel bod mwy o gynnwys yn hytrach na dim ond rhestr o'r safonau llunio polisi, fel bod gan staff fwy o gyfarwyddiadau wrth fynd ati i lunio dogfen ymgynghori. Rhaid i'r canllaw adlewyrchu bod dwy elfen angen eu bodloni ar gyfer y tair safon, sef ceisio barn, ac ystyried effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg. Diben y cam gorfodi yma yw sicrhau bod canllaw clir ar gael i staff sy'n gyfrifol am lunio dogfennau ymgynghori sy'n egluro gofynion y safonau, ac fel bod arweiniad clir i droi ato yn y dyfodol.
2. Ar gyfer yr elfen ystyried, rhaid i'r Cyngor nodi yn y canllaw mewnol bod angen ystyried yr effeithiau, boed yn bositif neu'n andwyol, y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid hefyd ystyried sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif, ac fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Diben y cam gorfodi yma yw cryfhau'r canllaw mewnol fel bod gofynion y safonau yn glir, ac fel bod y Cyngor yn cydymffurfio â hwy yn y dyfodol.

3. Rhaid i’r Cyngor ddarparu hyfforddiant i’r staff sy’n llunio ei ddogfennau ymgynghori ar benderfyniadau polisi sy’n ymwneud ag ad-drefnu addysg yn ardal y Cyngor. Rhaid codi ymwybyddiaeth staff o’r canllaw diwygiedig yn yr hyfforddiant yma, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion y safonau 91-93. Diben y cam gorfodi hwn yw sicrhau bod staff y Cyngor y cyfeirir atynt yn ymwybodol o ofynion safonau 91 i 93, ac y byddant, wrth lunio dogfennau ymgynghori ar ad-drefnu addysg yn y dyfodol, yn gyfarwydd â gofynion y safonau ac felly’n llai tebygol o fethu cydymffurfio â’r safonau hyn yn y dyfodol.
4. Rhaid i‘r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i’r methiant i gydymffurfio yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i’r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i’r methiant i gydymffurfio gyda safonau 91, 92 a 93 drwy gyhoeddi’r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei brif wefan. Rhaid i’r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff perthnasol o’r methiant drwy gyhoeddi’r adroddiad ar ei fewnrwyd staff.
6. Rhaid i‘r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau’r gofyniad yma i roi cyhoeddusrwydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Castell-nedd Port Talbot ar 21/12/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Casnewydd | **CS113** Ar 4/1/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Derbyniwyd cwyn gan achwynydd am ddiffyg darpariaeth trwyddedau parcio i breswylwyr yn Gymraeg gan y Cyngor. Gwnaed cais am drwydded parcio preswylydd Cymraeg gan yr achwynydd ac er bod modd darparu trwydded Saesneg yn syth, mi fyddai oedi o bedair wythnos cyn y byddai’r Cyngor yn medru darparu trwydded Gymraeg i’r achwynydd wrth i’r Cyngor ail-gyflenwi ei stoc isel o drwyddedau Cymraeg. Yn ogystal, mi dderbyniodd yr achwynydd alwad ffôn gan y | 15/12/2022 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 21: Gofynion safon 21 yw holi (ar y cysylltiad cyntaf) os yw’r person yn dymuno galwadau ffôn Cymraeg, i gofnodi hynny, a chynnal galwadau ffôn Cymraeg gyda’r person o hynny ymlaen os maent yn dymuno hynny. Er i’r achwynydd wrthod derbyn galwad ffôn Gymraeg ddilynol wrth y Cyngor, gan barhau a’r alwad yn Saesneg er mwyn cychwyn ar y broses o gael trwydded parcio Cymraeg fel preswylydd, nid yw’r ffeithiau a’r dystiolaeth roddir gan y Cyngor yn ei hymatebion yn dangos bod ganddynt trefn o gadw cofnod o ddewis iaith unigolyn sydd am dderbyn galwad ffôn yn Gymraeg wrth y Cyngor. Gan nad dyma’r tro cyntaf i’r Cyngor gysylltu gyda’r achwynydd, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth yn cadarnhau y cofnodwyd dewis iaith yr achwynydd wrth iddo dderbyn galwad ffôn wrth y Cyngor neu os ofynnwyd i’r achwynydd am ei ddymuniad i dderbyn gwasanaeth Cymraeg gan y Cyngor. Yn ogystal, mae’r modd gwnaeth y Cyngor ymdrin ag ymholiad yr unigolyn a’r methiant a fu i ymdrin a’r alwad yn syth yn Gymraeg yn gyfystyr a trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg fel y diffinnir yn Adran 28 o Fesur y Gymraeg |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor ac ni ofynnwyd iddo os oedd am dderbyn galwad ffôn yn Gymraeg ai peidio. | (Cymru) 2011. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 21. Cafodd yr achwynydd gynnig gwasanaeth Saesneg yn syth neu wasanaeth Cymraeg a fyddai wedi oedi’r sefyllfa yn hirach. Mae hyn yn annerbyniol ac yn groes i ofynion y Safon a’r Mesur. Er I'r achwynydd gysylltu a’r Cyngor yn flaenorol a gofyn am wasanaeth Cymraeg, ni wnaed unrhyw gofnod nac ychwaith unrhyw nodyn o ddymuniad blaenorol yr achwynydd i dderbyn gwasanaeth Cymraeg. Er i’r Cyngor gynnig gwasanaeth Cymraeg i’r achwynydd, yn absenoldeb unrhyw gofnod o ddymuniad yr achwynydd am wasanaeth Cymraeg gan y Cyngor, canfyddaf y bu methiant gan Gyngor Casnewydd i gydymffurfio â gofynion Safon 21.<br><br>Safon 42: Mae safon 42 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod unrhyw drwyddedau neu dystysgrifau a fydd yn eu llunio yn cael eu llunio yn Gymraeg. Casglaf bod yr achwynydd wedi gwneud cais am drwydded parcio Cymraeg ac y bu oedi o bedair wythnos cyn i’r achwynydd dderbyn y drwydded parcio Cymraeg i breswylydd am nad oedd trwydded Gymraeg wedi ei llunio gan y Cyngor. Ymddengys o’r dystiolaeth gyflwynwyd y bu angen cymeradwyo proflenni o’r drwydded ddyluniwyd ac sy’n cadarnhau nad oedd trwydded Gymraeg ar gael pan wnaeth yr achwynydd gais am drwydded parcio i breswylydd. Mae hyn yn groes i ofynion safon 42 ac yn fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â gofynion safon 42. Rwyf hefyd yn argymell y dylai’r Cyngor ystyried mabwysiadu trefn fwy effeithiol i wirio niferoedd trwyddedau sydd ar gael a sicrhau bod stoc digonol o drwyddedau |

parcio (ac yn wir, dogfennau a ffurflenni Cymraeg eraill) ar gael yng nghanolfannau cyswllt y Cyngor fydd yn osgoi sefyllfa debyg i'r hyn sydd wrth wraidd yr ymchwiliad yma rhag codi eto yn y dyfodol.

Safon 81: Mae safon 81 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo, a gwneud hynny yn Gymraeg. Mae 'hybu' a 'hysbysebu' yn cynnwys corff yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol drwy roi sylw i'r ffaith bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac yn annog defnydd o'r gwasanaeth hwnnw. Yn yr achos yma, ni bu unrhyw hybu rhagweithiol o wasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 81.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 21, 42 ac 81.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 21, 42 ac 81.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 21 – gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Gyngor Casnewydd i baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion safon 21 wrth wneud galwadau ffon am y tro cyntaf at unigolion, gan nodi dymuniad yr unigolyn os yw am dderbyn gwasanaeth Cymraeg ai peidio ac i nodi dymuniad yr unigolyn mewn cofnod ganolog fel bod y galwadau ffon dilynol a wneir gan y Cyngor at yr unigolyn yn Gymraeg yn unol â dymuniad yr unigolyn.

Dylai'r cynllun gweithredu amlinellu'r canlynol:

• trefniadau sydd mewn lle i sicrhau bod pawb sy'n gwneud galwadau yn ymwybodol o ofynion Safon 21,
• sut cofnodir dymuniad unigolyn am wasanaeth Cymraeg ar gofnod canolog fydd ar gael i staff ar draws y Cyngor;
• Sut medrir diweddaru cofnod ganolog y Cyngor am wasanaethau Cymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Safon.

Dylai'r cynllun hefyd nodi'r trefniadau sydd mewn lle i ofyn i unigolyn os yw'n dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg, sut y nodir hyn mewn cofnod ganolog gan y Cyngor a sut medrir sicrhau bod pob galwad ffôn ddilynol at yr unigolyn yn y Gymraeg yn unol â dymuniad yr unigolyn am wasanaeth Cymraeg.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Prif gamau'r broses wrth gynllunio'r gwaith
- Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith
- Y gyllideb ar gyfer cwblhau'r gwaith
- Enw'r person sydd â chyfrifoldeb dros y prosiect

Dylai'r cynllun arfaethedig gynnwys eglurhad o sut bydd y sefydliad yn atal eu methiant i gydymffurfio â gofynion safon 21 eto, gan gynnwys rhwystro i'r methiant barhau neu gael ei ailadrodd.

Dylid hefyd cynnwys canfyddiadau'r adolygiad o wasanaethau'r Cyngor yn unol â safon 21,dogfennaeth o system gofnodi presennol y Cyngor fel y nodir gan safon 21, ynghyd ag unrhyw gynlluniau neu gofnodion diwygiedig y bwriedir i'w mabwysiadu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon ac i atal ymddygiad tebyg rhag codi eto.

Dylid sicrhau bod y cynllun gweithredu bwriedir ei fabwysiadu yn cael ei gyflawni o fewn blwyddyn o dderbyn cadarnhad y Comisiynydd bod y Cynllun gweithredu arfaethedig yn dderbyniol.

Amserlen: Dylid cyflwyno'r cynllun gweithredu drafft o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas a'r cynllun.

2. Rhaid i Gyngor Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn chwech mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 42: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
3. Rhaid i Gyngor Casnewydd lunio trwyddedau parcio Cymraeg i breswylwyr a'u bod ar gael yn syth pan gwneir cais am drwydded o'r fath gan aelod o'r cyhoedd.
4. Rhaid i Gyngor Casnewydd sicrhau bod proflenni a dyluniad y trwyddedau parcio Cymraeg i breswylwyr yn cyfateb i ddyluniad trwyddedau Saesneg ddarperir gan y Cyngor a bod stoc digonol o'r trwyddedau yma ar gael pan gwneir cais gan aelodau o'r cyhoedd am drwyddedau o'r fath.
5. Rhaid i Gyngor Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 3-5.

Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 42: Argymhellion yn unol ag Adran 77 Mesur y Gymraeg
6. Argymhellir i Gyngor Casnewydd sicrhau ei fod yn gwerthuso eu prosesau monitro o drwyddedau parcio Cymraeg i breswylwyr, gan nodi niferoedd y dogfennau, ffurflenni a thrwyddedau a gynhyrchir gan y Cyngor er mwyn sicrhau bod stoc digonol o drwyddedau ar gael ym mhob un o ganolfannau cyswllt y Cyngor yn ogystal ag yn ganolog os derbynnir cais drwy ddulliau electroneg am drwyddedau o'r fath gan unigolion. .
7. Argymhellir i Gyngor Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi ystyried a chwblhau cam 6.

Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 81: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

8. Rhaid i gyngor Casnewydd gynnal adolygiad o'i drefniadau presennol wrth hybu gwasanaethau ffôn Cymraeg y Cyngor. Rhaid Cyngor ystyried y canlynol fel rhan o'i hadolygiad i'r methiant i hybu gwasanaethau Cymraeg yn yr achos yma:

• Pam na wnaeth y Cyngor hybu gwasanaethau Cymraeg wrth archebu trwyddedau parcio Cymraeg i breswylwyr?
• Pa hyfforddiant sydd ei angen ar staff i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion safon 81?
• Pam y bu i'r achwynydd dderbyn gwasanaeth oedd yn is-radd i'r gwasanaeth cyffelyb Saesneg?
• Pa gamau mae'r Cyngor yn bwriadu ei mabwysiadu i osgoi sefyllfa debyg rhag digwydd eto a sut medrir sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon wrth hybu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol.
• Pam na fu taith y defnyddwyr i ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg o'r un safon ac ansawdd â'r gwasanaeth Saesneg gan y Cyngor?
• Pam nad oedd gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn amlwg, yn hawdd i'w cyrchu, a pam na bu hyrwyddo rhagweithiol o'r gwasanaethau yn yr achos yma?
• Pam na fu'r gwasanaeth Cymraeg yn gyson a'r gwasanaeth Saesneg yn yr achos yma?

9. Rhaid Cyngor Casnewydd sicrhau bod hyfforddiant priodol a pharhaus ar gael i staff fod yn rhagweithiol wrth hybu gwasanaethau Cymraeg yn ogystal

10. Rhaid i Gyngor Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 8 - 9.

Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

11. Rhaid i Gyngor Casnewydd weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad nodir yn pwynt 8 uchod gan gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau a mabwysiadau'r argymhellion a chanfyddiadau'r adolygiad cynhaliwyd.

Amserlen: O fewn chwech mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 81: Argymhellion yn unol ag Adran 77 Mesur y Gymraeg
12. Argymhellir i Gyngor Casnewydd sicrhau ei fod yn hybu ac yn hyrwyddo holl wasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg, ac yn atgoffa swyddogion sydd yn ymdrin a llinellau cymorth y Cyngor am y gofyniad i hybu a hwyluso gwasanaethau Cymraeg yn unol a safon 81.
13. Argymhellir i Gyngor Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi ystyried a chwblhau cam 12 uchod.

Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Cyngor Casnewydd ar 15/12/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS122** Ar 17/02/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cysylltodd yr achwynydd gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn oedi wrth dderbyn gwybodaeth am benderfyniad ynglŷn â chael cyfweliad am swydd. Roedd yr achwynydd yn anfodlon bod oedi oherwydd diffyg staff oedd yn siarad Cymraeg oedd yn gallu asesu'r ceisiadau am swydd. Honnodd yr achwynydd ei bod wedi ceisio am swydd gyda Arolygaeth Gofal Cymru yn Mis Tachwedd 2021 a'i bod yn dal i ddisgwyl clywed am benderfyniad os oedd yn mynd i dderbyn cyfweliad neu beidio dri mis yn ddiweddarach. | 22/11/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 137B: Mae gofyniad ar Weinidogion Cymru i beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau. Gwnaeth yr achwynydd gais am swydd gydag Arolygaeth Gofal Cymru ble roedd sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn hanfodol. Bu oedi cyn derbyniodd yr achwynydd wybod am ganlyniad rhestr fer y swydd. Nid oes unrhyw dystiolaeth, fodd bynnag, bod cais Cymraeg yr achwynydd wedi ei drin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg. Rhoddwyd gwybod i bob ymgeisydd o ganlyniad y broses recriwtio ar yr un diwrnod ac ystyriwyd pob cais gan yr un panel recriwtio. Nid yw hyn yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio gyda Safon 137B.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 137B.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o wella profiad ymgeiswyr. Mae manylion y gweithredu pellach isod.<br><br>Safon 137B: Cyngor yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg Rhaid i Arolygaeth Gofal Cymru sicrhau wrth roi gwybodaeth i ymgeiswyr am unrhyw oedi yn y broses recriwtio, fod y wybodaeth hynny yn gywir.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 22/11/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | **CS092** Mae Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg 2021 yn amlinellu'r dulliau rydwyf yn ei ddefnyddio i fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r dulliau hynny'n cynnwys gwaith gwirio uniongyrchol, sef cyrchu gwasanaethau fel cwsmer go iawn er mwyn canfod beth yw'r profiad gwirioneddol i'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau gan gyrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Cynhelir ymarferion | 31/10/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 8: Rhaid i gorff sicrhau pan fydd person yn cysylltu â hwy ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, bod y person sydd yn cysylltu yn derbyn cyfarchiad yn y Gymraeg. Ni dderbyniodd ein galwr dirgel gyfarchiad yn y Gymraeg ar fwy na un achlysur wrth geisio un o brif rifau ffôn y Cyngor fel rhan o'n gwirio uniongyrchol. Wrth bwyso a mesur ein tystiolaeth, mae'n ymddangos na fuasai'n galwr dirgel wedi derbyn cyfarchiad Cymraeg ar y neges awtomataidd chwaith. Mae hynny yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 8.<br><br>Safon 11: Rhaid i gorff sicrhau pan fo person yn cysylltu â hwy ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), neu ar |

gwirio uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau megis gwasanaeth ffôn, derbynfa, gwefannau a gohebiaeth.

Cododd canlyniadau monitro ac asesu gwasanaeth y Cyngor amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â'r Safonau cyflenwi gwasanaethau 8, 11 ac 17 sy'n ymwneud â gwasanaethau ffôn y Cyngor. Ar sail yr amheuaeth yma, penderfynais gynnal ymchwiliad ar sail y diffyg yn y gwasanaethau ffôn Cymraeg oedd wedi bod ar gael i'n galwr dirgel ar dri achlysur. Agorwyd ymchwiliad CS092 felly i ystyried yr amheuaeth o fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio gyda'r Safonau ffôn.

Yn nhystiolaeth wreiddiol y Cyngor yn ymateb i'r ymchwiliad fodd bynnag, daeth i'r amlwg fod diffyg staff oedd yn gallu siarad Cymraeg ac yn gallu rhoi gwasanaeth ffôn oedd yn cydymffurfio gyda gofynion y safonau yn gweithio fel rhan o'r tîm derbyn galwadau ffôn. Roedd y Cyngor yn dibynnu ar staff o adrannau eraill oedd yn gwirfoddoli i gefnogi'r gwasanaeth, er nad dyna

unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, fod y corff  yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny - (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. Ni dderbyniodd yr achwynydd unrhyw wasanaeth Cymraeg yn ystod ei alwad ffôn i'r Cyngor. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 11. Ymhellach, mai'n ymddangos mai un staff rhan amser yn unig sydd yn delio gyda galwadau ffôn Cymraeg i prif rifau ffôn y Cyngor.  Ar y diwrnodau hynny pan and yw'r aelod hwnnw o staff yn gweithio neu ar adegau pan yn gweithio ond and yw ar Mae hynny yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 11.

Safon 17: Rhaid i gorff sicrhau pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, eu bod yn rhoi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Ar ddwy o'r tair galwad gwnaethpwyd gan y galwr dirgel, ni dderbyniwyd unrhyw wasanaeth Gymraeg ond ni roddwyd chwaith wybod pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â Safon 17.

Safon 81: Rhaid i gorff sicrhau eu bod yn hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddynt, ac yn hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. Yma mae'r Cyngor wedi nodi eu bod nhw yn cymryd rhai camau i hybu eu gwasanaethau ffôn Cymraeg  ond mae rhai esiamplau

ddigwyddodd i’n galwr dirgel yn ystod ei alwadau i’r Cyngor. Yn un o’r galwadau gwnaethpwyd gan ein galwr dirgel, ni ddangosodd yr asiant unrhyw ymwybyddiaeth fod ein galwr dirgel wedi siarad yn y Gymraeg. Dangoswyd y dystiolaeth wreiddiol gan y Cyngor hefyd fod diffyg yn nealltwriaeth y Cyngor o ofynion y Safonau gwasanaeth ffôn.

Gan fod dim o aelodau’r ganolfan oedd yn delio gyda galwadau ffôn yn gallu siarad Cymraeg, cododd hyn amheuaeth fod problemau ehangach o ran recriwtio, hyfforddi ac ymwybyddiaeth o’r Gymraeg o fewn y sefydliad. Diwygiwyd Cylch Gorchwyl yr ymchwiliad felly i gynnwys safonau ychwanegol i geisio dod i wraidd os oedd problemau strwythurol oedd yn atal y Cyngor rhag gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg o safon i ddefnyddwyr.

amlwg ble nad ydi’r Cyngor wedi cymryd camau i hybu a hysbysebu’r gwasanaeth hwnnw. Mae hefyd cwestiynau am y modd mae’r Cyngor yn gwerthuso enghreifftiau sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyngor. Er nad yw’r uchod yn gyfystyr a methiant i gydymffurfio â Safon 81 gan fod rhai camau yn cael eu cymryd gan y Cyngor i hybu a hwyluso’r gwasanaethau Cymraeg, mae gwaith pellach gall y Cyngor fod yn ei wneud o dan Safon 81 yn enwedig o ystyried darganfyddiadau ein ymchwiliad fod gwasanaeth Cymraeg mae’r Cyngor yn ei gynnig yn anghyson.

Safon 82: Rhaid i gorff sicrhau os byddent yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy’n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen mae’r corff yn ei lunio, neu wefan maent yn ei chyhoeddi, sy’n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. Gan fod yr ymchwiliad yma heb edrych yn benodol ar gyhoeddusrwydd, ddogfennau sydd wedi ei llunio, neu wefan sydd wedi ei chyhoeddi, a bod y Cyngor wedi rhoi tystiolaeth sydd yn awgrymu eu bod yn cydymffurfio gyda Safon 82, nid oes gen i reswm i ganfod methiant i gydymffurfio â’r Safon yma.

Safon 127: Rhaid i gorff sicrhau eu bod yn asesu sgiliau Cymraeg eu cyflogeion. Er fod y Cyngor wedi cyflwyno tystiolaeth eu bod yn ‘annog’ staff i lenwi manylion am eu sgiliau iaith ar eu system iTrent, nid ydi’r Cyngor wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth bod asesiad o sgiliau Cymraeg eu cyflogeion yn digwydd yn flynyddol. Mae yma ddiffyg cynllunio a diffyg ymwybyddiaeth o sut mae adnabod y berthynas rhwng sgiliau iaith staff a'r gwasanaeth Cymraeg

sydd angen ei ddarparu. Y prif ddylanwad ar allu sefydliadau i gael darpariaeth Gymraeg addas yw'r nifer o'u staff sydd â sgiliau Cymraeg. Yng nghyd-destun gwasanaethau, mae diffyg strwythurau o ran asesu sgiliau iaith staff yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau Cymraeg gall y Cyngor ei gynnig. Dylai strategaethau darparwyr sy'n cynnig gwasanaethau Cymraeg ganolbwyntio ar asesu sgiliau Cymraeg eu staff er mwyn manteisio ar y sgiliau sydd ganddynt yn barod, magu hyder y staff ac yna ychwanegu at gapasiti'r Gymraeg drwy recriwtio a hyfforddi. Er mwyn cydymffurfio â'r Safon a mynd ymlaen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, nid yw'n ddigon i ond 'annog' neu hyd yn oed 'nodi' sgiliau iaith staff. Mae'r Safonau yn gofyn i'r Cyngor asesu y sgiliau yma, i gofnodi'r sgiliau ac i ail asesu yn flynyddol er mwyn sicrhau fod y cofnod yma yn gyfredol. Mae asesu yn fwy na chasglu gwybodaeth. Rhaid dadansoddi'r wybodaeth a dod i gasgliadau am arwyddocâd y data a'r sgiliau iaith sydd gan staff o fewn y sefydliad. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno sy'n dangos 'sut' mae asesiad yn cael ei gynnal. Does dim wedi ei gyflwyno yn dangos sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r wybodaeth yna i benderfynu pa sgiliau iaith sydd eu hangen arnynt. Does dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno yn dangos sut a pryd mae'r Cyngor yn edrych ac yn ystyried y data a dim tystiolaeth yn dangos yr adroddir ar hynny i uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Os nad yw'r Cyngor yn gallu cydymffurfio â'r safon hon, mae yn annhebygol iawn y gall fyth gydymffurfio â'r safonau eraill gan os nad oes data digonol am sgiliau staff, does dim modd i'r Cyngor gynllunio yn ddigonol o ran staff sydd eu hangen yn y sefydliad er mwyn cydymffurfio â'r Safonau. Mae yn siomedig ag yn bryderus iawn nad ydi'r

Cyngor wedi sylweddoli neu parchu pwysigrwydd gofyniad y Safon yma. Does yma chwaith dim tystiolaeth eu bod yn deall canlyniadau hir dymor peidio cydymffurfio yn llawn gyda’r Safon yma yng nghyd-destun y Safonau eraill. Mae yn amlwg nad oes strategaeth gan y Cyngor i lenwi'r bylchau sgiliau iaith sydd ganddo. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 127.

Safon 130: Mae’n rhaid i gorff ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i’w gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ac o i gyflogeion sy’n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio’r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. Gan nad oes gan y Cyngor gofnod o faint o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant Gymraeg sylfaenol dros y tair blynedd diwethaf, mae yn codi amheuaeth nad oes yna weithdrefn gadarn mewn lle o ran cydymffurfiaeth â Safon 130 ac o ran cynnig cyfleon i staff dderbyn hyfforddiant Cymraeg sylfaenol. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno fod staff sy’n rheoli pobl eraill yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant ar ddefnyddio’r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 130.

Safon 131: Rhaid i gorff ddarparu cyfleoedd i’w cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. Gan nad oes gan y Cyngor gofnod o faint o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant pellach dros y tair blynedd diwethaf ac nad oes tystiolaeth yn dangos bod cyfleoedd wedi eu darparu, mae yn codi amheuaeth nad ydi’r Cyngor yn cydymffurfio â Safon 131 o ran cynnig cyfleon i staff dderbyn hyfforddiant Cymraeg sylfaenol. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 131.

Safon 132: Rhaid i gorff ddarparu'r hyfforddiant i'w cyflogeion ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg, a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn yr adroddiad 'Hefyd ar gael yn Gymraeg: deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg' gan Gyngor ar Bopeth dyddiedig 2015, nodir: "Gall diffyg ymwybyddiaeth neu sensitifrwydd ieithyddol gan aelodau staff gael effaith negyddol ar brofiad defnyddwyr a'u hatal rhag defnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol." Dylai'r corff ddarparu'r hyfforddiant i'w cyflogeion ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod staff (Cymraeg a di-gymraeg) yn gallu trin defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg mewn ffordd sensitif a gwybodus. Mae ymwybyddiaeth iaith, sef fod ymwybyddiaeth staff o'r gofynion yn hanfodol os yw'r sefydliad am (i) gydymffurfio â'r safonau (ii) roi profiad da i siaradwyr Cymraeg. Does dim posib i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r Safonau os nad yw staff yn gwybod beth yw'r gofynion a sut mae cydymffurfio gyda'r Safonau hynny. Mae hyn fethiant sylfaenol gan y Cyngor ac yn enghraifft pellach o agwedd ddi-hid y Cyngor tuag at gydymffurfiaeth â'r safonau. Er fod y Cyngor yn honni eu bod yn darparu hyfforddiant yn ymwneud â gloywi iaith yn cael ei ddarparu gan y Cyngor,  nid ydwyf wedi derbyn unrhyw dystiolaeth gan y Cyngor fod y sesiynau am ymwybyddiaeth am y Gymraeg wedi eu rhoi i staff yn unol â Safon 132. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 132.

Safon 133: Mae'r Safon yn ei wneud yn ofynnol ar gorff, os ydynt yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (e.e. fel

rhan o’r broses ymsefydlu), i ddarparu gwybodaeth i’r cyflogeion hynny er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg. Dylai’r corff gynnwys Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg fel rhan o hyfforddiant cynefino staff er mwyn sicrhau bod staff (Cymraeg a di-gymraeg) yn gallu trin defnyddwyr gwasanaethau sy’n siarad Cymraeg mewn ffordd sensitif a gwybodus. Gall y Cyngor fod yn cydymffurfio'n rhwydd gyda'r safonau hyn drwy greu pecyn y byddai modd ei ail ddefnyddio drosodd a throsodd ac mae'r faith nad ydynt wedi gwneud hynny ar ôl 6 mlynedd yn dystiolaeth pellach o ddifaterwch y Cyngor tuag at y gyfundrefn Safonau. Er fod y Cyngor yn honni eu bod yn darparu hyfforddiant yn ymwneud â Safonau’r Gymraeg i gyflogeion newydd, nid ydwyf wedi derbyn unrhyw dystiolaeth gan y Cyngor bod gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg wedi eu darparu yn unol â Safon 133. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 133.

Safon 136: Mae’r Safon yn ei wneud yn ofynnol ar gorff wrth asesu’r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, i asesu’r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a’i chategoreiddio fel swydd sy’n gymwys i unrhyw un neu ragor o’r categorïau canlynol:
(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i’r swydd
(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol
(d) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Safon 136A: Os bydd corff wedi categoreiddio swydd fel un sy’n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn

ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid i'r corff bennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg. Yn yr enghraifft o swydd ddisgrifiad sydd wedi ei gyflwyno, mae'r Cyngor wedi pennu fod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol (er bod peth dryswch am hynny yn y swydd ddisgrifiad) ond nid oes tystiolaeth wedi ei dderbyn fod y swydd wedi ei hysbysebu yn y Gymraeg. Mae hynny yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 136A.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi methu â chydymffurfio â safon 82, ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi methu â chydymffurfio â safonau 8, 11, 17, 81, 127, 130, 131, 132, 133, 136 ac 136A .

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi methu â chydymffurfio â safonau 8, 11, 17, 81, 127, 130, 131, 132, 133, 136 ac 136A .

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 8: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i’r Cyngor ddatblygu cyfarchiad ffôn safonol Cymraeg.
2. Rhaid i’r Cyngor hyfforddi holl staff y Cyngor sydd yn delio gyda galwadau ffôn gan y gyhoedd ar sut i roi'r cyfarchiad ffôn safonol Cymraeg yn gywir ac ar gydymffurfiaeth gyda Safon 8.
3. Rhaid i’r Cyngor godi ymwybyddiaeth o fewn staff o bwysigrwydd rhoi cyfarchiad Cymraeg ac o gynnwys cyfarchiad Cymraeg ar gychwyn galwadau.
4. Rhaid i’r Cyngor werthuso unrhyw negeseuon cyfarch awtomataidd i wirio bod cyfarch yn y Gymraeg yn cael ei roi ar y neges awtomataidd os oes cyfarch yn cael ei roi yn y Saesneg.
5. Rhaid i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 4.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 11: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i’r Cyngor roi canllawiau mewn lle i holl staff ar sut i ddelio gyda galwadau ffôn yn unol â Safon 11.
2. Rhaid i’r Cyngor sicrhau bod ganddynt adnoddau i ddelio gyda pob galwad dderbynnir yn unol â Safon 11. Rhaid i’r Cyngor sicrhau fod digon o siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan alwadau i ddelio gyda galwadau ffôn gan bersonau sy'n dymuno cynnal yr alwad yn Gymraeg, yn unol â safon 11.
3. Rhaid i’r Cyngor roi hyfforddiant i holl staff sydd yn delio gyda galwadau ffôn ar sut i roi gwasanaeth Cymraeg yn unol â Safon 11.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 17: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Pan na fo gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael, rhaid i'r Cyngor fabwysiadu gweithdrefn sydd yn rhoi gwybod i bobol sy'n galw pryd bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn unol â Safon 17.
2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu canllaw i'r holl staff sydd yn delio gyda galwadau ffôn perthnasol ar y weithdrefn newydd.
3. Rhaid i'r Cyngor roi hyfforddiant i staff ar y weithdrefn newydd.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Oherwydd methiannau ar draws nifer o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, mae'r gofyniad i baratoi cynllun gweithredu isod yn ymdrin â'r methiannau welwyd ar draws y Safonau hynny sydd wedi bod yn destun yr ymchwiliad yma;

Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl Safonau Cyflenwi Gwasanaethau fuodd yn destun yr ymchwiliad yma.
2. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu'r camau mae'r Cyngor am eu cymryd sydd am eu galluogi i gydymffurfio gyda'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau sydd wedi bod yn destun yr ymchwiliad yma.
3. Rhaid i'r camau o fewn y Cynllun Gweithredu gynnwys ymrwymiad gan y Cyngor i:
   - gynnal adolygiad bôn i'r brig o'i drefniadau ar gyfer cydymffurfio gyda'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau sydd wedi bod yn destun yr ymchwiliad yma;
   - paratoi cynllun am sut mae'r sefydliad am sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ble mae'r ymchwiliad yma wedi canfod methiant i gydymffurfio â hwy ar draws y sefydliad;
   - paratoi cynllun adnoddau dynol ar sut mae'r Cyngor yn mynd i sicrhau adnoddau digonol er mwyn cydymffurfio â'r safonau ffôn.
   - cynyddu ei ddealltwriaeth o ofynion y safonau sydd yn berthnasol i'r ymchwiliad yma.
4. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau yn y cynllun
- sicrhau bod gan aelodau o'r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd y Cyngor yn erbyn y cynllun hynny.
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau o fewn y cynllun gyda pob un o'r camau i'w gyflawni mewn dim mwy na 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.

Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

Safon 127: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddynt weithdrefn er mwyn asesu sgiliau Cymraeg sgiliau Cymraeg eu cyflogeion.
2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y sgiliau hynny yn cael eu hasesu yn flynyddol.
3. Rhaid i'r Cyngor gofnodi canlyniadau yr asesiadau blynyddol hynny.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 130: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor greu gweithdrefn i darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'w gyflogeion gael gwersi

Cymraeg sylfaenol, ac o i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

2. Rhaid i'r Cyngor gofnodi faint o staff sydd yn cael cynnig yr hyfforddiant yma a faint o staff sydd yn derbyn hyfforddiant yma yn flynyddol.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 2.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 131: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor greu gweithdrefn i ddarparu cyfleoedd i'w cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.
2. Rhaid i'r Cyngor gofnodi faint o staff sydd yn cael cynnig yr hyfforddiant yma a faint o staff sydd yn derbyn hyfforddiant yma yn flynyddol.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 2.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 132: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i'w cyflogeion ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg,

a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

2. Rhaid i'r Cyngor gael gweithdrefn mewn lle sydd yn sicrhau bod yr hyfforddiant yma'n cael ei ail gyflwyno'r hyfforddiant yma yn gyfnodol.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 2.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 133: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor addasu eu gweithdrefnau a sesiynau ymsefydlu i gynnwys ddarparu gwybodaeth i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
2. Rhaid i'r Cyngor baratoi pecyn gwybodaeth am y Gymraeg a rhannu'r pecyn hwn gyda phob aelod newydd o staff.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 136: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor roi hyfforddiant i staff sydd yn asesu anghenion sgiliau iaith ar gyfer swydd newydd neu swydd wag ar sut i wneud asesiadau sydd yn cydymffurfio gyda gofynion Safon 136.

2. Rhaid i'r Cyngor baratoi canllaw i staff ar sut mae cynnal asesiad o anghenion sgiliau iaith swydd.
3. Wrth wneud asesiadau o dan Safon 136, rhaid i'r Cyngor, ar bob achlysur, ystyried capasiti o fewn maes gwaith y swydd i roi gwasanaeth Cymraeg yn unol â'r Safonau ac ystyried a dylai'r swydd gael eu hysbysebu fel swydd ble mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 136A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor newid ei weithdrefnau fel pan bydd y Cyngor yn categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid i'r corff bennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg yn unol â Safon 136A.
2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau Gweithredu: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Oherwydd methiannau ar draws nifer o'r Safonau Gweithredu, mae'r gofyniad i baratoi cynllun gweithredu

isod yn ymdrin â’r methiannau gwelwyd ar draws y Safonau hynny.

Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a’i gwblhau yn unol â’r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â’r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â’r holl Safonau Gweithredu fuodd yn destun yr ymchwiliad yma.
2. Rhaid i’r cynllun gweithredu amlinellu’r camau mae’r Cyngor am eu cymryd sydd am eu galluogi i gydymffurfio gyda’r Safonau Gweithredu sydd wedi bod yn destun yr ymchwiliad yma.
3. Rhaid i’r camau o fewn y Cynllun Gweithredu gynnwys ymrwymiad gan y Cyngor i:
    - gynnal adolygiad bôn i’r brig o’i drefniadau ar gyfer cydymffurfio gyda’r Safonau Gweithredu sydd wedi bod yn destun yr ymchwiliad yma;
    - paratoi cynllun am sut mae’r sefydliad am sicrhau cydymffurfiaeth gyda’r Safonau Gweithredu ble mae’r ymchwiliad yma wedi canfod methiant i gydymffurfio â hwy ar draws y sefydliad;
    - cynyddu ei ddealltwriaeth o ofynion y safonau sydd yn berthnasol i’r ymchwiliad yma ac yn benodol eu prosesau asesu sgiliau iaith, hyfforddiant Gymraeg ac asesu anghenion iaith swyddi.

4. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol
    - pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau yn y cynllun
    - sicrhau bod gan aelodau o'r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd y Cyngor yn erbyn y cynllun hynny.
    - amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau o fewn y cynllun gyda pob un o'r camau i'w gyflawni mewn dim mwy na 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.

Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

Comisiynydd y Gymraeg i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio:

Oherwydd fy anfodlonrwydd gyda sawl elfen o safon cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Safonau'r Gymraeg o fewn yr ymchwiliad, bydd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau'r ymchwiliad yma ac yn cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad a luniwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

Bydd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau uchod drwy roi datganiad am y methiant i'r wasg dim llai na 28

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar 31/10/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS063** Ar 21/06/2021, 14/11/2021 ac ar 17/11/2021 derbyniais gwynion gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd y cwynion yma yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion ddilys.<br><br>**Cwyn 1**:<br>Ar 21 Mehefin 2021 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod cyhoeddiadau sain yn Saesneg yn unig ar y trên ar ei daith o Bwllheli i Aberystwyth ar 12 Mehefin 2021 (trên yn gadael goraf Pwllheli am 7:24yb). Honnai'r achwynydd hefyd bod arwyddion Saesneg yn unig yn y gorsafoedd ar hyd y daith. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau mai system sain Train-FX oedd ar y trên dan sylw. | 04/10/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 61: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 61 roedd rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod pob arwydd sy'n cael eu gosod ganddynt, gan gynnwys arwyddion electronig, yn cael eu gosod yn Gymraeg. Cysylltodd dau aelod o'r cyhoedd gyda mi i gwyno nad oedd arwyddion ar drenau a gorsafoedd trên wedi eu gosod yn Gymraeg. Roedd un achwynydd wedi teithio ar drên o Bwllheli i Aberystwyth ar 12/06/2021 ac wedi gweld arwyddion Saesneg yn unig mewn gorsafoedd. Roedd achwynydd arall wedi teithio o Aberystwyth i Birmingham ar 27/10/2021. Cysylltodd yr achwynydd gyda mi i gwyno bod arwyddion electronig ar y trên ac yn yr orsaf yn Aberystwyth yn Saesneg yn unig. Gan nad oes modd gwybod pa bryd y gosodwyd yr arwyddion welodd yr achwynydd wrth deithio ar y trên o Bwllheli i Aberystwyth, yna nid oes modd canfod a fu methiant i gydymffurfio gyda safon 61 yn achos y gŵyn yma. Yn yr un modd, nid oes modd adnabod yr arwyddion electronig welodd yr achwynydd ar orsaf Aberystwyth. Fodd bynnag, yn achos y siwrne drên o Aberystwyth i Birmingham ar 27/10/2021, roedd yr arwyddion electronig |

**Cwyn 2:**
Ar 14 Tachwedd 2021 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chyhoeddiadau sain Saesneg yn unig ar y trên o Abertawe i Gaerdydd ar 12 Tachwedd 2021. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau mai system sain ALSTOM oedd ar y trên dan sylw.

**Cwyn 3:**
Ar 17 Tachwedd 2021 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â gwasanaethau trên yn ystod ei daith o Aberystwyth i Birmingham ar 27 Hydref 2021. Mae'r achwynydd yn honni bod arwyddion electronig ar y trên ac yn yr orsaf yn Aberystwyth yn Saesneg yn unig. Honnai hefyd bod cyhoeddiadau sain ar y trên yn Saesneg yn unig. Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau mai system sain Train-FX oedd ar y trên dan sylw.

ar y trên oedd yn defnyddio'r system wybodaeth TrainFX ac yn Saesneg yn unig. Gan na wnaeth Gweinidogion Cymru sicrhau bod yr arwyddion electronig oedd ar y siwrne yn Gymraeg yna nid wyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi llwyddo i gydymffurfio a safon 61 yn yr achos yma.

Safon 87: Mae safon 87 yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyhoeddiadau dros systemau annerch cyhoeddus yn cael eu gwneud yn Gymraeg a bod y Gymraeg i'w chlywed gyntaf. Cysylltodd tri achwynydd gyda mi i fynegi siom ar ôl iddynt glywed cyhoeddiadau sain Saesneg yn unig ar drenau ar dair siwrne gwahanol. Wrth ddarparu gwybodaeth am y systemau sain oedd yn cael eu defnyddio, fe gadarnhaodd Gweinidogion Cymru nad oedd y cyhoeddiadau sain ar y trenau yma yn cael eu gwneud yn Gymraeg. Gan nad oedd y cyhoeddiadau sain a wnaed dros y systemau annerch cyhoeddus ar y trenau yma wedi eu gwneud yn Gymraeg, rwyf yn dyfarnu fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 87 yn yr achos yma.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 61 ac 87.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 61 ac 87.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 61: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â gofynion safon 61 wrth ddarparu arwyddion electronig ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb. Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Gweinidogion Cymru y neu cymryd i sicrhau bod arwyddion electronig ar drenau yn cydymffurfio â safon 61
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau—

- bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl systemau arwyddion electronig ar drenau sydd ganddo i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynion safon 61,
- bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 61 wrth ddarparu arwyddion electronig ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb o fewn 9 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Amserlen:
Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 61: Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n argymell bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl arwyddion yn y gorsafoedd trên rhwng Pwllheli ac Aberystwyth er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gyda safon 61.

Safon 87: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â gofynion safon 87 wrth wneud cyhoeddiadau sain ar drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb.

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Gweinidogion Cymru y neu cymryd i sicrhau bod cyhoeddiadau sain ar drenau yn cydymffurfio â safon 61
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff / hyfforddiant) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau—

- bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl systemau sain ar drenau sydd ganddo i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynion safon 87,
- bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 87 wrth wrth wneud cyhoeddiadau sain ar

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | drenau sydd o dan eu cyfrifoldeb o fewn 18 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.<br><br>Amserlen:<br>Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.<br><br>Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 04/10/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bro Morgannwg | **CS128** Ar 04/03/2022,derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Dyma honiad bod dolen ar wefan Gymraeg y Cyngor wedi cyfeirio'r achwynydd at dudalen Saesneg, ac nad oedd fersiwn Gymraeg o'r dudalen honno ar gael. Mae'r dudalen benodol yma yn cael ei reoli gan drydydd parti ar | 20/09/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 52: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 52, rhaid i bob testun ar wefan y Cyngor fod yn Gymraeg; rhaid i bob tudalen Gymraeg weithredu'n llawn; a rhaid i'r wefan beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn yr achos yma, roedd mwy nag un ddolen ar wefan y Cyngor yn cyfeirio'r defnyddiwr at dudalen Saesneg nad oedd ar gael yn Gymraeg. Roedd gwallau iaith yn bodoli ar y wefan hefyd, ac yn parhau i fodoli ar ôl i'r Cyngor gywiro'r dudalen. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 52. |

ran y Cyngor. Mae archwiliad pellach o’r wefan wedi dangos bod rhagor o ddolenni yn mynd at dudalennau Saesneg y trydydd parti, a bod gwallau ieithyddol ar y wefan Gymraeg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i’r Cyngor gynnal adolygiad o’r dolenni ar y wefan ailgylchu a sicrhau bod pob un yn mynd at dudalen Gymraeg sy’n gweithredu’n llawn.
2. Rhaid i’r Cyngor adolygu ei drefniadau o ddelio gyda thrydydd parti sy’n gyfrifol am dudalennau ar ei wefan. Rhaid i’r Cyngor sicrhau bod y trydydd parti yn ymwybodol o ddyletswydd y Cyngor i gydymffurfio gyda safonau’r Gymraeg, a rhoi trefniadau mewn lle fel bod y Cyngor yn gwirio pob tudalen newydd i sicrhau ei fod yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg cyn cael ei gyhoeddi.
3. Rhaid i’r Cyngor gysylltu gyda’r trydydd parti dan sylw i’w hysbysu o’r dyfarniad yma, ac atgyfnerthu sefyllfa’r Cyngor o ran yr angen i gydymffurfio gyda safonau’r Gymraeg mewn perthynas â gwefannau trydydd parti.
4. Rhaid i’r Cyngor adolygu ei ganllaw mewnol er mwyn cynnwys adran sy’n pwysleisio mai’r Cyngor sy’n gyfrifol am sicrhau bod gwefannau trydydd parti sy’n gweithredu ar ran y Cyngor yn cydymffurfio gyda safonau’r Gymraeg.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 5. Rhaid i'r Cyngor ail wirio'r dudalen Baw Anifeiliaid, Anifeiliaid dy Marw, Biniau Gorlifo, neu Baraffernalia Cyffuriau -Adroddiad Cychwynnol -Cyflwyniad -Cyngor Bro Morgannwg (achieveservice.com) a sicrhau nad oes gwallau ieithyddol yn bodoli.<br>6. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth y staff perthnasol o'r canllaw mewnol adolygedig sy'n egluro sut i gydymffurfio yn llawn gyda safon 52.<br>7. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-6.<br><br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg ar 20/09/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | **CS098** Ar 26/11/2021, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gŵyn yn ymwneud ag ymgynghoriad diweddar gan y Cyngor ynghylch cynnig i symud adran fabanod at safle Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, ac | 20/09/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 91: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 91, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch effeithiau posib y cynnig (boed yn bositif neu'n andwyol) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud digon yn y ddogfen ymgynghori i gesio barn na chyfleu ystyriaeth gydwybodol o effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg. Does dim ystyriaeth o effaith |

| | |
|---|---|
| ehangu maint yr adeilad newydd. Mae'r achwynydd yn honni na wnaeth yr ymgynghoriad ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg. | posib y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned, a dim ond cyfeiriad bras at effaith y cynnig ar y Gymraeg yn yr adeilad newydd ac ar addysg Gymraeg yn lleol. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 91.<br><br>Safon 92: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 92, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud digon yn y ddogfen ymgynghori i gesio barn na chyfleu ystyriaeth gydwybodol o sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 92.<br><br>Safon 93: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 93, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud digon yn y ddogfen ymgynghori i gesio barn na chyfleu ystyriaeth gydwybodol o sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 93.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93. |

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r canllaw mewnol, gan ychwanegu ato fel bod mwy o gynnwys yn hytrach na dim ond rhestr o'r safonau llunio polisi, fel bod gan staff fwy o gyfarwyddiadau wrth fynd ati i lunio dogfen ymgynghori. Rhaid i'r canllaw adlewyrchu bod dwy elfen angen eu bodloni ar gyfer y tair safon, sef ceisio barn, ac ystyried effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg.

2. Ar gyfer yr elfen ceisio barn, rhaid i'r Cyngor nodi bod angen gofyn cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n bodloni gofynion y tair safon. Rhaid nodi yma nad yw gofyn am ymateb yn gyffredinol i'r ymgynghoriad yn ddigon i gydymffurfio, ond rhaid gofyn yn benodol am effeithiau'r cynnig ar:

   a) Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
   b) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

   Rhaid i'r Cyngor nodi yn y canllaw bod angen i'r cwestiynau hyn gael eu gofyn yn glir yn y ddogfen ymgynghori fel bod y cyhoedd yn gallu rhoi eu barn ar effaith y cynnig ar y Gymraeg.

3. Ar gyfer yr elfen ystyried, rhaid i'r Cyngor nodi yn y canllaw bod angen rhoi ystyriaeth gydwybodol i effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg, ac i sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif a llai andwyol ar y Gymraeg.  Rhaid i'r canllaw esbonio nad yw datganiadau arwynebol am y Gymraeg yn ddigon i gydymffurfio, a bod angen cynnwys digon o wybodaeth fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o sefyllfa'r Gymraeg mewn perthynas â'r cynnig.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff perthnasol ar sut i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg wrth lunio dogfennau ymgynghori ar bolisïau sy'n ymwneud ag addysg yn y sir. Dylid codi ymwybyddiaeth staff at y canllaw diwygiedig yn yr hyfforddiant yma, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion y safonau 91-93.

5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

6. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio gyda safonau 91, 92 a 93 drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei brif wefan.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff perthnasol o'r methiant drwy gyhoeddi'r adroddiad ar ei fewnrwyd staff a'i drafod mewn pwyllgorau mewnol.<br><br>Amserlen:O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Safonau 91, 92, a 93: Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg<br><br>7. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio drwy gyhoeddi gwybodaeth am yr ymchwiliad a'm dyfarniad ar fy ngwefan. Byddaf yn gwneud hynny er mwyn cyflawni fy amcan o addysgu sefydliadau am ofynion y safonau llunio polisi, ac i wella cyfraddau cydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 20/09/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | **CS053** Ar 18/05/2021, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau | 06/09/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 60: Roedd y gŵyn hon yn ymwneud â ffurflen gydsynio ddwyieithog aml-ran a dderbyniodd P gan D ar gyfer rhoi ei gydsyniad i driniaeth yn yr ysbyty (Ffurflen |

adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Ar 29 Ionawr 2021, ymwelodd P â Chanolfan Trin Canser Gogledd Cymru (CTCGC) yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan. Ar ddiwedd y sesiwn baratoi ar gyfer derbyn ei driniaeth radioleg, mae P yn honni i radiograffydd y bwrdd iechyd ofyn i P arwyddo 'Ffurflen Ganiatâd 1: Cydsyniad claf i archwiliad neu driniaeth', a fyddai:

- yn rhoi caniatâd i'r bwrdd iechyd ddarparu'r driniaeth i P, ac
- yn cadarnhau bod P yn cytuno i amodau'r driniaeth.

Cyn i P arwyddo'r ffurflen, mae P yn honni y gwnaeth y radiograffydd nodi wrtho y dylai arwyddo ar ochr Saesneg y ddogfen (yn hytrach na'r ochr Gymraeg), drwy fynegi: "Sign on the English side, since we all understand English." Mae P yn honni yr oedd anogaeth glir gan yr aelod o staff i arwyddo'r ochr Saesneg o'r ffurflen. Mae'r gŵyn yn creu amheuaeth nad oedd D wedi hybu'r gwasanaeth Cymraeg y mae yn ei darparu, ac wedi bod yn rhagweithiol i hybu'r gwasanaeth Saesneg ar draul y gwasanaeth Cymraeg. Y 'gwasanaeth Cymraeg' Ganiatâd 1: Cydsyniad claf i archwiliad neu driniaeth). Er mwyn rhoi ei gydsyniad, roedd gofyn i P gwblhau ac arwyddo adran cydsynio perthnasol yn y ffurflen. Yn achos y gŵyn hon, y 'gwasanaeth Cymraeg' dan sylw oedd yr opsiwn i P gwblhau ac arwyddo'r adran perthnasol ar ochr Gymraeg y ffurflen gydsynio ddwyieithog (sef adran 'Datganiad a llofnod y claf'). I gydymffurfio, roedd rhaid i D hybu'r 'gwasanaeth Cymraeg' hwnnw i P, drwy hybu bod modd iddo gwblhau ac arwyddo'r adran berthnasol ar ochr Gymraeg y ffurflen ddwyieithog (os oedd yn dymuno gwneud hynny). Methodd D â hybu'r defnydd o'r ochr Gymraeg o'r ffurflen o gwbl yn ei ymwneud â P. O ganlyniad, fe fethodd yn ei ddyletswydd i hybu'r 'gwasanaeth Cymraeg' y dylid wedi bod ar gael i P ei ddefnyddio. Yn hytrach nag annog neu roi gwybod i P bod modd cwblhau ac arwyddo fersiwn Gymraeg y ffurflen, bu aelod o staff D annog P i gwblhau ac arwyddo ochr Saesneg y ffurflen, drwy fynegi iddo: "Sign on the English side, since we all understand English."Drwy ddatgan yn benodol y dylai P gwblhau ac arwyddo ochr Saesneg y ffurflen— yn hytrach na hybu'r gwasanaeth Cymraeg— gweithredoedd D yn hollol groes i ofyniad a phwrpas y safon, drwy hybu defnydd o'r gwasanaeth Saesneg (sef yr opsiwn i gwblhau'r ffurflen Saesneg) yn rhagweithiol ar draul y gwasanaeth Cymraeg. Fodd bynnag, nodaf fod y bwrdd iechyd yn ystyried bod yna resymau meddygol gwirioneddol dros beidio â hybu'r gwasanaeth Cymraeg yn yr achos yma. Byddai annog a chaniatáu i P arwyddo a chwblhau'r fersiwn Gymraeg o'r ffurflen gydsynio dwyieithog wedi golygu na fyddai'r holl wybodaeth oedd ei hangen i gadarnhau cydsyniad am y driniaeth—sef llofnod P a'r manylion pwysig a fewnbynnwyd gan P a'r gweithiwr

dan sylw yn yr achos hwn oedd yr opsiwn i P gwblhau’r ffurflen ddwyieithog dan sylw yn y Gymraeg (yn lle’r Saesneg).

iechyd proffesiynol—yn cael ei drosglwyddo yn y pendraw i’w gofnodion meddygol. Er yn cydnabod hynny, ni wnaeth D fynegi yn glir i P y rhesymau clinigol pam nad oedd modd cwblhau ac arwyddo’r fersiwn Gymraeg o’r ffurflen, na pham bod angen iddo gwblhau ac arwyddo y fersiwn Saesneg (flaen) o’r ffurflen. Ni fynegwyd hynny chwaith mewn ffordd oedd yn gydwybodol o ddymuniad P i gwblhau ac arwyddo’r ffurflen gydsynio yn Gymraeg. Arweiniodd hynny at sefyllfa lle gwnaed i P deimlo nad oedd ei ddymuniad i ddefnyddio’r Gymraeg yn cael ei gydnabod a’i barchu gan y bwrdd iechyd.Ar hyn o bryd, mae strwythur a ffurf y ffurflen gyfredol yn golygu bod angen gofyn i gleifion gwblhau ac arwyddo’r fersiwn flaen (Saesneg) o’r ffurflen er mwyn sicrhau cydsyniad clir y claf i’r driniaeth. Mae strwythur y ffurflen yn golygu y byddai caniatáu (a hybu, yn unol â safon 60, bod modd) i glaf gwblhau ac arwyddo’r fersiwn Gymraeg o’r ffurflen yn arwain at oblygiadau andwyol ynghylch cadarnhad o gydsyniad y claf i’r driniaeth. Er yn cydnabod y sefyllfa anfoddhaol hyn lle bo strwythur y ffurflen gyfredol yn arwain at sefyllfa lle nad yw cleifion yn medru cwblhau ac arwyddo’r ffurflen gydsynio yn eu dewis iaith, oherwydd nad yw D yn gyfrifol am lunio’r ffurflen dan sylw, nid oes awdurdodaeth gen i yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i orfodi D i gymryd camau gorfodi i sicrhau y caiff y ffurflen ei diwygio.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safonau 60.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safonau 60.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.
Safon 60: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i D lunio a rhoi canllawiau i staff ar sut i egluro yn glir i gleifion sy'n dymuno cwblhau ac arwyddo ffurflenni cydsynio dwyieithog aml-ran yn Gymraeg, pam nad yw strwythur y ffurflen bresennol yn galluogi hynny.

   Disgwylir i'r canllawiau disgrifio sut y dylai staff egluro hyn mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn cydnabod ac yn parchu dymuniad cleifion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth iddynt gadarnhau eu cydsyniad i driniaethau.

2. Rhaid i D lunio a rhoi canllawiau i staff ar sut i hybu a hwyluso defnydd cleifion o'r Gymraeg wrth i D gwblhau elfennau eraill o'r broses gydsynio i driniaethau gyda chleifion.

   Gall hyn gynnwys canllawiau ar sut i gyfeirio cleifion at y copi Cymraeg o'r ffurflen ganiatâd er mwyn gallu ei ddarllen a sut y gellid sicrhau y gall cleifion drafod cwblhau ffurflenni caniatâd gyda staff yn Gymraeg (os oes staff Cymraeg ar gael). Gall hefyd gynnwys manylion am ba ddogfennau ynghylch cadarnhau

cydsyniad cleifion i driniaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac y gellid rhannu â chleifion.

3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 60: Argymhellion yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn argymell bod D yn annog ac yn ceisio dylanwadu ar Gronfa Risg Cymru (sef y corff sydd yn bennaf gyfrifol am lunio ffurflenni cydsynio amlran dwyieithog ar gyfer byrddau iechyd lleol) i ganfod strwythur a ffurf priodol i 'Ffurflen Ganiatâd 1: Cydsyniad claf i archwiliad neu driniaeth' a fydd yn caniatáu i gleifion allu cwblhau ac arwyddo'r ffurflen yn Gymraeg yn ddi-rwystr, ac o ganlyniad, yn caniatáu i D allu cydymffurfio â safon 60 (drwy hybu bod modd i gleifion gwblhau ac arwyddo'r ffurflen yn Gymraeg).

   Rwyf yn argymell i unrhyw ddiwygiad i'r ffurflen hefyd sicrhau y caiff manylion ynghylch cydsyniad claf (a'i lofnod) ei ychwanegu i'w gofnodion meddygol pan fo claf yn dewis cwblhau ac arwyddo'r ffurflen yn Gymraeg.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 06/09/2022.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Sir Fynwy | **CS112** Derbyniais gwynion gan aelodau o'r cyhoedd ar 01/01/2022 a 24/01/2022. Roedd y cwynion bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion dilys.<br><br>Roedd y ddwy gŵyn yn ymwneud â'r newid i bolisi Rhifo ac Enwi Strydoedd Cyngor Sir Fynwy (Cyngor). Roedd y cwynion yn cyfeirio at benderfyniad y Cyngor i ddiddymu'r angen i gyfieithu i'r Gymraeg unrhyw arwydd ffordd uniaith Saesneg ble roedd angen arwydd ychwanegol neu adnewyddu'r arwydd. | 19/08/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 88: Mae safon 88 yn gofyn fod y Cyngor yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn yr achos yma, diwygiwyd polisi Rhifo ac Enwi Strydoedd y Cyngor ond nid ydwyf yn fodlon bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er bod rhai ystyriaethau wedi eu nodi, nid oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno fod yma ystyriaeth gydwybodol o'r effeithiau yma. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 88.<br><br>Safon 89: Mae'r safonau llunio polisi yn ymwneud â'r ffordd y mae corff yn ystyried effeithiau eu penderfyniadau ar y Gymraeg. Mae safon 89 yn gofyn fod y Cyngor yn ystyried a ellid llunio neu newid y penderfyniad polisi fel ei fod yn cynyddu'r effeithiau positif ar y Gymraeg. Yn yr achos yma, diwygiwyd polisi Rhifo ac Enwi Strydoedd y Cyngor ond nid ydwyf yn fodlon bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i sut gellir ellid llunio neu newid y penderfyniad polisi fel ei fod yn cynyddu'r effeithiau positif ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 89.<br><br>Safon 90: Ar ôl ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar y cyfleoedd i bersonau |

ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o dan Safon 88, mae Safon 90 yn gofyn i gorff wneud ystyriaethau pellach. Roedd yn rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn yr achos yma, diwygiwyd polisi Rhifo ac Enwi Strydoedd y Cyngor ond nid ydwyf yn fodlon bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i sut y gellid newid y polisi fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 90.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Fynwy wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Fynwy wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 88: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Pan fydd y Cyngor yn llunio neu yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i'r Cyngor gofnodi unrhyw ystyriaethau a roddir i ba effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar:
   (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
   (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. Rhaid i'r Cyngor baratoi canllaw ar gyfer holl staff, swyddogion a chynghorwyr sydd yn ymwneud â phenderfyniadau polisi am sut i roi ystyried cydwybodol i ba effeithiau byddai penderfyniad polisi yn eu cael ar: (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
3. Rhaid i'r Cyngor roi hyfforddiant ar y canllaw yng ngham 2 i holl staff, swyddogion neu gynghorwyr sydd yn ymwneud â phenderfyniadau polisi o dan Safonau'r Gymraeg.
4. Rhaid i'r Cyngor ystyried a oes angen diwygio eu dogfen Asesiad Effaith i annog ystyriaeth gydwybodol o dan Safon 88.
5. Rhaid i Gyngor Sir Fynwy ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 89: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

6. Pan fydd y Cyngor yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i'r Cyngor gofnodi unrhyw ystyriaethau a roddir i sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –
   (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
   (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
7. Rhaid i'r Cyngor baratoi canllaw ar gyfer holl staff, swyddogion a chynghorwyr sydd yn ymwneud â penderfyniadau polisi ar sut i roi ystyriaeth gydwybodol i sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –
   (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
   (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
8. Rhaid i'r Cyngor roi hyfforddiant ar y canllaw yng ngham 7 i holl staff, swyddogion neu cynghorwyr sydd yn ymwneud â phenderfyniadau polisi o dan Safonau'r Gymraeg.
9. Rhaid i'r Cyngor ystyried a oes angen diwygio eu dogfen Asesiad Effaith i annog ystyriaeth gydwybodol o dan Safon 89.
10. Rhaid i Gyngor Sir Fynwy ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi cwblhau camau gorfodi 6 - 9.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

11. Pan fydd y Cyngor yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i'r Cyngor gofnodi unrhyw ystyriaethau a roddir i sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –
    (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
    (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
12. Rhaid i'r Cyngor baratoi canllaw ar gyfer holl staff, swyddogion a chynghorwyr sydd yn ymwneud â phenderfyniadau polisi ar sut i roi ystyriaeth gydwybodol i sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –
    (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
    (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
13. Rhaid i'r Cyngor roi hyfforddiant ar y canllaw yng ngham 12 i holl staff, swyddogion neu cynghorwyr sydd yn ymwneud â penderfyniadau polisi o dan Safonau'r Gymraeg.
14. Rhaid i'r Cyngor ystyried a oes angen diwygio eu dogfen Asesiad Effaith i annog ystyriaeth gydwybodol o dan Safon 90.
15. Rhaid i Gyngor Sir Fynwy ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi cwblhau camau gorfodi 11 - 15.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Comisiynydd y Gymraeg i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio:<br>Gan fod y cwynion derbyniwyd ynglŷn â'r mater yma yn barod wedi derbyn cyhoeddusrwydd yn y wasg a bod felly diddordeb cyhoeddus yng nghanlyniad yr ymchwiliad, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i ganlyniad yr ymchwiliad.<br><br>Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy roi datganiad am y methiant i'r wasg ac ar wefan y Comisiynydd dim llai na 28 diwrnod wedi cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Fynwy ar 19/08/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Sir Ddinbych | **CS107** Ar 20/12/2021 derbyniais gŵyn gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.<br><br>Mae tair elfen i'r gŵyn hon, oll yn gysylltiedig â phrofiad yr achwynwyr o wrthwynebu i gais cynllunio, sef: | 19/08/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 1: Mae safon 1 yn dweud bod rhaid ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg, oni bai bod yr unigolyn wedi dweud nad oes angen gwneud hynny. Yn yr achos yma, gohebodd yr achwynwyr yn Gymraeg gyda'r Cyngor, gan nodi bod rhan o'r testun yn Saesneg gan eu bod yn dyfynnu o ddogfen Saesneg. Ni ddywedodd yr achwynwyr eu bod yn dymuno newid iaith yr ohebiaeth i'r Saesneg. O ganlyniad, dylai'r Cyngor fod wedi ymateb i'r e-bost yn |

1. Honiad bod yr achwynwyr wedi derbyn e-byst a galwadau ffôn yn Saesneg gan swyddog cynllunio'r Cyngor, a hynny er bod y swyddog cynllunio gwreiddiol wedi bod yn siaradwr Cymraeg, ac wedi gohebu a siarad yn Gymraeg gyda'r achwynwyr.
2. Honiad bod swyddog y Cyngor wedi dweud wrth yr achwynwyr mewn galwad ffôn bod oedi yn eu cais Rhyddid Gwybodaeth gan fod y cais wedi ei wneud yn Gymraeg.
3. Honiad bod yr achwynwyr wedi derbyn e-byst awtomatig yn Saesneg mewn ymateb i'w e-bost Cymraeg.

Gymraeg. Ond fe ymatebodd y Cyngor yn Saesneg yn unig. Mae hyn felly yn fethiant i gydymffurfio â safon 1.

Safon 2: Mae safon 2 yn berthnasol ar gyfer y tro cyntaf mae sefydliad yn gohebu gyda chwsmer. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i sefydliad ofyn i gwsmer a yw'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, ac os ydi, yna rhaid gwneud cofnod o hynny a gohebu â'r cwsmer yn Gymraeg o hynny ymlaen. Yn dilyn derbyn ffeithiau llawn y gŵyn, mae wedi dod i'r amlwg nad yw safon 2 yn berthnasol gan mai'r achwynwyr wnaeth gysylltu yn gyntaf gyda'r Cyngor. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 2.

Safon 5: Mae safon 5 yn berthnasol pan nad yw sefydliad yn siŵr ym mha iaith y mae cwsmer yn dymuno derbyn gohebiaeth. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid i sefydliad anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at y cwsmer pan fydd yn gohebu. Yn dilyn derbyn ffeithiau llawn y gŵyn, mae'n amlwg nad oedd y Cyngor yn siŵr beth oedd dewis iaith yr achwynwyr, ac felly fe ddylai fod wedi darparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth at yr achwynwyr, yn hytrach na chymryd yn ganiataol mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 5.

Safon 18: Mae safon 18 yn ei wneud yn ofynnol i sefydliad ddelio â galwad at rif uniongyrchol yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r cwsmer yn dymuno hynny. Yn yr achos yma, ffoniodd yr achwynwyr rif uniongyrchol y Cyngor fwy nag unwaith a derbyn gwasanaeth Saesneg. Ni wnaeth y Cyngor ymdrech i ganfod dewis iaith yr achwynwyr, ac felly parhaodd y sgwrs yn Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 18.

Safon 20: Mae safon 20 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch person sydd wedi ffonio rhif llinell uniongyrchol. Yn dilyn derbyn ffeithiau llawn y gŵyn, mae wedi dod i'r amlwg na wnaeth y Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch yr achwynwyr. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 20.

Safon 21: Mae safon 21 yn dweud bod rhaid i gorff, wrth ffonio unigolyn am y tro cyntaf, ofyn i'r unigolyn beth yw ei ddewis iaith ar gyfer derbyn galwadau gan y Cyngor. Os yw'n dymuno derbyn galwadau yn Gymraeg, rhaid i'r corff gynnal galwadau ffôn yn Gymraeg gyda'r unigolyn hwnnw o hynny ymlaen. Yn dilyn derbyn ffeithiau llawn y gŵyn, mae wedi dod i'r amlwg nad yw safon 21 yn berthnasol gan mai'r galwadau gan yr achwynwyr at y Cyngor sydd yma. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 21.

Safon 7: Mae safon 7 dweud bod rhaid i gorff ddatgan bod croeso i berson ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, y bydd y corff yn ateb yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi, a hynny mewn gohebiaeth, cyhoeddiadau, neu hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd ymateb. Mae'n ymddangos yma fel y bu camddealltwriaeth rhwng yr achwynwyr a'r Cyngor ynglŷn â'r rheswm dros yr oedi yng nghais yr achwynwyr. Mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 7. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 7.

Safon 4: Mae safon 4 yn ei wneud yn ofynnol i gorff anfon unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn

ddwyieithog, beth bynnag fo dewis iaith y cwsmer. Yn yr achos yma, mae'r achwynwyr wedi derbyn e-byst awtomatig yn Saesneg yn unig gan y Cyngor. Dywedai'r Cyngor bod hyn oherwydd bod Saesneg wedi ei nodi fel dewis iaith yr achwynwyr mewn camgymeriad. Nid yw hyn mewn gwirionedd yn effeithio fy nyfarniad gan na ddylai dewis iaith gael ei ystyried wrth anfon gohebiaeth at nifer o bersonau. Yn hytrach, rhaid i ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau gael ei anfon yn Gymraeg, beth bynnag fo'r dewis iaith. Mae'r Cyngor felly wedi methu cydymffurfio â safon 4.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â safonau 2, 7. 20 a 21, ond bod Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â safonau 1, 4, 5 ac 18.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â safonau 1, 4, 5 ac 18.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i’r Cyngor adolygu ei drefniadau presennol er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i unrhyw ohebiaeth Cymraeg yn Gymraeg. Mae hyn hyd yn oed os oes rhan o’r ohebiaeth yn Saesneg. Os nad yw’r cwsmer wedi nodi’n glir nad yw’n dymuno derbyn ymateb Cymraeg, rhaid i’r Cyngor ymateb yn Gymraeg felly. Rhaid i’r Cyngor sicrhau bod y gofynion hyn wedi eu gwneud yn glir mewn unrhyw ganllawiau staff sydd gan y Cyngor.
2. Rhaid i’r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff yr adran gynllunio o ofynion safon 1 a’r canllawiau diwygiedig, ac egluro’n benodol y sefyllfa pan fo rhan o ohebiaeth yn Saesneg, ond nad oes datganiad nad oes angen ymateb yn Gymraeg.
3. Rhaid i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i’r Cyngor sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy’n mynd at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Gymraeg, a hynny ar yr un pryd ag y mae’n anfon unrhyw fersiwn Saesneg. Mae hyn yn cynnwys e-byst awtomatig sy’n mynd at nifer o bobl. Mae hyn yn wir beth bynnag fo dewis iaith y cwsmeriaid.
2. Rhaid i’r Cyngor addasu ei ganllawiau er mwyn sicrhau bod gofynion safon 4 yn cael ei egluro’n llawn i’r staff. Rhaid i’r canllawiau egluro’r canlynol:

III. Pa fath o ohebiaeth sy'n cael ei ystyried fel gohebiaeth sy'n mynd at 'nifer o bersonau'. Nid oes rhaid i ohebiaeth fynd at fwy nag un person ar yr un pryd er mwyn dod o dan y categori yma, ac felly mae e-byst awtomatig yn gynwysedig.

IV. Nid yw dewis iaith y cwsmer yn effeithio gofynion safon 4 os yw'r ohebiaeth dan sylw yn mynd at nifer o bersonau. Rhaid i'r math yma o ohebiaeth gael ei anfon yn ddwyieithog.

3. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth y staff perthnasol o'r newidiadau yma i'r canllawiau.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1,2 a 3.

Amserlen: O fewn 3mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor adolygu ei drefniadau er mwyn sicrhau ei fod yn dilyn gofynion safon 5 pan mae unrhyw ansicrwydd ynglŷn â dewis iaith y cwsmer. Rhaid i unrhyw ganllaw staff adlewyrchu fod rhaid i'r Cyngor ddarparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth pan nad yw'n gwybod beth yw dewis iaith y cwsmer, a hynny hyd nes ei fod yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg.
2. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff yr adran gynllunio o'r canllaw diwygiedig a sicrhau eu bod yn deall y gofynion yn llawn.

3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 18: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor addasu ei drefniadau o ddelio â galwadau ffôn er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth dros y ffôn yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd i gwsmer sy'n galw rhif ffôn llinell uniongyrchol adrannau ac aelodau staff os mai dyna yw dymuniad y cwsmer. Os nad yw dymuniad y cwsmer yn glir, rhaid i'r Cyngor wneud ymdrech rhagweithiol i ganfod beth yw dewis iaith y cwsmer er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safon yma.
2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y canllaw mewnol yn egluro bod angen ymdrech rhagweithiol i ganfod dewis iaith unrhyw gwsmer sy'n galw rhif ffôn llinell uniongyrchol adrannau ac aelodau staff Cyngor. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff o ofynion y safon yma a'r canllaw diwygiedig.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Ddinbych ar 19/08/2022.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | **CS100** Ar 29/11/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.<br><br>Derbyniwyd dau gŵyn gan yr achwynydd, ac mae'r ddau wedi eu cyfuno i greu un ymchwiliad. Dyma'r elfennau sydd dan ystyriaeth:<br>1. Derbyniodd yr achwynydd lythyr Saesneg mewn ymateb i sylwadau ar gais cynllunio.<br>2. Gwendidau ar y wefan Gymraeg:<br>a. Nid oedd dolen at ymgynghoriad ailgylchu ar gael ar y wefan Gymraeg;<br>b. Testun Saesneg yn unig i'w weld ar dudalennau Cymraeg y wefan. | 19/08/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 1: Mae safon 1 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ymateb i unrhyw ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg. Yn yr achos yma, roedd yr ohebiaeth gan yr achwynydd at y Cyngor yn Saesneg, ac felly nid yw safon 1 yn berthnasol. O ganlyniad, nid oes methiant i gydymffurfio gyda gofynion safon 1.<br><br>Safon 5: Mae safon 5 yn mynnu bod corff yn anfon fersiwn Gymraeg o unrhyw ohebiaeth os nad oes sicrwydd ynglŷn â dewis iaith y cwsmer. Yn yr achos yma, nid oedd dewis iaith yr achwynydd yn glir, ac ni ddywedodd nad oedd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg gan y Cyngor. Rhaid i'r Cyngor felly ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth o'r math yma. O ganlyniad, mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 5.<br><br>Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Mae tystiolaeth yr achwynydd a'r Swyddog Ymchwilio a Gorfodi yn dangos bod mwy nag un achlysur ble nad yw dolen sydd ar y wefan Saesneg yn ymddangos ar y wefan gyfatebol Gymraeg. Roedd testun Saesneg hefyd yn bodoli ar y wefan Gymraeg, ac mae trefniadau'r Cyngor yn creu risg o |

hynny yn digwydd eto. Mae hyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac felly yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 52.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 1, ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safonau 5 a 52.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safonau 5 a 52.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant. Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 5 a 52, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg:

1. Rhaid i’r Cyngor sicrhau ei fod yn anfon gohebiaeth yn Gymraeg at gwsmeriaid hyd nes mae’r Cyngor yn gwybod nad oes angen gwneud hynny. Felly os nad yw’r cwsmer wedi dweud beth yw ei ddewis iaith, rhaid i’r Cyngor ohebu yn Gymraeg tan mae’r dewis hwnnw yn cael ei wneud yn glir.

2. Rhaid i'r Cyngor addasu ei ganllawiau mewnol i adlewyrchu'r cam gorfodi uchod, a chodi ymwybyddiaeth y staff perthnasol at y canllawiau newydd yma.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn3mis o ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg:

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sicrhau bod yr un dolenni yn ymddangos ar y wefan Gymraeg a Saesneg, er mwyn sicrhau bod gan ddefnyddwyr y wefan Gymraeg yr un mynediad at wasanaethau'r Cyngor a defnyddwyr y wefan Saesneg.
2. Rhaid i'r Cyngor addasu ei ganllawiau mewnol er mwyn adlewyrchu cam gorfodi 1, a chodi ymwybyddiaeth y staff perthnasol o'r gofyniad i beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol ar y wefan.
3. Rhaid i'r Cyngor sicrhau nad oes testun Saesneg yn ymddangos ar y wefan Gymraeg. Rhaid i'r Cyngor addasu ei drefniadau o gyhoeddi testun ar y wefan fel nad yw'n cyhoeddi o gwbwl nes mae'r testun Cymraeg yn barod i fynd ar y wefan Gymraeg.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth bod ei drefniadau wedi newid a bod y staff perthnasol a Linguaskin yn ymwybodol o hynny. Rhaid i'r Cyngor addasu ei ganllawiau mewnol er mwyn adlewyrchu cam gorfodi 3 hefyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.<br>Amserlen: O fewn3mis o ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 19/08/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS073** Ar 6 Awst 2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.<br><br>Roedd y gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod diffyg trefn gyfieithu gan yr Arolygaeth Gynllunio mewn cyfarfod yn ymwneud ag apêl gynllunio. Cynhaliwyd y cyfarfod rhithiol ar 27 Ebrill 2021 am gyfnod o 2/3 diwrnod. Honnir i'r apelydd a nifer o'r tystion ofyn i roi eu tystiolaeth yn Gymraeg.  Honnir nad oedd y feddalwedd a ddefnyddiwyd gan yr | 19/08/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 27: Mae safon 27 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff ofyn i berson(au) 'gwahoddedig' yn rhagweithiol ynghylch eu dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Wrth lunio'r adroddiad daethpwyd yn glir bod angen dehongli ai cyfarfod a oedd yn 'agored' i unrhyw un fynychu ydoedd ynteu cyfarfod ble gwahoddwyd personau. Bu peth dryswch oherwydd cyfyngiadau COVID-19, a bod rhaid cofrestru ymlaen llaw er mwyn derbyn y ddolen i ymuno â'r cyfarfod, a gwahoddwyd unigolion i siarad, er ei fod yn gyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd i fynychu. Yn dilyn derbyn y ffeithiau yn llawn, mae wedi dod i'r amlwg mai cyfarfod agored a gynhaliwyd, ac felly nid yw safon 27 yn berthnasol.<br><br>Safon 27D: Mae safon 27D yn gofyn i Weinidogion Cymru ddarparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd pan fydd personau a wahoddwyd i'r cyfarfod wedi eu hysbysu eu |

Arolygaeth Gynllunio yn caniatáu cyfieithiad di-rwystr.

O ganlyniad honnir y bu rhaid gohirio rhai i roi tystiolaeth am ddiwrnod, bu i eraill roi tystiolaeth yn Saesneg, ac ni wnaeth y diffynnydd siarad o gwbl. Honnir bod 9 person wedi datgan cyn y gwrandawiad eu bod am roi tystiolaeth yn Gymraeg. Ni siaradodd yr achwynydd yn ystod y gwrandawiad ond bu'n gwrando fel un â diddordeb mewn materion cynllunio.

Rhannodd yr achwynydd enwau 9 aelodo'r cyhoedd oedd yn dymuno siarad yn y digwyddiad gyda fy swyddogion. Dywedodd yr achwynydd bod "Arolygydd" yr Arolygiaeth Gynllunio yn adrodd mewn llythyr a anfonwyd at y Prif Weinidog, Mark Drakeford fod yna drafferthion wedi bod. Yn y llythyr dywedodd nad oedd y trafferthion wedi amharu ar y gwrandawiad nac ar ganlyniad ei ddyfarniad. Fel un a fu'n gwrando, mae'r achwynydd wedi nodi ei fod yn anghytuno gyda'r casgliad hwn.

bod am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Yn dilyn derbyn y ffeithiau yn llawn, mae wedi dod i'r amlwg mai cyfarfod agored a gynhaliwyd, ac ni wahoddwyd personau penodol, o ganlyniad nid yw safon 27D felly yn berthnasol yn yr achos hwn.

Safon 32: Pan fo personau wedi eu gwahodd i siarad mewn cyfarfod, rhaid i'r corff ofyn i'r personau hynny a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac mae'n rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod. Gofynnodd Gweinidogion Cymru i'r personau a wahoddwyd i'r cyfarfod a oeddynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth siarad yn y cyfarfod. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r perwyl hwnnw. Cafwyd problemau gyda'r gwasanaeth cyfieithu ar ddechrau'r cyfarfod. Er i'r broblem gael ei datrys, ac i'r mynychwyr gael eu hatgoffa bod modd iddynt barhau i gyfrannu yn Gymraeg, nid oedd modd defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu am gyfnod at y diben hwnnw. Mae hyn gyfystyr â methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â gofynion safon 32.

Safon 33: Mae adran 28 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu mai ystyr "safon cyflenwi gwasanaethau" yw safon sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau, ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, pam gyflawnir y gweithgaredd hwnnw. Ystyr "gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau" yw bod person yn cyflenwi gwasanaethau i berson arall, neu yn delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau i'r

person hwnnw neu i drydydd person. Mae ymchwil diweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dangos bod nifer o ddylanwadau ar benderfyniadau iaith defnyddwyr, un enghraifft a gofnodwyd yw pryder y byddai ceisio defnyddio’r Gymraeg lle nad yw ar gael yn arwain at letchwithdod neu embaras, neu y byddai defnyddio’r gwasanaeth Cymraeg yn golygu eu bod dan anfantais. Dengys yr ymchwil yn ogystal pan nad oedd y gwasanaeth Cymraeg yn amlwg neu pan gai unrhyw rwystr, oedi neu drafferth ei gyflwyno, roedd rhai o’r cyfranogwyr yn penderfynu defnyddio’r Saesneg yn hytrach na dyfalbarhau er mwyn cael gwasanaeth Cymraeg. Felly mae llai o bobl yn defnyddio’r Gymraeg pan mae’r gwasanaeth Cymraeg yn fwy o drafferth, fel yn yr achos penodol hwn. Yn fy marn gwerthusol i, rwy’n dyfarnu bod y gwasanaeth cyfieithu a ddarparwyd yn torri’r safon yn seiliedig yn unig ar y ffaith bod problemau technegol wedi amharu ar lyfnder y cyfarfod ar y dechrau.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 27 a 27D, ond bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 32 a 33.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 32 a 33.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod:

Safon 32 Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a phennu y camau priodol i'w cymryd pan fydd cyfarfod (rhithiol neu fel arall) yn methu parhau mewn dwy iaith o ganlyniad i nam technegol gyda'r bwriad o sicrhau bod gan ddefnyddwyr y Gymraeg yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg fel y maent yn ei ddymuno ac yn ddidrafferth.
2. Yn seiliedig ar gasgliadau cam gorfodi 1, rhaid i Weinidogion Cymru ychwanegu adran at unrhyw ganllaw sydd ganddynt ar drefniadau cynnal cyfarfodydd dwyieithog i'r cyhoedd, yn darparu arweiniad clir ar yr hyn y dylai staff ei wneud i sicrhau bod modd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg pan fydd nam technegol yn amharu ar gyfarfod.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu copi o'r canllaw fel tystiolaeth i Gomisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 19/08/2022.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys | **CS078** Ar 25 Awst 2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.<br><br>Roedd y gŵyn yn ymwneud â negeseuon e-bost Saesneg a dderbyniodd gan Heddlu Dyfed Powys ar 4 achlysur mewn ymateb i ohebiaeth Gymraeg.<br>i. Anfonodd yr achwynydd neges Gymraeg at yr Heddlu gan dderbyn neges awtomataidd Saesneg ar 22/08/2021: "I am out of the office until Tuesday 31/08/21 and will reply to emails when I return. If you require a response before then please phone 01267 226318".<br><br>ii. Anfonodd yr achwynydd neges yn Gymraeg at y cyfeiriad contactcentre@Dyfed-Powys.pnn.police.uk ar 06/09/2021 gan dderbyn yr ymateb: "Apologies, there are no welsh speaking staff working tonight,can I assist at all?" | 18/08/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 1: Mae safon 1 yn golygu, pan fydd yr Heddlu'n derbyn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, bod rhaid iddo ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Anfonodd yr Heddlu ohebiaeth, yn yr achos hwn, negeseuon cydnabod, a llythyr, a oedd yn uniaith Saesneg. Anfonwyd y negeseuon ar ffurf e-bost. Mae hyn yn dangos methiant gan yr Heddlu i gydymffurfio â safon 1.<br><br>Safon 7: Mae'r safon yn gofyn i gorff ddatgan mewn gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiadau bod y corff yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, bydd y corff yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Ar waelod gohebiaeth a anfonir gan yr Heddlu, ymddengys y logo canlynol sy'n dangos ei fod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, ac yn hapus i gyfathrebu yn y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r Heddlu yn datgan "na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi" fel mae'r safon yn ei ofyn. Mae hyn yn dangos methiant gan yr Heddlu i gydymffurfio â safon 7 gan nad oes cydymffurfiaeth â holl ofynion safon 7.<br><br>Safon 154: Mae safon 154 yn gofyn i gorff sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd y mae'n cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Rhaid iddo yn ogystal sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer hybu'r gwasanaethau, a hwyluso defnyddio'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig yn unol â'r safonau cyflenwi |

iii. Ar 07/09/2021 ysgrifennodd yr achwynydd at yr Heddlu yn ymateb i'r neges am y diffyg Cymraeg gan yr Heddlu. Derbyniodd yr ymateb isod yn ôl: "Thank You for emailing Dyfed-Powys Police Communications Centre. Please accept this reply as confirmation that your email has been received.

Your e-mail will be subjected to technical inspection measures before final delivery. This is done to prevent the introduction of computerviruses and other malware into our systems.

PLEASE BE AWARE THAT YOUR E-MAIL MAY NOT BE DELIVERED IMMEDIATELY AND IF YOUR MESSAGE IS TIME CRITICAL AND URGENT, THEN PLEASE CONTACT THE POLICE BY TELEPHONE ON 101.

Your query or question will be dealt with over the next 24 hours.

gwasanaethau. Rhaid i gorff gyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar ei wefan a sicrhau bod copi o'r ddogfen ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd. Nid oes gan Heddlu Dyfed Powys drefniadau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer goruchwylio cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. Yn absenoldeb dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan Heddlu Dyfed Powys, nid oes copi wedi ei gyhoeddi. Mae hyn yn dangos methiant i gydymffurfio â gofynion safon 154.

Safon 156: Mae'r safon yn gofyn i gorff gyhoeddi dogfen ar ei wefan sy'n egluro sut y mae am gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Ar wefan Heddlu Dyfed Powys, ceir dogfen o'r enw "Safonau'r Gymraeg". Gyferbyn â phob safon cyflenwi gwasanaeth sy'n berthnasol i'r Heddlu, mae'r ddogfen yn nodi'n eglur y camau sydd angen i'r Heddlu eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau. Mae hyn yn cydymffurfio â gofynion safon 156.

Cam gorfodi ymchwiliad CSG812: Mae'r cam gorfodi'n gofyn i'r Heddlu gynnal arolwg er mwyn adnabod pob neges sy'n cael ei anfon ganddo mewn ymateb i adroddiadau sy'n cael eu llwytho ar wefan yr Heddlu. Mae'r cam gorfodi hefyd yn gofyn i'r Heddlu sicrhau bod pob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg. Cafodd gohebiaeth ei anfon yn Saesneg ar bedwar achlysur mewn ymateb i ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg. Darparodd yr Heddlu gopi o destun dwyieithog a ddefnyddir ganddo wrth ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg. Ni ddarparwyd eglurhad na chopi o unrhyw weithdrefnau ar

You will either receive a direct reply from an advisor or your email will be forwarded to the appropriate department."

iv. Ar 08/09/2021 derbyniodd yr achwynydd lythyr Saesneg mewn ymateb i ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg.

sut i ddefnyddio'r testun. Nid yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dystiolaeth ddigonol bod y camau gweithredu a osodwyd ym mis Gorffennaf 2021 wedi eu cwblhau'n gyflawn.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 156, ond bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safonau 1, 7, 154 a cham gorfodi ymchwiliad CSG812.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safonau 1, 7, 154 a cham gorfodi ymchwiliad CSG812.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1 –gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg
Rwy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod yr Heddlu yn cydymffurfio â gofynion safon 1 wrth ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg.

Gan ystyried yr adnoddau a'r testun Cymraeg a baratowyd gan yr Heddlu eisoes, dylai'r cynllun ddangos sut maent

am sicrhau bod pawb sy’n derbyn gohebiaeth, ym mha bynnag ffurf, yn delio gyda’r ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg.

Rhaid i’r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o bob un o’r camau y bydd Heddlu Dyfed Powys yn eu cymryd i sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o’r camau
- Yr adnoddau (e.e., cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o’r camau
- Cynigion i ailddosbarthu staff sydd â sgiliau Cymraeg
- Cynlluniau recriwtio staff
- Enw’r person sydd â chyfrifoldeb dros y prosiect

Dylai’r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau:

- Bod Heddlu Dyfed Powys yn asesu a oes modd cydymffurfio â safon 1 o fewn y systemau bresennol.

Amserlen: Rhaid i Heddlu Dyfed Powys lunio drafft cyntaf o’r cynllun gweithredu a rhoi’r drafft hwnnw i’r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Bydd rhaid cwblhau’r cynllun gweithredu terfynol o fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 7-gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ddatgan mewn gohebiaeth na fydd gohebu yn y Gymraeg yn

arwain at oedi. Rhaid sicrhau bod pob elfen o’i ohebiaeth yn cydymffurfio â gofynion safon 7.

2. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau’r cam gorfodi uchod.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 154: Gofyniad i gymryd camau  yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg3

3. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys lunio dogfen sydd yn cofnodi’r trefniadau ar gyfer goruchwylio’r modd y mae’n cydymffurfio âsafonau’r Gymraeg.
4. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys gyhoeddi’r ddogfen ar ei wefan, a sicrhau bod copi ar gael ym mhob Swyddfa.
5. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 3-5.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ar 18/08/2022.

**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | **CS103** Ar 10/12/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd (P). Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Honnir bod P wedi neges uniongyrchol yn Gymraeg i gyfrif Facebook Iechyd Cyhoeddus Cymru (www.Facebook.com/IechydCyhoeddusCymru) ar 10/12/2022. Roedd y neges yn darparu sylwadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru (D) ynglŷn â diffyg llefydd parcio y tu allan i ganolfan sgrinio llygaid ym Mharc Menai, Bangor. Honiad P yw y gwnaeth D ymateb i’r neges hon yn Saesneg yn unig. | 21/07/2022 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 46: Os bydd person yn cysylltu â Iechyd Cyhoeddus Cymru (D) drwy’r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, mae gofynion safon 46 yn ei gwneud yn ofynnol i D ateb y person hwnnw yn Gymraeg (os oes angen ateb). Ar 10/02/2022, anfonodd yr achwynydd (P) neges uniongyrchol yn Gymraeg i fersiwn Gymraeg o gyfrif Facebook D (www.Facebook.com/IechydCyhoeddusCymru). Mewn ymateb i’r neges honno, anfonodd D neges awtomataidd Saesneg yn unig i P. Er mwyn cydymffurfio â safon 46, roedd angen i D sicrhau bod unrhyw ymateb a wnaeth i neges Gymraeg P yn cael ei wneud yn Gymraeg. Fe anfonodd D ateb awtomataidd Saesneg yn unig i P, ac o ganlyniad, fe fethodd yn ei ddyletswydd i gydymffurfio â gofynion safon 46. Yn dilyn derbyn yr ateb awtomataidd (Saesneg) gan D, fe ofynnodd P yn benodol i D ateb yn Gymraeg i’w neges Gymraeg. Nis anfonwyd ymateb pellach i P. Oherwydd y cais penodol gan P am ymateb pellach i’w neges, a chan ystyried nad oedd yr ateb awtomataidd cychwynnol yn ymwneud â nac yn delio â phwnc ei neges, roedd disgwyliad ar D i ddarparu ymateb pellach i P. Oherwydd nas rhoddwyd atebo gwbl i’r neges Gymraeg (mewn unrhyw iaith), roedd hyn hefyd yn fethiant gan D i ateb (yn Gymraeg) i P yn unol â gofynion safon 46.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 46.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach** |

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 46.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 46:Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i D roi trefniadau yn eu lle i sicrhau, os bydd person yn cysylltu â Iechyd Cyhoeddus Cymru (D) drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, bod D yn ateb yn llawn i'r neges honno yn Gymraeg os yw'r person wedi gofyn yn benodol am ymateb i'w neges.
2. Rhaid i D wirio yn wythnosol yr atebion awtomataidd a anfonir o'i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safon 46.
3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.

Amserlen: O fewn 4 wythnoso ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 46: Argymhellion yn unol ag adran 77Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn argymell bod D yn sicrhau ei fod yn anfon atebion awtomataidd dwyieithog o'i gyfrifon Saesneg fel mater o drefn.
2. Rwyf yn argymell bod D yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau argymhelliad 1.

Amserlen: O fewn 4 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 21/07/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | **CS093** Ar 08/11/2021derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cyflwynodd yr achwynydd gŵyn i'r bwrdd iechyd yn Saesneg ar 01/09/2021 i gyfeiriad e-bost cwynion y bwrdd iechyd (CTHB.Concerns@wales.nhs.uk) ac fe dderbyniodd ateb yn Saesneg. Fe atebodd yr achwynydd yr e-bost yma yn Gymraeg ac fe ofynnodd y swyddog a oedd am dderbyn ymatebion pellach yn Gymraeg. Cadarnhaodd yr achwynydd ar 08/09/2021 ei fod am dderbyn ymatebion pellach yn Gymraeg. Derbyniais gŵyn ganddo ar 08/11/2021 yn esbonio nad oedd wedi derbyn ymateb i'w e-bost Cymraeg. | 15/06/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 1: Os yw'r bwrdd iechyd yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol iddo ateb yr ohebiaeth yna yn Gymraeg, os oes angen ateb. Yn yr achos yma fe anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg at y bwrdd iechyd ar 8/09/2021. Ni dderbyniodd ymateb o fewn cyfnod amser rhesymol ac fe gysylltodd â mi i gwyno deufis yn ddiweddarach. Yn ôl y bwrdd iechyd, nid oherwydd iaith yr ohebiaeth y bu cymaint o oedi wrth ymateb ond oherwydd camgymeriad gweinyddol. Nid yw'r rheswm y tu ôl i'r oedi yn ystyriaeth wrth benderfynu ar gydymffurfiaeth gyda safon 1. Gan na dderbyniodd yr achwynydd gydnabyddiaeth na ymateb i'w ohebiaeth Gymraeg o fewn cyfnod amser rhesymol, rwyf o'r farn na wnaeth y bwrdd iechyd gydymffurfio gyda safon 1 yn yr achos yma.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 1.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 1. |

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r trefniadau sydd mewn lle wrth ymateb i ohebiaeth Gymraeg gan aelodau o'r cyhoedd i sicrhau bod yr ymatebion yn cydymffurfio'n llawn â safon 1.
2. Rhaid i'r bwrdd iechyd addasu eu canllawiau i staff i gynnwys yr angen i ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Gymraeg o fewn y terfyn amser corfforaethol ar gyfer unrhyw ohebiaeth os oes angen ymateb.
3. Dylai'r bwrdd iechyd ymgorffori'r angen i ystyried safon 1 yng ngweithdrefnau y tîm cwynion corfforaethol.
4. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 1: Argymhelliad yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg
Rwy'n argymell bod y bwrdd iechyd yn cynnal ymarferiad i gynyddu ffydd y cyhoedd yn eu gwasanaethau Cymraeg gan hybu yn rhagweithiol bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ohebu.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 15/06/2022.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Caerdydd | **CSG708** Ar 12/02/2020 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r achwynydd yn anhapus bod e-bost a dderbyniodd gan Gyngor Caerdydd mewn ymateb i e-bost Cymraeg yn defnyddio hunaniaeth Saesneg y Cyngor yn ei gyfeiriad e-bost (@cardiff.gov.uk). | 01/06/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 83: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol. Derbyniodd yr achwynydd e-bost gan y Cyngor oedd yn defnyddio'r parth e-bost @cardiff. Daeth i'r amlwg bod y Cyngor yn defnyddio'r parth e-bost Saesneg @cardiff ar gyfer anfon ei holl e-byst corfforaethol. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 83 gan fod y Cyngor yn cyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol Saesneg yn unig, sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 83.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 83.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Safon 83: Ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>Dan yr amgylchiadau, nid yw gweithredu dan adran 77(3) o'r mesur yn rhesymol gan na fyddai'n dod a datrysiad i'r broblem. Nid oes dull rhesymol yn bodoli er mwyn newid y parth e-bost yn rhwydd heb achosi risg i weddill system TG y Cyngor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Am y rhesymau a roddir yn yr adroddiad terfynol, ac yn dilyn ymgynghoriad llwyddiannus gyda’r Cyngor, byddaf yn ymrwymo mewn cytundeb setlo dan adran 77(4) y Mesur at y diben o sicrhau y bydd y Cyngor yn cydymffurfio pan fydd hynny’n dod yn bosib.  Mae’r cytundeb setlo yn cynnwys y telerau a gynhwysir ac a gynigir yn yr adroddiad terfynol.<br><br>Os na fydd y Cyngor yn fodlon arwyddo cytundeb setlo gyda’r Comisiynydd ar y telerau hyn (neu rai tebyg), mae’r Comisiynydd yn cadw’r hawl i ofyn am weithredu pellach ar un o’r seiliau eraill a gynhwysir yn adran 77 y Mesur.<br><br>Amserlen i’r Cyngor dderbyn telerau’r cytundeb setlo drafft, neu i wneud sylwadau ynghylch y telerau: 28 diwrnod o ddyddiad yr adroddiad terfynol hwn.<br><br>Terfynwyd y cytundeb setlo trwy gytundeb ar y cyd rhwng y partïon ar 25/03/2024<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 01/06/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Caerdydd | **CS083** Ar 15/09/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Honnir yr achwynydd ei bod | 18/05/2022 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 1: Mae Safon 1 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau eu bod yn ateb unrhyw ohebiaeth Gymraeg oddi wrth berson (os oes angen ateb) yn y Gymraeg, oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| wedi derbyn ymateb awtomatig uniaith Saesneg dros e-bost gan Gyngor Caerdydd (Cyngor). Roedd yr ymateb awtomatig yn cydnabod cwyn gwnaethpwyd gan yr achwynydd i'r Cyngor yn y Gymraeg ynglŷn ag arwydd ffordd ble roedd y Gymraeg yn annealladwy. | Derbyniodd yr achwynydd ymateb awtomatig Saesneg dros e-bost gan Gyngor Caerdydd. Roedd yr ymateb awtomatig yn cydnabod cwyn gwnaethpwyd gan yr achwynydd i'r Cyngor ynglŷn ag arwydd ffordd ble roedd y Gymraeg yn annealladwy. Er bod testun cwyn yr achwynydd i'r Cyngor yn Gymraeg, mae anghydfod os gwnaeth yr achwynydd gwblhau a mewnbynnu'r ffurflen ar ochr Gymraeg neu Saesneg y wefan. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno tystiolaeth sydd, maen nhw'n honni, yn dangos fod y ffurflen wedi ei mewnbynnu ar ochr Saesneg y wefan. Gan nad oes gen i dystiolaeth i'r gwrthwyneb, mae'n rhaid i mi ganfod fod y gŵyn hon wedi ei mewnbynnu ar ochr Saesneg y wefan er bod yn rhaid i mi nodi fy mod o'r farn fod hyn yn ymddangos yn annhebygol o ystyried ymddygiad yr achwynydd. Rwyf hefyd yn derbyn bod defnyddio'r botwm dewis iaith ar wefan y Cyngor yn enghraifft o ddewis iaith ragweithiol a'i fod yn briodol felly i'r e-bost cydnabod ymateb awtomataidd fod naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg (yn unol â dewis y defnyddiwr). Gan nad oes gen i dystiolaeth i'r gwrthwyneb felly, mae'n rhaid i mi ganfod fod y gŵyn hon wedi ei mewnbynnu ar ochr Saesneg y wefan ac fod y Cyngor felly wedi ymddwyn yn briodol yn rhoi ymateb awtomatig uniaith Saesneg gan gymryd dewis iaith yr achwynydd o'r dewis botwm dewis iaith ar y wefan. Ni allaf felly ganfod methiant i gydymffurfio â Safon 1 gan nad ydi'r Cyngor wedi methu ag ateb gohebiaeth Gymraeg yn y Gymraeg. Mae'n rhaid i mi nodi fodd bynnag, fy mod yn derbyn tystiolaeth ddiffuant yr achwynydd ond fy mod wedi methu canfod methiant yma oherwydd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd** |

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Ar sail fy nyfarniad nad oes methiant, mae adran 76 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle na fu methiant at y diben o wella profiad defnyddwyr Cymraeg, yn unol ag ysbryd y Mesur. Mae manylion y gweithredu pellach isod:

Argymhellion yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

1. Dylai Cyngor Caerdydd wirio a gwerthuso eu system ymatebion awtomatig i ohebiaeth sydd yn cael eu derbyn trwy ochr Gymraeg eu gwefan yn rheolaidd. Os oes nam ar eu systemau ymatebion neu gofnodi negeseuon Cymraeg, rhaid cywiro unrhyw nam neu wall ar y system yn amserol i wneud yn siŵr bod rhai sy’n gyrru gohebiaeth drwy ochr Gymraeg gwefan y Cyngor yn derbyn ymateb awtomatig Gymraeg.
2. Dylai’r Cyngor ystyried gyrru e-byst cydnabod awtomatig dwyieithog i negeseuon sydd yn cael eu mewnbynnu drwy ochr Saesneg y wefan er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o’r Gymraeg.

Amserlen: Gwerthusiad cyntaf o fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 18/05/2022.

**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **CS062** Ar 14/06/2021, derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd (P). Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Ar 26/03/2021, aeth P i’r ganolfan frechu a leolwyd yn Llyfrgell Thomas Parry, Aberystwyth, ar gyfer derbyn ei frechlyn COVID-19. Wrth gyrraedd y ganolfan, cofrestrodd P wrth ddesg a rhannwyd taflen ynglŷn â’r frechlyn gydag ef.<br>Honiad (i) Y cam nesaf yn y broses gofrestru oedd i P fynd at ddesg arall i ddarparu ei fanylion cyswllt, ynghyd â gwybodaeth arall. Yn dilyn hynny, rhoddwyd ‘Ffurflen Brechiad COVID-19 Staff y GIG’ i P a oedd yn cynnwys y manylion roedd newydd eu darparu. Mae P yn honni yr oedd y ffurflen hon a rannwyd ag ef yn Saesneg yn unig. Mae P yn honni iddo ofyn am fersiwn Gymraeg o’r ffurflen hon. Mewn ymateb i’r cais, honnai P fod aelod o staff wedi esbonio iddo fod y ffurflen ar gael yn Gymraeg, ond nad oedd gan y bwrdd iechyd | 18/05/2022 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 38: Os yw corff yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), mae safon 38 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, ymysg gofynion eraill, beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o’r ffurflen yn llai ffafriol na’r fersiwn Saesneg ohoni. Ar 26/03/2021, derbyniodd P ei frechlyn COVID-19 yn y ganolfan frechu torfol a leolir yn Llyfrgell Thomas Parry, Aberystwyth. Er mwyn cadarnhau ei gydsyniad i gael y frechlyn, rhoddwyd ffurflen i P i’w chwblhau a’i throsglwyddo i’r nyrs a fyddai yn darparu’r brechlyn. Roedd y ffurflen a roddwyd i P yn Saesneg yn unig. Gofynnodd P am fersiwn Gymraeg o’r ffurflen, ond cafodd ymateb nad oedd yna fersiwn Gymraeg o’r ffurflen ar gael.<br><br>Safon 50: Mae safon 50 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa y mae’n ei roi ar gael yn Saesneg yn ei dderbynfeydd, ar gael yn Gymraeg hefyd. Ar 26/03/2021, derbyniodd yr achwynydd ei frechlyn COVID-19 cyntaf yn y ganolfan frechu torfol a oedd wedi ei lleoli yn Llyfrgell Thomas Parry yn Aberystwyth. Yn ystod yr ymweliad, fe aeth P at y ddesg gofrestru i gadarnhau ei fod wedi cyrraedd ar gyfer ei apwyntiad. Nid oedd yr unigolyn a oedd yn gweithio ar y ddesg gofrestru ar y dyddiad dan sylw yn gallu siarad Cymraeg. O ganlyniad, cafodd P wasanaeth Saesneg yn unig gan yr unigolyn hwnnw ac ni roddwyd gwasanaeth Cymraeg iddo yn unol â’i ddewis iaith. Fodd bynnag, nid oedd y ddesg dan sylw yn gyfateb ag ystyr y term “derbynfa” yn Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff |

| | |
|---|---|
| gyflenwad o’r fersiwn Gymraeg ar gael yn y ganolfan.<br>Honiad (ii) Honnir hefyd nad oedd y person ar y dderbynfa yn y ganolfan yn siarad Cymraeg. | 52 o Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 7) 2018. Yn ogystal, nid oedd y gwasanaeth a ddarparwyd i P yn gyfateb â’r ystyr a roddir i’w wasanaeth derbynfa” yn y Rheoliadau.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safon 50, ond bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safon 38.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safon 38.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Safon 38: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i D sicrhau, os yw yn rhoi ffurflen i aelod o’r cyhoedd yn ei ganolfannau brechu, ei fod yn rhoi fersiwn Gymraeg o’r ffurflen i’r aelod o’r cyhoedd fel mater o drefn, ac heb i’r aelod o’r cyhoedd orfod gofyn am fersiwn Gymraeg.<br><br>Mae’r ffurflenni hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:<br>• ffurflen brechiad COVID-19 Staff y GIG;<br>• ffurflen ganiatâd brechu COVID-19 ar gyfer plant a phobl ifanc; ac |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • unrhyw ffurflenni eraill y mae D yn eu dosbarthu i gleifion yn ei ganolfannau brechu.<br>2. Rhaid i D gynnal arolygon gwirio i fonitro a yw fersiynau Cymraeg o ffurflenni yn cael eu rhoi i aelodau'r cyhoedd yn ddi-ofyn yn ei ganolfannau brechu (yn unol â gofynion safon 38).<br>3. Rhaid i D adrodd a chraffu ar ganlyniadau'r arolygon gwirio er mwyn ystyried unrhyw gamau pellach y mae angen iddo eu cymryd i sicrhau gwelliant yn ei gydymffurfiaeth â safon 38 wrth rannu ffurflenni ag aelodau'r cyhoedd yn ei ganolfannau brechu.<br>4. Rhaid i D sicrhau bod y fersiwn Saesneg o unrhyw ffurflenni a roddir ar gael i aelodau'r cyhoedd yn ei ganolfannau brechu yn datgan yn glir fod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.<br><br>Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1–4. Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 18/05/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| <u>Cyngor Caerdydd</u> | **<u>CSG814</u>** Ar 19/11/2020 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 | 16/05/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 52: Ar 19/11/2020, roedd testun Saesneg i'w weld ar ffurflen adborth ar fersiwn Gymraeg gwefan y Cyngor. |

Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roed y gŵyn yn ymwneud â gwefan Cyngor Caerdydd, yn benodol adran o'r wefan sy'n gwe-ddarlledu neu ffrydio cyfarfodydd, https://cardiff.public-i.tv/core/portal/home. Roedd yn honni nad oedd modd gwylio cyfarfod o gabinet y Cyngor ar fersiwn Gymraeg y wefan ar y dyddiad uchod. Dangosodd y dystiolaeth bod yr eglurhad canlynol i'w weld ar y dudalen we berthnasol: "Roedd amhariad wrth chwarae'r fideo. Wrthi'n ceisio ei chwarae eto. "Roedd hyn yn wahanol i fersiwn Saesneg y wefan ble roedd yn bosib gwylio'r cyfarfod yn ddidrafferth. Hwn oedd yr ail dro i'r achwynydd gwyno i mi am y gwasanaeth gwe-ddarlledu. Cwynodd nad oedd modd gwylio cyfarfod cabinet 24ain o Fedi 2020 ar fersiwn Gymraeg y wefan. Penderfynais beidio ymchwilio bryd hynny ar sail sylwadau a dderbyniais gan y Cyngor yn nodi bod mesurau ar waith i ddatrys y mater. Roedd yn ymddangos nad oedd y mesurau hynny wedi llwyddo mewn pryd ar gyfer cyfarfod y 19fed o Dachwedd 2020. Roedd hynny'n golygu nad oedd holl destun y dudalen ar gael yn Gymraeg. Roedd hyn hefyd yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â gofynion y safon.

Safon 156: Rhaid i'r Cyngor gael gweithdrefn gwyno sy'n mynd i'r afael â sut y mae'n bwriadu delio â chwynion am ei gydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, ymysg materion eraill. Mae gan y Cyngor weithdrefn a elwir ganddo yn Bolisi Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol. Mae'r polisi'n nodi ei fod yn berthnasol i gwynion am gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau. Mae hefyd yn nodi y gwahanol ffyrdd o wneud cwyn. Nid yw'r ffurflen adborth yn un o'r dulliau hynny.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 156, ond bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal archwiliadau rheolaidd o'i wasanaeth gwe-ddarlledu er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion y safon.

Roedd y gŵyn hefyd yn honni bod testun Saesneg i'w weld ar ffurflen adborth ar y wefan er mwyn rhoi gwybod am unrhyw broblemau technegol. Dangosodd y dystiolaeth bod y geiriau 'I am not a robot', 'City of Cardiff Council',a 'Privacy Policy' i'w gweld.

2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw addasiadau i'w wasanaeth gwe-ddarlledu yn cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n cymryd gofynion y safonau i ystyriaeth.
3. Rhaid i'r Cyngor atgoffa Public-i o ofynion safonau'r Gymraeg a'i gyfrifoldebau fel darparwr gwasanaeth ar ran y Cyngor.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 52: Rhoi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Cedwir yr hawl i roi cyhoeddusrwydd i'r ymchwiliad hwn fel modd o addysgu awdurdodau lleol eraill sy'n defnyddio trydydd parti i ddarparu gwasanaethau gwe-ddarlledu ar eu rhan.

Safon 52: Ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Dan yr amgylchiadau, nid yw gweithredu dan adran 77(3) o'r Mesur yn rhesymol gan na fyddai'n dod a datrysiad i'r broblem.

Mae'r gwasanaeth gyda'r geiriau Saesneg yn unig 'I'm not a robot' yn cael ei ddarparu gan gorff allanol(nid ar ran y Cyngor), ac nid yw'r Gymraeg ar gael gan y darparwr eto.

Am y rhesymau a roddir yn yr adroddiad terfynol, ac yn dilyn ymgynghoriad llwyddiannus gyda'r Cyngor, byddaf yn ymrwymo mewn cytundeb setlo dan adran 77(4) y Mesur at y diben o sicrhau y bydd y Cyngor yn cydymffurfio pan fydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hynny'n bosib. Bydd y cytundeb setlo yn cynnwys y telerau a gynhwysir ac a gynigir yn yr adroddiad terfynol.<br><br>Os na fydd y Cyngor yn fodlon arwyddo cytundeb setlo gyda'r Comisiynydd ar y telerau hyn (neu rai tebyg), mae'r Comisiynydd yn cadw'r hawl i ofyn am weithredu pellach ar un o'r seiliau eraill a gynhwysir yn adran 77 y Mesur.<br><br>**Amserlen i'r Cyngor dderbyn telerau'r cytundeb setlo drafft, neu i wneud sylwadau ynghylch y telerau: 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno yr adroddiad terfynol hwn.**<br><br>Safon 156: Argymhelliad yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg<br>Dylai'r Cyngor ystyried ei gwneud yn glir ar ffurflen adborth y gwasanaeth gwe-ddarlledu nad yw'r ffurflen yn ddull o gwyno am gydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg<br><br>Terfynwyd y cytundeb setlo trwy gytundeb ar y cyd rhwng y partïon ar 25/03/2024<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 16/05/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS079** Ar 08/09/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. | 16/05/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd** |

| | |
|---|---|
| Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnodd yr achwynydd bod gwybodaeth am gyfleusterau gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig. | Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Nid oes unrhyw un o'r eithriadau i gydymffurfio gyda Safon 52 yn berthnasol yma. Yn yr achos yma, mae gwybodaeth cyfleusterau gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 52 gan nad yw'r wybodaeth dan sylw ar gael yn Gymraeg ar y wefan. Nid yw'r wybodaeth dan sylw yn dod o dan un o'r eithriadau i gydymffurfio gyda Safon 52.<br><br>Safon 56: Mae safon 56 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg. Nid oes unrhyw un o'r eithriadau i gydymffurfio gyda Safon 56 yn berthnasol yma. Yn yr achos yma, mae'r dewislenni ar y tudalennau cyfleusterau a gwybodaeth gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 56 gan nad yw'r dewislenni dan sylw ar gael yn Gymraeg ar y wefan. Nid yw'r wybodaeth dan sylw yn dod o dan un o'r eithriadau i gydymffurfio gyda Safon 56.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 56.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach** |

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 56.

**Datganiad ar y Gweithredu Pellach**

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein yn ymwneud a gwybodaeth a chyfleusterau gorsaf gorsafoedd yng Nghymru ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Rhaid i'r wybodaeth yma gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

3. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein yn ymwneud a gwybodaeth a chyfleusterau gorsaf y gorsafoedd tu allan i Gymru fod ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Rhaid i'r wybodaeth yma gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Safon 56: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>5. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau eu bod yn darparu dewislenni ar dudalennau gwybodaeth a chyfleusterau gorsafoedd ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn y Gymraeg.<br>6. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 16/05/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | **CS074** Ar 12 Awst 2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn mynegi pryder bod Cyngor Celfyddydau Cymru (y Cyngor) wedi hysbysebu swydd Cyfarwyddwr Datblygu'r | 13/05/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 132: Hysbysebodd y Cyngor swydd Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau gyda'r Gymraeg wedi ei nodi fel sgil ddymunol iawn. Mae safon 132 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gynnal asesiad o anghenion ieithyddol y swydd ac i gategoreiddio'r swydd yn unol â'r rhestr sydd wedi ei chynnwys yng ngeiriad y safon. Nid yw "dymunol iawn" yn gategori sydd yn cyd-fynd â gofynion safon 132. Yn ogystal, nid yw'n glir sut daeth y Cyngor i'r casgliad y dylid |

Celfyddydau gyda'r Gymraeg yn sgil ddymunol. Honnir nad yw'r Cyngor wedi cynnal asesiad trylwyr o anghenion ieithyddol y swydd cyn ei hysbysebu.

categoreiddio  y swydd fel un lle bo sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol iawn, ar sail canfyddiadau'r asesiad a gynhaliwyd. Mae'n ymddangos bod gwrthdaro rhwng canfyddiadau'r asesiad a'r categori â bennwyd ar gyfer y swydd. Casglaf felly na chynhaliwyd yr asesiad yn unol ag amcanion safon 132. Rwy'n cydnabod bod y Cyngor bellach wedi penderfynu hysbysebu'r swydd gyda'r Gymraeg yn hanfodol, serch hynny, mae'n rhaid i mi ddyfarnu ar yr achos ar yr adeg y gwnaeth yr achwynydd gyflwyno ei gŵyn i mi.

Safon 147: Bu i'r Cyngor hysbysebu swydd Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau ym mis Gorffennaf 2021. Roedd safon 147 yn ei gwneud yn ofynnol ar y Cyngor i gadw cofnod o'r asesiad a gynhaliwyd o anghenion ieithyddol y swydd. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno copi o'r asesiad a gynhaliwyd o swydd y Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau. Casglaf felly nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 147.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Celfyddydau Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 147, ond bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 132.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 132.

**Datganiad ar y Gweithredu Pellach**

Safon132: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru gategoreiddio pob swydd wag a newydd a hysbysebir yn unol â'r categorïau a restrir yn safon 132.
2. Rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru gynnal adolygiad llawn o'i brosesau ar gyfer cynnal asesiad o anghenion ieithyddol swyddi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion safon 132.
3. Yn dilyn cynnal yr adolygiad, rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru ddiwygio ei dempled ar gyfer asesu anghenion ieithyddol swyddi gwag a newydd. Dylai'r templed:
   - egluro union ofyniad y safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio a rhoi arweiniad ar y ffactorau ddylid eu hystyried a'r categorïau cyfatebol.
   - osod allan y camau i'w cymryd i sicrhau bod yr asesiad a gynhelir yn wrthrychol, ystyrlon a manwl.
   - sicrhau bod y sawl sydd yn cynnal yr asesiad yn ystyried yrholl gategorïau a restrir yn safon 132.
   - sicrhau bod yr asesiad a gynhelir yn canolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl yn unol â'r swydd ddisgrifiad.
   - bwysleisio'r angen i lynu wrth ganfyddiad yr asesiad wrth bennu'r categori ar gyfer y gofyniad ieithyddol.
   - sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin fel pob sgil arall sydd wedi ei bennu yn ofynnol ar gyfer cyflawni'r rôl.

   Dylid ystyried dogfen gyngor y Comisiynydd ar recriwtio wrth i'r Cyngor adolygu a diwygio ei brosesau ar gyfer asesu gofynion ieithyddol swyddi newydd a gwag.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 4. Rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 -3.<br><br>Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Celfyddydau Cymru ar 13/05/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Sir y Fflint | **CS086** Ar 28/09/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniais gŵyn gan yr achwynydd bod dau arwydd ffordd uniaith Saesneg, tu allan i dafarn yr Hollybush yng Nghefn y Bedd, un am 'Nursing Home' ac un yn dangos enwau 'Llay' a 'Rossett' wedi eu tynnu gan y Cyngor a bod arwydd newydd uniaith Saesneg, gyda'r wybodaeth yma wedi ei osod yn eil le. Wrth ystyried y gŵyn, holodd fy swyddogion yr achwynydd am fwy o fanylion ynghylch yr arwyddion newydd a | 28/04/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 61: Gofynion safon 61 yw, wrth osod arwydd newydd neu adnewyddu arwydd, bod rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (un ai ar yr un arwydd neu ar arwydd ar wahân). Os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid peidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Roedd arwyddion ffordd uniaith Saesneg newydd wedi eu gosod yn sgil y gwaith ffordd a wnaed o flaen Tafarn yr Hollybush yng Nghefn y Bedd, yn hytrach nag ail osod arwyddion newydd dwyieithog fel y disgwylir gan Safon 61. Drwy osod arwyddion newydd uniaith Saesneg, yn hytrach na rhai dwyieithog, roedd hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 61.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd** |

osodwyd. Wrth ymateb i'm ymholiadau dywedodd yr achwynydd: Y llun yn eich ebost ydy'r hen un wedi bod yno dros blynyddoedd, fy mhwynt fi oedd gaeth y cyngor cyfle gwych i gywirio y ffaith roedd "Nursing Home" yn Saesneg yn unig pan newid y cyffordd i gael goleuadau traffig. Maen nhw wedi ail-osod yr arwyddion a rwan mae "Llay", "Rossett" a "Nursing Home" ar yr un arwydd, fel hwn... Cadarnhaodd yr achwynydd fod yr arwydd 'Give Way' a welwyd y llun gwreiddiol ddim yno mwyach, gan fod trefn trafnidiaeth newydd mewn lle, fel y gwelir yn y llun.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 61.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 61.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint dynnu'r arwyddion uniaith Saesneg osodwyd tu allan i dafarn yr Hollybush a gosod arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog yn eu lle.
2. Rhaid i Cyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a/neu ddarparu lluniau sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1. Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol
3. Rhaid i Cyngor Sir y Fflint sicrhau bod unrhyw arwyddion sydd wedi (ac a gaiff) eu gosod yn lleoliadau reolir gan Gyngor Sir y Fflint gydymffurfio â gofynion safon 61.
4. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu canllawiau i swyddogion ac unrhyw gontractwyr a ddefnyddir am ofynion safon 61 wrth osod neu ail-osod arwyddion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 61.
5. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ystyried cyflwyno cymalau yn eu contractau gyda sefydliadau trydydd parti

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sydd yn rhoi dirwy neu sydd yn rhoi cymalau cosb ar y sefydliad pan nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y safonau ar ran y Cyngor.<br>6. Rhaid i Cyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 3 - 6.<br><br>Amserlen: O fewn chwech mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 28/04/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Coleg Gŵyr Abertawe | **CS085** Mae arolygon gwirio diweddar fy swyddogion o dudalennau recriwtio ar wefan Coleg Gŵyr Abertawe wedi codi amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'n ymddangos bod rhannau o hysbysiadau swyddi perthnasol a geir ar wefan y Coleg yn cynnwys geirfa Saesneg yn unig ar eu tudalen Gymraeg. Ymadroddion megis "Reference", "Expiry date", "location", "salary" a "benefits". Ymddengys bod hysbysebion | 28/04/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 145A: Mae safon 145A yn gofyn i gorff, pan fydd yn categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid iddo bennu hynny wrth hysbysebu'r swydd a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg. Gwnaeth arolygon gwirio diweddar fy swyddogion, o dudalennau recriwtio ar wefan Coleg Gŵyr Abertawe amlygu bod rhannau o hysbysiadau swyddi perthnasol a geir ar wefan y Coleg yn cynnwys geirfa Saesneg yn unig ar eu tudalen Gymraeg. Ymadroddion megis "Reference", "Expiry date", "location", "salary" a "benefits". Mae hyn yn dangos methiant gan y Coleg i gydymffurfio â gofynion safon 145A. |

swyddi'r Coleg ar lein yn amlygu mai trwy gyfrwng y Saesneg yn unig mae opsiwn i ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth gychwynnol amdanynt wrth ymgeisio am swyddi ar ôl pwyso’r botwm ‘apply now’ ar wefan y Coleg. Ymddengys bod y coleg yn defnyddio meddalwedd ‘vacancy filler’ at y diben hwn, ac nad yw’n rhoi opsiwn Cymraeg i ymgeiswyr. Ceir ansicrwydd ynghylch a oedd ffurflenni cais y Coleg yn cynnwys gwybodaeth ynghylch cyfle i nodi os hoffai ymgeiswyr gael cyfweliad / asesiad yn Gymraeg. Mae’r amgylchiadau’n creu amheuaeth o fethiant gan y Coleg i gydymffurfio â safonau’r Gymraeg.

Safon 146A: Os yw corff yn cyhoeddi’r canlynol, rhaid iddo eu cyhoeddi yn Gymraeg:

- ffurflenni cais am swyddi
- deunydd esboniadol ynghylch ei broses ar gyfer ymgeisio am swyddi
- gwybodaeth am y broses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi, neu
- swydd-ddisgrifiadau.

Rhaid iddo hefyd sicrhau na chaiff unrhyw fersiynau Cymraeg o’r dogfennau eu trin yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.

Cyhoeddodd y Coleg ffurflenni cais am swydd ar ei wefan gyda’r dudalen gychwynnol ar gael yn Saesneg yn unig drwy ddilyn y ddolen sy’n nodi ‘Apply Now’. Mae hyn yn dangos methiant gan y Coleg i gydymffurfio â gofynion safon 146A.

Safon 148: Mae safon 148 yn gofyn i gorff sicrhau bod ei ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio’r Gymraeg mewn cyfweliad neu ddull arall o asesiad, ac yn esbonio y bydd y corff yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen. Nid yw ffurflenni cais am swydd Coleg Gŵyr Abertawe yn amlygu bod gwahoddiad i bersonau nodi os ydynt yn dymuno defnyddio’r Gymraeg mewn cyfweliad, ac yn nodi y byddir yn darparu ar gyfer hynny. Mae hyn yn dangos methiant y Coleg i gydymffurfio â safon 148

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Coleg Gŵyr Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 145A, 146A a 148.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Coleg Gŵyr Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 145A, 146A a 148.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 145A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Goleg Gŵyr Abertawe sicrhau bod pob elfen o'i hysbysiadau swyddi yn cydymffurfio â safon 145A.

2. Rhaid i Goleg Gŵyr Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 146A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Goleg Gŵyr Abertawe sicrhau bod pob ffurflen gais yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â gofynion safon 146A.

4. Rhaid i Goleg Gŵyr Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 148: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 5. Rhaid i Goleg Gŵyr Abertawe sicrhau bod pob ffurflen gais yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu mewn asesiad, ac yn esbonio y bydd gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu os oes angen.<br><br>6. Rhaid i Goleg Gŵyr Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Goleg Gŵyr Abertawe ar 28/04/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS081** Ar 13/09/21 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r achwynydd yn honni bod paneli gwybodaeth ble roedd rhan fwyaf o'r testun yn Saesneg ac arwydd dwyieithog gwallus o ran ystyr a mynegiant wedi eu harddangos yn un o ganolfannau Cadw, Neuadd Ganoloesol Hafoty yn Ynys Môn ar y 5ed o Fedi 2021. | 06/04/2022 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 38: Mae Safon 38 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ddeunydd sydd yn cael ei arddangos yn gyhoeddus yn cael ei arddangos yn Gymraeg, ac nad yw unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.<br>Yn yr achos yma, mae testun wedi cael ei arddangos tair gwaith yn Saesneg a dim ond unwaith yn y Gymraeg. Mae hefyd testun Saesneg yn unig wedi ei roi ar y paneli gwybodaeth. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 38 gan fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

Safon 61: Mae safon 61 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau wrth osod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i gorff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.
Yn yr achos yma, cafodd arwydd ei osod yn safle Cadw, Hafoty yn Ynys Môn ble nad oedd y testun yn eglur na chywir o ran ystyr a mynegiant. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 61 gan fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar yr arwydd.

Safon 63: Mae safon 63 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.
Yn yr achos yma, cafodd arwydd ei osod yn safle Cadw, Hafoty yn Ynys Môn ble nad oedd y testun Cymraeg yn gywir o ran y geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir.
Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 63 gan nad yw'r testun Cymraeg ar yr arwydd yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 38, 61 a 63.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 38 a 61.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 38: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy’n cael ei arddangos (ac a gaiff ei arddangos) yn lleoliadau Cadw yn cydymffurfio â gofynion safon 61.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad llawn o’r modd y maent yn darparu hyfforddiant i dywyswyr llawrydd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r angen i gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad llawn o’r modd y maent yn sicrhau bod trydydd parti sy’n darparu gwasanaethau i’r cyhoedd ar eu rhan yn eu galluogi i gydymffurfio â’r safonau.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal yr adolygiad er mwyn ei alluogi i adnabod dull o bennu gofynion yn ymwneud â defnyddio’r Gymraeg, ar bartïon sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan, a fydd yn sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r safonau.
5. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

5. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw arwyddion, sydd wedi (ac a gaiff) eu gosod yn lleoliadau Cadw yn cydymffurfio â gofynion safon 61.

| | |
|---|---|
| | Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 06/04/2022.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |